

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</b>	<b>CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE</b>
<b>DYDD LLUN, 12 MAI 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn</b>	<b>MONDAY 12 MAY, 2014 at 2:00 p.m.</b>
<b>SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

## **ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones

## **LLAFUR/LABOUR**

Sedd Wag/Vacant Seat

## **PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones , Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

## **GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

P S Rogers a Jeffrey M.Evans

## **AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAI PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a  
Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD**

Y Cadeirydd i roi diweddariad ar unrhyw faterion sydd wedi codi ers cyfarfod balenorol y Pwyllgor.

### 3 **COFNODION CYFARFOD 17 EBRILL, 2014** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2014 yn cael ei cyflwyno i'w cadarnhau.

### 4 **ENWEBIAD I'R PANEL RHiantu CORFFORAETHOL** (Tudalennau 7 - 8)

Enwebu un aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panel Rhiantu Corfforaethol.

### 5 **EITEM A OHIRIWDYD O'R CYFARFOD BLAENOROL - UNED CYNNAL A CHADW ADEILADAU'R GWASANAETH TAI** (Tudalennau 9 - 174)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai ynglyn â'r adolygiad o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau.

### 6 **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2013/14** (Tudalennau 175 - 182)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol ar ddiwedd Chwarter 4 2013/14.

### 7 **TREFNIADAU DIOGELU PLANT MEWN YSGOLION** (Tudalennau 183 - 186)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

### 8 **CAIS SGRIWTINI - CAU'R B4419 YM MHENTRE BERW** (Tudalennau 187 - 190)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thechnegol.

### 9 **BLAENRHAGLEN WAITH** (Tudalennau 191 - 196)

Cyflwyno'r Blaenrhaglen Waith.

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2014

<b>PRESENNOL:</b>	Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd) Cynghorydd Gwilym O.Jones (Is-Gadeirydd)  Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws
<b>WRTH LAW:</b>	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democraidd Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad Ymgynghorydd Perfformiad (NE) Rheolwr Sgriwtini (BS) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Peter Rogers, Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Addysg), Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Weithredwr.

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

#### 2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD

- Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau nad oedd wedi gallu mynychu'r ddau gyfarfod blaenorol o'r Panel Iaith Gymraeg ond ei fod yn bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod oedd wedi ei drefnu ar gyfer 29 Ebrill. Mae panel wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod ddwywaith i edrych ar y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2015/16.
- Adroddiad ar Drawsnewid –
  - Dywedodd y Cynghorydd Llinos Huws bod y Bwrdd Prosiect Moderneiddio Ysgolion wedi cyfarfod ddechrau mis Ebrill lle'r oedd ystyriaeth wedi ei roi i safleoedd posibl fel rhan o'r ymgynghori ar y Llannau ac i opsiynau yng Nghaerdydd yn cynnwys costau ac adeilad safonol. Mae Swyddogion Ilywodraeth Cymru wedi cyfarfod ag Aelodau'r Bwrdd ynglŷn â'r RhAS.
  - Cadarnhaodd y Cynghorydd Victor Hughes bod y Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach yn parhau gyda'i raglen uchelgeisiol a bod nifer o faterion yn cael eu hystyried a bod y targedau a'r cyfnodau amser yn rhai heriol.

#### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014.

Materion yn codi –

- Cadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini bod sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'i archwiliad manwl o'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 wedi ei adrodd yn ôl gan y Deilydd Portffolio ar gyfer Perfformiad, Trawsnewid, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol i'r Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Chwefror ac roedd gwerth cyfraniad y Pwyllgor wedi ei gydnabod.
- Mewn perthynas ag amser y cyfarfodydd o'r Pwyllgor dywedodd y Cadeirydd iddo gael ei hysbysu gan y Cynghorydd Ann Griffith na fyddai hi yn gallu mynychu pob un o Gyfarfodydd y

Cyngor oherwydd eu bod yn cychwyn yn y prynhawn. Crybwyllodd y Cadeirydd y posibilrwydd o newid amseriad y cyfarfodydd o'r Pwyllgor.

Atgoffodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau bod y Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod blaenorol ac fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor Sir ar amseriad rhai cyfarfodydd o Bwyllgorau penodol wedi ail-gadarnhau ei ddewis i gael amser cychwyn o 2:00pm, a bod y Cyngor wedyn hynny yn dilyn rhoi sylw i safbwyntiau'r ddau Bwyllgor Sgrïwtini wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2014 na fyddai yna unrhyw newid yn amseroedd cychwyn y ddau bwyllgor hwnnw h.y. byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal am 2:00pm.

#### 4 DOGFEN DDARPARU FLYNYDDOL 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Rhaglen a Busnes yn ymgorffori dogfen ddarparu flynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (Cynllun Gwella) 2014/15 i ystyriaeth ac er sylwadau'r Pwyllgor.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformio bod y Ddogfen Ddarparu Flynyddol yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn darparu ar ei addewidion dros y deuddeng mis sydd i ddod o dan y saith thema allweddol yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17, a rhoddodd amlinelliad byr ohono.

Roedd y canlynol yn faterion a amlygwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ar y ddogfen:

- Gofynnwyd ym mha ffordd yr oedd y ddogfen ddarparu yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol. Eglurodd y Cynghorydd Perfformiad bod y Ddogfen Ddarparu yn crynhoi sut y mae'r gwasanaethau yn bwriadu cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2014/15.
- Crybwyllwyd y bwriad i sefydlu Panel Strategaeth Ddiogelu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ac awgrymwyd y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y Ddogfen Ddarparu. Dywedodd y Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol bod systemau diogelu yn eu lle ond roedd angen o hyd i barhau i ddatblygu ymwybyddiaeth Aelodau o'u cyfrifoldebau yng nghyswllt rhiantu corfforaethol a beth yr oedd y rôl honno yn ei olygu.
- Tra'n derbyn y ddogfen fel un uchelgeisiol ac un oedd i'w chanmol yn ei bwriadau, mynegwyd peth pryder ynglŷn â pha mor gyraeddadwy ydoedd o fewn amserlen o flwyddyn ac o fewn cyd-destun o adnoddau oedd yn prin. Pwysleisiwyd bod angen i amcanion fod yn rhai realistig a chyraeddadwy ac yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth o sut y maent yn mynd i gael eu hariannu. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod ystyriaeth ddyledus wedi ei roi i fwriadau'r ddogfen ac i'r hyn sy'n bosibl ac fe allai bob un o'r Deilyddion Portffolio dystio i drylwyrdd y broses. Nid yw'r ddogfen ddarparu yn bwriadu dweud y bydd yr holl amcanion i bob un o'r meysydd ffocws yn cael eu cwblhau e.e. yng nghyswllt tai gofal ychwanegol bydd angen gwneud y gwaith paratoi fel y gellir symud ymlaen i ddarparu'r tai gofal ychwanegol. At hyn, mae'r ddogfen yn cael ei chefnogi gan fframwaith atebolrwydd ar ffurf y byrddau prosiect a thrawsnewid er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r targedau. O safbwynt y gwasanaeth tai, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Tai ei bod yn hyderus y bydd yr amcanion ar gyfer y Gwasanaethau Tai yn cael eu cyflawni a'u bod wedi eu cefnogi gan gynlluniau busnes manwl.
- Y trefniadau ar gyfer monitro darpariaeth a chyflawni pob maes ffocws. Dywedodd y Cynghorydd Perfformiad y bydd y gwaith o ddarparu'r themâu a'r canlyniadau yn llwyddiannus yn cael ei fonitro drwy brosesau rheoli perfformiad sefydlog yr Awdurdod a gweithdrefnau eraill yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol rheolaidd lle bydd gwasanaethau'n cael eu herio ar eu perfformiad a'u defnydd o adnoddau.
- A yw trawsnewid system TGCh yr Awdurdod i'w alluogi i ddod yn sefydliad 24/7 yn ymarferol o fewn amserlen o flwyddyn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y gwaith o gyflwyno'r SRhPC (System Rheoli Perthynas Cwsmer) yn parhau a hynny'n caniatáu i gwsmeriaid gynnal trafodion o'r cychwyn i'w diwedd gyda dim ond ychydig neu ddim ymyrraeth gan swyddogion. Mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i systemau eraill sy'n rhoi mynediad ar-lein i gwsmeriaid i wybodaeth e.e. Y Dreth Gyngor. Wrth reswm bydd raid talu sylw i gwsmeriaid nad oes ganddynt fynediad i'r Rhyngwyd drwy weithio gyda phartneriaid ynglŷn â darparu gwasanaethau band llydan, a rhaid i'r Awdurdod foderneiddio ei systemau ac roedd hynny yn golygu rhyngweithio a manteisio ar y cyfleon yng nghyswllt e-lywodraeth.
- Lleisiodd y Cynghorydd Llinos Huws nifer o bwyntiau penodol yn y ddogfen yn cynnwys mewn perthynas â'r rhaglen ail-alluogi a'r gostyngiad mewn cyllid i sefydliadau gwirfoddol ac mewn perthynas ag adfywio cymunedol a chyfleon a cyflogaeth a chreu prentisiaethau a dywedodd y byddai'n cysylltu'n uniongyrchol ar y materion hyn gydag Arweinydd y Cyngor.

- Cafwyd awgrym y gellid gwneud y defnydd gorau o Sgriwtini drwy ganolbwyntio ar y saith thema yn y ddogfen a thrwy ail-ymweld â'r themâu hynny yn ystod y flwyddyn i fonitro canlyniadau. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini - i wrpas y cyfarfod briffio sgrwtini roedd wedi ail-weithio'r ddogfen i ffurf tabl i Aelodau ei ddefnyddio i allu cymharu gyda'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Dywedodd y Swyddog y gallai'r themâu gael eu cynnwys o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor drwy gysylltu i mewn rai o'r adroddiadau gwasanaeth gyda cyfarfod yn cael ei drefnu o'i gwmpas fel y gallai Aelodau'r Pwyllgor a Sgriwtini fel tîm gael eu cadw ar y blaen gyda datblygiadau a'u bod yn gallu ychwanegu gwerth i'r broses. Yng nghyswilt fformat y Ddogfen Ddarparu dywedodd y Cynghorydd Perfformiad bod y ddogfen ar ffurf naratif oherwydd ei bod yn ddogfen oedd yn cyfeirio at allan ac ar gyfer y cyhoedd.

**Penderfynwyd derbyn y Ddogfen Ddarparu Flynyddol am 2014/15 ac i nodi ei gynnwys a hefyd y sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth arno.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd i benderfynu ar y ffordd orau o ymgorffori themâu'r Ddogfen Ddarparu o fewn Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer sgrwtini yn ystod y flwyddyn.**

## 5 CYTUNDEB CANLYNIAD 2013/16

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Rhaglen a Busnes ynglŷn â'r Cytundeb Canlyniad newydd am y cyfnod 2013 - 2016. Roedd yr adroddiad yn nodi'r pum thema strategol a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru o'i Raglen ar gyfer Llywodraethu ynghyd â gweithgareddau a thargedau manwl ar gyfer pob thema strategol fel oedd i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.

Eglurodd y Cynghorydd Perfformiad beth oedd y sail ar gyfer talu'r grant Cytundeb Canlyniad a'r amodau oedd ynglŷn â hynny yn ogystal â'r dewis o'r themâu strategol yn seiliedig ar eu perthynas agos gyda blaenoriaethau'r cynllun Corfforaethol, sail dystiolaeth gref ar gyfradd o lwyddiant tebygol. Cadarnhaodd y Swyddog bod Llywodraeth Cymru bellach wedi derbyn y Cytundeb Canlyniad 2013-16.

Roedd yr Aelodau am gael gwybodaeth ynglŷn â'r materion canlynol yn yr adroddiad -

- Eglurhad o'r prosesau talu a gosod targedau.
- Diffyg eglurder a manylion o amgylch rhai o'r targedau gyda hynny'n gwneud sgrwtini yn anodd.
- Ymddengys bod gwrthdaro sylfaenol rhwng y targedau a osodwyd a realiti'r sefyllfa lle mae'r adnoddau a'r gwasanaethau sy'n galluogi'r targedau gael eu cyflawni yn cael eu lleihau ac yn prinhaus. Dywedodd yr Arweinydd y gallai y bydd gostyngiadau mewn blynyddoedd i ddod yn cael effaith ar gyflawni targedau, mae yna dystiolaeth glir ar hyn o bryd bod yr Awdurdod yn cyfarfod â'r targedau y mae wedi eu gosod e.e. gyda gwella profiadau blynyddoedd cynnar.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Perfformiad yng nghyswilt y broses bod gan y Pwyllgor Sgriwtini rôl allweddol i'w chwarae gyda monitro a sicrhau y darperir ar y targedau sydd wedi eu gosod o dan bob un o'r themâu strategol dros gwrs y Cytundeb Canlyniad.

**Penderfynwyd derbyn Cytundeb Canlyniad 2013-16 ac argymhell ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Mai, 2014.**

## DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn cynnwys y canlyniadau diwedd cyfnod allweddol am y flwyddyn academaidd flaenorol ynghyd â gwybodaeth ynglŷn ag addysg ôl-16, profion darllen, presenoldeb yn yr ysgolion a chanlyniadau archwiliadau ysgol. .

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Ysgolion, Safonau a Chynhwysiad at Tabl 1 yr adroddiad oedd yn dangos canran y disgyblion o oed ysgol statudol sydd â hawl i ginio ysgol am ddim ym Môn am y 4 blynedd ddiwethaf o gymharu â Chymru ac awdurdodau unigol. Mae Ynys Môn yn yr 13 safle allan o 22 awdurdod yng Nghymru yn hyn o beth. Mae'r tabl yn awgrymu, os yw'r hawl i ginio

ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, yna dylai perfformiad Ynys Môn fod yn yr hanner uchaf ymysg awdurdodau Cymru h.y. yn uwch na'r safle prydau ysgol am ddim, felly 12<sup>fed</sup> neu uwch. Dywedodd y Swyddog bod y data yn dangos bod y perfformiad yn ysgolion Ynys Môn yn yr holl gyfnodau allweddol wedi gwella ac aeth ymlaen i ehangu ar y manylion yn y tablau o fewn yr adroddiad o ran yr hyn yr oeddent yn eu hadlewyrchu am berfformiad ar bob cyfnod allweddol ac yn erbyn y meincnodau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â'r arfer yn Ynys Môn, roedd y Deilydd Portffolio Addysg wedi ei hysbysu am yr ysgolion unigol hynny lle y bu'r perfformiad yn y chwarter isaf am dair blynedd. Awgrymodd y Swyddog y gallai'r Pwyllgor efallai fod eisiau ystyried a rhannu'r wybodaeth honno gyda'r Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Ystyriwyd yr adroddiad gan yr Aelodau gan gydnabod y gwelliant cyffredinol a wnaed. Gofynnwyd a oedd rhieni yn derbyn gwybodaeth am ysgolion yn tanberfformio. Awgrymwyd hefyd bod cefndir economaidd yn rhywbeth allweddol ar gyfer penderfynu gallu addysgol ac y gall yn y pendraw gael dylanwad ar gyraeddiad. Dywedodd yr Uwch Reolwr Ysgolion, Safonau a Chynhwysiad bod angen i ysgolion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol ddarparu ynghyd â'r adroddiad blynyddol i rieni, gymhariaeth ystadegol gyda chanlyniadau'n genedlaethol o ganlyniadau'r ysgol ar gyfer y grŵp o blant sy'n cynnwys eu plentyn hwy. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes mai nod yr Awdurdod Addysg yw datblygu systemau sy'n galluogi ac yn sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo eu cefndir economaidd, yn cyflawni eu potensial.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## **7 SETIAU DATA CRAIDD YR AWDURDOD LLEOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn cynnwys setiau data craidd yr Awdurdod Lleol i sylw'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad addysgol yn erbyn y prif ddangosyddion a thrwy hynny yn caniatáu i gymhariaeth gael ei wneud o berfformiad rhwng awdurdodau yng Nghymru yn ogystal â chymhariaeth o berfformiad bechgyn a genethod a hefyd berfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## **8 UNED CYNNAL A CHADW BUSNES GWASANAETHAU TAI**

**Oherwydd na chafwyd digon o amser i'r Aelodau ystyried dogfennau cynhwysfawr mewn perthynas â'r mater hwn, penderfynwyd gohirio ystyried yr eitem hyd gyfarfod nesaf y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 12 Mai.** Gwahoddwyd y Pennaeth Gwasanaethau Tai gan y Cadeirydd i roi cyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor ar gefndir a hefyd wybodaeth gyd-destunol a rhoddwyd cyfle wedyn i'r Aelodau ofyn cwestiynau i'r Swyddog.

## **9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgrwtini yn cynnwys Blaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor am 2014/15 i sylw'r Pwyllgor.

Nododd y Rheolwr Sgrwtini y materion canlynol –

- Mae nifer o gyfarfodydd adolygu gwasanaeth wedi eu cynllunio ac y mae'r Cadeirydd wedi ei wahodd iddynt. Bwriad y Cadeirydd yw dyrannu rhai o'r cyfarfodydd i Aelodau eraill o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a bydd y trefniadau hyn yn cael eu trafod gyda'r Aelodau.
- Roedd y Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol wedi gofyn am adborth gan Aelodau Sgrwtini ar y rhaglen ar ddiwedd 12 mis o'i gweithredu fel y gall trefniadau'r bwrdd/prosiect gael eu gwella os oes angen.
- Mae'r Flaenraglen Waith yn hyblyg er mwyn gallu cynnwys materion sy'n dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd.
- Gofynnir i'r Pwyllgor gefnogi newidiadau i'r Cyfansoddiad o ran bwriad y Pwyllgorau Trosolwg a Sgrwtini i gynyddu'r nifer o gyfarfodydd cyffredin o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ym mhob blwyddyn ddinesig o 6 i 8 ac i ganiatáu i gylch gorchwyl y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaethau ac Adfywio gael ei ymestyn i ganiatáu iddo ystyried gwaith oedd cyn hynny yn

disgyn y tu allan i'w sgôp a thrwy hynny ysgafnhau ychydig ar bwysau gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

- Gofynnir i'r Pwyllgor fod yn gefnogol i sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i fod a throsolwg ac i fonitro gweithrediad argymhellion cyllideb Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith (ynghlwm fel Atodiad 2) yn dilyn ystyried Cyllideb Gorfforaethol 2014/15. Y panel i gyfarfod yn ddau fisol.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Flaenraglen Waith oedd i'w gweld yn Atodiad 1.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol baratoi gyda'i gilydd adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny i'r Cyngor Sir, yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynyddu'r nifer o gyfarfodydd cyffredin o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o 6 i 8 ym mhob blwyddyn ddinesig, ac i newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio i ganiatáu iddo ystyried y materion sydd ar hyn o bryd yn disgyn o fewn sgôp y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**
- **Bod yn gefnogol i sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i fonitro argymhellion cyllidebol Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried Cyllideb Gorfforaethol 2014/15.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i anfon e-bost i Aelodau i gael enwebiadau i wasanaethu ar y Panel Canlyniad Sgriwtini y Gyllideb yn ychwanegol i'r Cadeirydd ac/neu'r Is-Gadeirydd.**

**10 Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd ei fod wedi ei drefnu ar gyfer 2:00 p.m. dydd Llun 12 Mai 2014.

**Cynghorydd R.Meirion Jones  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD AT:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12 Mai 2014</b>
<b>PWNC :</b>	<b>Enwebu</b>
<b>AELODAU PORTFOLLIO( AU):</b>	-
<b>AWDUR YR ADRODDIAD</b> <b>Rhif Ffôn:</b> <b>E-bost:</b>	<b>Rheolwr Sgriwtini</b> <b>01248752078</b> <b>bsxce@anglesey.gov.uk</b>

## **1.0 ARGYMHELLION**

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod o'r Pwyllgor i eistedd ar Panel Rhiant Corfforaethol o Mai 2014 i Mai 2015.

## **2.0 RHESWM**

2.1 Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol yw gweithredu ar ran y Cyngor i sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd â chyfrifoldeb i blant y gofelir amdanynt, pobl ifanc a rhai'n gadael gofal o safon uchel ac yn gwella cyfleon bywyd plant y gofelir amdanynt i fod fel eu cyfoedion. Mae o ddeutu 4 cyfarfod arferol o'r Panel phob blwyddyn ond mae phosib cael cyfarfodydd ychwanegol Yr aelod a enwebwyd i eistedd ar y Panel o Mai 2013 i Mai 2014 oedd y Cynghorydd Ann Griffith.

Awdur: Bev Symonds  
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini  
Dyddiad: 2 Mai 2014

This page is intentionally left blank

<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>12 Mai, 2014</b>
<b>Teitl yr Adroddiad:</b>	<b>Dyfodol yr Uned Cynnal Adeiladau yn y Gwasanaeth Tai (a elwir hefyd yn Sefydliad Llafur Uniongyrchol neu DLO)</b>
<b>Deilydd Portffolio:</b>	<b>Cynghorydd Kenneth P Hughes</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Shan L Williams</b>

## 1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliwyd gwerthusiad opsiynau cynhwysfawr o ddyfodol y Gwasanaeth Trwsio sy'n rhan o'r Gwasanaeth Tai yn ystod chwarter 4 2013 – 2014, ar ôl nodi bod angen trawsnewid a moderneiddio'r gwasanaeth Cynnal Adeiladau.
- 1.2 Rhennir yr adroddiad hwn yn ddwy ran. Mae rhan 1 yn ymwneud ag adolygu'r gwasanaeth cyfredol yn yr Uned Cynnal Adeiladau a chynllunio gweithredu gwasanaeth cyfredol tra bod rhan 2 yn canolbwyntio ar y Cynllun Busnes tymor canol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio.
- 1.3 Mae'r adolygiad a'r Cynllun Busnes yn rhoi sefydlogrwydd tymor byr i'r Gwasanaeth Trwsio, o fewn cyd-destun o'r Ddeddf Tai newydd a'i goblygiadau, amgylchedd economaidd presenol a'r dyfodol anelwig sydd o gwmpas goblygiadau Adolygiad Williams.
- 1.4 Bydd y prosiect Trawsfurfio Gwasanaeth Trwsio yn rhoi'r gwasanaeth mewn sefyllfa cryf er mwyn mynd i brofi'r farchnad ymhen 3 blynedd

## 2.0 Rhan 1 – adolygiad o wasanaeth cyfredol yr UCA

### 2.1 Opsiynau posib ar gyfer Model Gwasanaeth

Mae nifer o opsiynau gwahanol y gallai Cyngor Sir Ynys Môn eu hystyried fel ei fodel cyflawni ar gyfer ei wasanaethau trwsio yn y dyfodol ac edrychwyd ar yr isod mewn peth manylder:

- 2.1.1 **Cadw'r gwasanaeth yn fewnol gyda'r rhaniad cyfredol rhwng y cleient / contractor**, ond gweithio yn y dyfodol ar sail egwyddorion partneru a pharhau i foderneiddio'r gwasanaeth:

Mae cadw'r gwasanaeth yn fewnol yn golygu bod Ynys Môn yn gallu cadw rheolaeth o'r gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid a chyfrifoldeb hefyd am gyflawni'r weledigaeth y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tai ei gwireddu. Mae rhaniad rhwng cleient / contractor wedi ei feirniadu'n hallt yn y gorffennol gan y Comisiwn Archwilio, y Sefydliad Tai Siartredig a Swyddfa Archwilio Cymru ac felly byddai'n rhaid cael dadl gref ac achos busnes cadarn i gyfiawnhau ei gadw. Mae Solutions for Housing yn awgrymu na ellid ond gwneud hyn pe bai uwch swydd reoli yn cael ei chreu i oruchwylio gwaith y sefydliad llafur uniongyrchol ac ochr y cleient, gan ddod â'r ddwy ochr ynghyd fel eu bod yn gweithio fel un tîm o ran gwasanaethau trwsio. Fodd bynnag, gallai hynny fod yn ddrud ac efallai y byddai'n anodd mesur pa werth ychwanegol fyddai i'r cwsmeriaid a'r gwasanaeth o ganlyniad. Byddai angen cynllun busnes tymor canol i ddangos ymarferoldeb a byddai angen i'r gwasanaeth fwrw ymlaen gyda'i Raglen moderneiddio. Byddai'n hawdd allanoli'r opsiwn hwn yn y dyfodol pe na bai'n cwrdd â'r safonau gofynnol o ran perfformiad a gwasanaethau cwsmer i'r dyfodol.

**2.1.2 Cadw'r gwasanaeth yn fewnol ond cyfuno'r swyddogaethau cleient a contractor a moderneiddio'r gwasanaeth**, wedi ei gefnogi gan gynllun busnes tymor canol ar gyfer yr SLIU i sicrhau y gellir cyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r gofynion perfformio ar gyfer y gwasanaeth.

Byddai hyn yn golygu ailstrwythuro'r gwasanaeth atgyweirio ac uno'r timau cleient a contractor yn un tîm atgyweirio. Byddai ailstrwythuro yn gofyn hefyd am adolygu'r trefniant swyddfeydd cyfredol oherwydd y byddai'n rhaid i dimau sydd gan mwyaf yn gweithio gyda'i gilydd gael eu lleoli'n agos at ei gilydd. Byddai hyn hefyd yn osgoi'r perygl i'r 'bathodyn teitl newid ond nid y person'. Byddai hyn yn ei natur yn sicrhau agwedd un tîm tuag at atgyweirio a byddai'n weddol hawdd i'w integreiddio gyda gweddill y Gwasanaeth Tai. Byddai Cyngor Ynys Môn yn cadw'r rheolaeth derfynol dros y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'w gwsmeriaid ond hefyd y cyfrifoldeb am gyflawni'r weledigaeth a osodwyd ganddo. Byddai'r gwasanaeth hwn wedi ei uno yn osgoi'r problemau sylweddol sydd yn y strwythur presennol fel: dyblygu tasgau o ganlyniad i'r gwasanaeth yn cael ei rannu, cyfathrebu gwael, perthnasau gwrthwynebus, diffyg meddwl cydlynus ar draws y gwasanaeth atgyweirio a diffyg aleiniad strategol gyda gweledigaeth y Gwasanaeth Tai. Byddai angen cael cynllun busnes tymor canol i arddangos ymarferoldeb a byddai angen i'r gwasanaeth barhau gyda'i raglen moderneiddio. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi sylw uniongyrchol i bryderon Swyddfa Archwilio Cymru.

**2.1.3 Allanoli ochr y contractor yn unig i contractor allanol**, h.y. allanoli'r gwasanaeth trwsio ar gyfer cwsmeriaid ond cadw'r ochr cleient sy'n rheoli'r gwasanaeth yn fewnol. Nodyn: gallai'r opsiwn hwn olygu bod y contractor yn

cymryd galwadau uniongyrchol gan gwsmeriaid yn dibynu ar ofynion Ynys Môn.

Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor gynnal ymarfer caffael i allanoli ochr y contractwr o'r gwasanaeth i gontractwr allanol, ond gyda'r ochr cleient yn parhau yn fewnol ond gyda strwythur gwahanol o bosibl na'r hyn sydd iddo ar hyn o bryd. Gallai Ynys Môn ddewis ymarfer fyddai'n cydymffurfio'n llawn o ran OJEU, neu mae yna'r opsiwn hefyd o ddefnyddio fframwaith caffael sy'n bodoli ac a fyddai'n llai costus ond efallai y byddai'n profi i fod yn gyfyngus o ran y gallu i ganolbwyntio'r contract yn benodol ar anghenion Ynys Môn. Byddai hefyd gostau parhaol posib o ddarparu'r gwasanaeth trwy gytundeb fframwaith ac os defnyddir hwn, fel arfer byddai 3% o werth y contract blynyddol yn daladwy i'r fframwaith ei hun.

Gallai Ynys Môn ddewis o ystod o opsiynau o wasanaeth yn cael ei reoli'n llawn i un lle bo'r landlord cymdeithasol yn cymryd rhan fwy gweithredol. Mewn trefniant lle ceir rheolaeth lawn er enghraifft, byddai'r contractwr yn derbyn galwadau'n uniongyrchol gan y cwsmer ac yn codi'r gwaith ar ei system, yna yn rhyngweithio'n ôl gyda system y cleient mewn 'amser go iawn'. Byddent yn cynnal arolygiadau cyn ac ar ôl gwneud y gwaith, gyda'r cleient hefyd yn gorfod gwneud rhyw lefel o arolygiad cyn i'r gwaith gael ei wneud er mwyn sicrhau eu hunain o ansawdd y gwaith a wnaed. Ni fyddai angen gwneud archwiliadau blaenorol ond ar gyfer gwaith cymhleth y tu allan i'r gwaith arferol, neu waith fyddai uwchben rhyw drothwy ariannol penodol. Fel arall, efallai y byddai landlord cymdeithasol eisiau cymryd rôl fwy gweithredol a gellid sicrhau hyn drwy i'r landlord gymryd galwadau gan gwsmeriaid threfnu apwyntiadau penodol gyda'r contractwr.

Gellir hefyd ystyried gwahanol strwythurau o gontractau yn cynnwys cyfrifo llyfr agored, contract gyda chyfraddau, contractau Gwerth Archeb Ganolradd, neu bris craidd penodol ar gyfer gwaith atgyweirio penodol, ond nid ar gyfer pob gwaith, gyda gweddill y gwaith atgyweirio'n cael ei gytuno ar sail cyfraddau penodol. Gellid hefyd ystyried mathau eraill o gymhelliant fel trefniant colled/mantais lle y gallai'r contractwr elwa'n ariannol os ceir lefelau uchel o berfformiad, neu yn gweld lleihad yn ffi'r contract os na fyddai'r safon yn cael ei gyrraedd. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn seiliedig ar gerdyn sgorio cytbwys lle bod mesurau ar gyfer cost ansawdd perfformiad ac effeithlonrwydd o safbwynt boddhad y cwsmer yn cael eu cyflawni cyn bod 'mantais' ariannol yn cael ei thalu.

O ran pa mor atyniad fyddai gwaith Ynys Môn i gontractwr allanol, rhaid cymryd lleoliad daearyddol i ystyriaeth. Mae contractwyr i raddau yn rhoi eu bidiau mwyaf cystadleuol i mewn ar gyfer ardaloedd lle y maent eisoes yn gweithio ynddynt, sydd wedyn yn sicrhau arbedion o ran maint i'r contractwr.

Dylid nodi nad oes ond Lovell Homes yn gweithio yn ardal Gogledd Cymru a hynny ar gontract adeiladu newydd yn hytrach nag atgyweirio ond mae nifer o gontractwyr sy'n gwneud contractau gwasanaethu ac atgyweirio yng nghyswllt nwy yn yr ardal.

Byddai'n rhaid ystyried materion TUPE ar gyfer gweithlu uniongyrchol y Cyngor a rhaid ystyried gwneud adolygiad manwl o'r materion hyn ar gyfnod cynnar yn natblygiad unrhyw gynllun prosiect i allanoli'r gwasanaeth.

#### **2.1.4 Allanoli'r ochr cleient cyfan, gwasanaeth trwsio a'r gwasanaeth trin offer nwy i contractor allanol a cwmni rheoli Contract proffesiynol .**

Nodyn: efallai y bydd hynny'n golygu cymryd galwadau yn uniongyrchol gan gwsmeriaid yn dibynnu ar ofynion Ynys Môn.

Byddai hyn yn golygu allanoli'r gwaith atgyweirio i gontractwr allanol, ond hefyd allanoli'r gwaith rheoli cleient i gwmni rheoli contract proffesiynol. Byddai angen lefel isel o amser uwch reolwr yn Ynys Môn i reoli'r trefniant hwn a thrwy hynny ryddhau'r landlord i ganolbwyntio'n hollol ar faterion rheoli tai. Byddai hyn, fodd bynnag, yn golygu y byddai'r landlord yn colli rheolaeth o'i wasanaeth atgyweirio ond gellid lliniaru hyn drwy sicrhau cerdyn sgorio cytbwys i gontractwr i'w gyflawni a'r cwmni rheoli contract i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu, gyda chysylltiadau posibl i gynnig cymhelliant.

#### **2.1.5 Allanoli rhannau o'r gwasanaeth e.e. allanoli'r gwasanaeth trin offer nwy o bosib, ond cadw'r gwasanaeth trwsio cyffredinol yn fewnol, neu 'vice versa'.** Gallai opsiynau posib eraill gynnwys allanoli elfennau eraill o'r gwasanaeth, gan gynnwys y swyddogaeth storffeydd, i sicrhau gwell gwerth am arian fel y gwnaed gan lawer o landlordiaid tai cymdeithasol eraill:

Byddai hyn yn golygu ymarfer caffael fyddai'n gweld darparwr gwasanaeth arall yn darparu elfen o'r busnes. Yn fwyaf cyffredin byddai hyn o fewn y gwasanaeth nwy, neu'r swyddogaethau storffeydd ac y mae'r rhain wedi eu darparu'n ddiweddar o fewn Gogledd Cymru ar brisiau cystadleuol iawn. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Gwasanaeth Tai gadw rhannau o'r gwasanaeth sy'n perfformio gryfaf ac allanoli meysydd nad ydynt mor gryf, neu'r rhai lle y gellid dangos gwell gwerth am arian trwy iddynt gael eu darparu y tu allan i'r gwasanaeth.

#### **2.1.6 Creu menter ar y cyd gyda contractor lle mae gan y Cyngor fudd yn yr endid cyfreithiol.**

Mae opsiwn menter ar y cyd yn rhywbeth yn y canol rhwng gwasanaeth atgyweirio mewnol ac allanol.

Byddai menter ar y cyd yn golygu creu endid cyfreithiol ar wahân lle y byddai gan y contractwr atgyweirio a'r Cyngor ran, ond lle byddai'r contractwr yn rheoli'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r Cyngor elwa o arbenigedd contractwr preifat / masnachol tra hefyd yn rhoi iddo fantais ariannol posibl pe bai'r arbedion yn cael eu cyflawni wrth ddarparu'r gwasanaeth. Un opsiwn arall sy'n bosibl yw cael menter ar y cyd gyda landlord cymdeithasol cofrestredig arall.

Byddai angen cael cytundeb rheoli cynhwysfawr rhwng y partion i sicrhau y byddai cyfrifoldebau pob parti wedi eu ddiffinio'n glir. Fel arfer byddai systemau TG y contractwr yn cael eu defnyddio. Mae hwn, felly, yn creu perygl pa na bai'r fenter ar y cyd yn llwyddiannus.

### **2.1.7 Sefydlu model menter gymdeithasol** ar gyfer gwneud gwaith trwsio

Busnes yw menter gymdeithasol sy 'n masnachu i bwrpas cymdeithasol ac/neu amgylcheddol. Daw'r mwyafrif o'i incwm drwy fasnachu nwyddau a gwasanaethau ac ni all ond ailfuddsoddi ei wargedau mewn meysydd sy'n dilyn ei nodau cymdeithasol. Byddai'r rhain fel arfer yn endid cyfreithiol ar wahân megis CIC (Cwmni Budd Cymunedol) neu yn IPS (Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus) gyda bwrdd ar wahân â throsolwg ohonynt. Byddai hyn yn ffordd hollol newydd o redeg y gwasanaeth a dylid nodi nad oes unrhyw fenter gymdeithasol ar hyn o bryd mewn bodolaeth i wneud gwaith atgyweirio i landlord tai cymdeithasol ac felly byddai angen i Ynys Môn greu ei fodel gweithredol allan o ddim ac fe allai hynny fod yn gostus o ran yr adnoddau sydd eu hangen i'w ddatblygu. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn dal i gadw rhaniad cleient / contractwr a byddai TUPE yn fater fyddai angen sylw.

### **2.1.8 Model gwasanaeth diwastraff** yn seiliedig ar ddull arloesol Wrekin Housing ar gyfer gwneud gwaith trwsio ar yr un diwrnod, yn seiliedig ar egwyddorion meddwl yn ddiwastraff.

Un datblygiad diweddar gyda darparu gwaith trwsio tai cymdeithasol yw gwasanaeth trwsio yr un diwrnod Wrekin Housing. Mae hwn wedi ei foddelu ar fodel yr AA gyda'i waith yn helpu gyda cheir yn torri i lawr ac mae'n sicrhau presenoldeb mewn nifer uchel iawn o waith trwsio a bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yr un diwrnod â phan yr adroddir amdano. Mae cwsmeriaid Wrekin Housing wedi adrodd yn ôl am lefelau uchel iawn o foddhad gyda'r gwasanaeth hwn. Byddai hyn yn golygu y byddai'r gwasanaeth yn bennaf yn rhedeg ar sail gwasanaeth argyfwng parhaol, ond gyda'r hyblygrwydd i dderbyn apwyntiadau lle byddai tenantiaid yn gofyn amdanynt. Byddai hyn yn cael ei ddarparu drwy ddefnyddio SLIU yn cael ei ddarparu'n fewnol, ond yn gweithio gyda model gweithredu hollol wahanol i'r hyn a geir ar hyn o bryd.

Gellir gweld gwerthusiad opsiynau manwl yn yr adolygiad o'r DLO - adroddiad Solutions for Housing dyddiedig Chwefror 2014 – **gweler atodiad 1**

**2.2** Mae'r canlyniadau o'r ymarfer gwerthuso hwn wedi casglu mai'r opsiwn a fyddai'n cynnig y manteision mwyaf posib i'r gwasanaeth am gost rhesymol yw **cadw'r gwasanaeth yn fewnol, ond cyfuno'r timau cleient a chontractwr i greu un gwasanaeth trwsio, gan foderneiddio a trawsnewid y gwasanaeth ar yr un pryd.**

**2.2.1** Ystyriwyd mai hwn oedd yr opsiwn cryfaf oherwydd yr isod:

- **Perchnogaeth** - dan yr opsiwn hwn byddai Ynys Môn yn cadw perchnogaeth a rheolaeth lawn o'r gwasanaeth (yn hytrach na'i allanoli i gontractwr allanol i ddarparu'r gwasanaeth), gan sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu gan bobl leol. Trwy gadw perchnogaeth lawn, gall y gwasanaeth hefyd sicrhau ei fod yn cydweddu'n gyfan gwbl â gweledigaeth ac amcanion strategol y Cyngor;
- **Hyblygrwydd** – mae cadw'r gwasanaeth yn fewnol yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Gwasanaeth Tai nag y byddai allanoli, a fyddai'n golygu gorfod cael manylebau contract cadarn. Tybir y byddai gan wasanaeth mewnol fwy o allu i ymateb yn sydyn i faterion sy'n codi heb orfod ailtrafod y contract (gan gynnwys y posibilrwydd o daliadau ychwanegol) gyda chontractwr allanol;
- **Gwerth am Arian** – byddai'r opsiwn yn sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael yn cael eu gwario ar y stoc dai, yn hytrach na bod cyfran yn cael ei dalu ar gyfer elw'r contractwr. Tybir bod targed arbedion o leiaf £250k bob blwyddyn yn bosib yn sgil cadw'r gwasanaeth yn fewnol. Blaenoriaeth y gwasanaeth fyddai canolbwyntio ar y cwsmer, yn hytrach na chael ei yrru gan elw, ond ar yr un pryd cydnabuwyd bod angen i'r gwasanaeth mewnol ddatblygu craffter masnachol gwell a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Gallai'r Gwasanaeth Tai gadw unrhyw arbedion a wneid;
- **Y Gwasanaeth Integredig** - trwy gyfuno'r swyddogaethau cleient a chontractwr a dod â nhw yn agosach i'r Gwasanaeth Tai yn ei gyfanrwydd, roedd teimlad y gallai'r gwasanaeth weithredu fel un tîm yn y dyfodol, gan oresgyn y problemau cyfredol gyda chyfathrebu, blaenoriaethau gwahanol, rhwystredigaeth ymysg staff a diwylliant o weld bai. Byddai'r gwasanaeth newydd yn gweithio ar egwyddorion gweithredu fel tîm o fewn cyd-destun o weithio tuag at y nod o gael gwasanaethau ardderchog;
- **Risg** – mae'r opsiwn hwn yn osgoi'r risg y gallai contractwr allanol fynd i'r wal;
- **Atebolrwydd** - byddai atebolrwydd clir oherwydd y byddai'r gwasanaeth cyfun newydd yn gyfan gwbl gyfrifol am gwrdd â'i gynllun busnes a chyflawni ei weledigaeth a'i amcanion strategol. Byddai uwch reolwyr yn cael eu dal yn gyfrifol am eu penderfyniadau, eu gweithredoedd a pherfformiad eu gwasanaethau;



- **Materion Rheoleiddiol** – bydd yr opsiwn hwn yn rhoi sylw uniongyrchol i bryderon a fynegwyd mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 ac mewn adroddiad Adolygu a Gwerth am Arian gan Solutions for Housing yn 2012 .

### 2.2.2 Ymgynghori gyda Thenantiaid

Rhan allweddol o'r adolygiad gwasanaeth yma, yw llais ein cwsmeriaid. Daeth grŵp o gynrychiolwyr ar ran ein Tenantiaid at eu gilydd i drafod pedwar cwestiwn allweddol – rhain yw:

- Beth sy'n bwysig i gwsmeriaid Gwasanaeth Atgyweirio / Trwsio Tai Cyngor?
- Beth sy'n dda am y Gwasanaeth Trwsio maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd gan y Cyngor?
- Yn eu barn hwy, beth sydd angen ei wella / ei gryfhau?
- Sut byddent hwy yn hoffi cymeryd rhan yn y gwaith er mwyn sicrhau gwasanaeth rhagorol?

Mae nodiadau'r cyfarfod wedi eu hatodi yn Atodiad 3.

Eu argymhelliad yw "dylid cadw Gwasanaeth Cynnal a Chadw y Cyngor yn 'fewnol' gydag un tîm Cynnal a Chadw. 'Roedd y Tenantiaid yn teimlo y byddai hyn yn rhoi gwasanaeth mwy cyson ac effeithiol i'r Tenantiaid".

## 3.0 Gofynion y mae'n rhaid cwrdd â nhw

**3.1** Wrth argymhell yr opsiwn hwn, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi pennu nifer o ofynion y mae'n rhaid cwrdd â nhw i roi sicrwydd i'r Cyngor a'i gydranddeiliaid y gellir darparu gwasanaethau ardderchog i'r dyfodol ac o fewn amserlen resymol. Mae'r gofynion fel a ganlyn:

- Rhaid ceisio ailstrwythuro'r gwasanaeth trwsio cyfun arfaethedig newydd yn chwe mis cyntaf 2014/15, gan gydnabod na all rhan helaeth o'r gwaith trawsnewid yn y timau ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n bwysig felly bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosib ac yr ymgynghorir gyda'r staff fel sy'n angenrheidiol
- Ar ôl yr ailstrwythuro, byddai gan y gwasanaeth cyfun newydd ddwy flynedd i ymsefydlu a gwella perffomiad i gyrraedd y lefelau a ddisgwyllir gan ddarparu'r gwasanaethau trwsio ardderchog. Oni lwyddir i gwrdd a'r lefel perffomiad, efallai y bydd y Pennaeth Tai yn dymuno ailystyried allanoli'r gwasanaeth, sef y gwasanaeth trwsio cyfan ( yr elfennau cleient ac chontractwr) ;

- iii. Cynnal adolygiad llety fel bod modd cyd-leoli'r timau o fewn y gwasanaeth cyfun newydd (lle bynnag y gellir gwneud hynny);
- iv. Bod cynllun busnes cynhwysfawr ar gyfer y gwasanaeth newydd sy'n dangos beth fydd y gwelliannau a sut a phryd y cânt eu gwneud, gan gynnwys targedau perfformiad fesul cam y bydd raid cwrdd â nhw;
- v. Cynnal adolygiad gwerth am arian a gwerthusiad opsiynau annibynnol ar gyfer y swyddogaeth storfeydd yn chwe mis cyntaf 2014/15;
- vi. Amlsgilio gweithwyr i sicrhau gwasanaeth hyblyg ac ymatebol sy'n gallu sicrhau lefel uchel o waith trwsio sy'n cael ei wneud yn iawn y tro cyntaf;
- vii. Adolygu strwythur y gweithlu i sicrhau bod proffil a nifer y gwahanol grefftau yn cyfateb i'r galw am waith trwsio ar y stoc dai;
- viii. Parhau i gadw cyfrif masnachu yn y gwasanaeth cyfun newydd, i gofnodi incwm a chostau elfen 'fasnach' y gwasanaeth cyfun, a fydd wedyn yn dangos bod y gwasanaeth cyfun newydd yn parhau i fod yn un ymarferol sy'n darparu gwerth am arian i'r gwasanaeth tai yn gyffredinol;
- ix. Cynnal adolygiad yn ystod 2014/15 o'r defnydd o is-gontractwr a'r gwariant arnynt, gyda'r nod o ostwng y gwariant cyfredol os oes modd;
- x. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y gwasanaeth newydd, cynnal adolygiad o'r model ar gyfer darparu'r gwasanaeth trin offer nwy a gwaith trwsio nwy i sicrhau ei fod yn wasanaeth sy'n darparu gwerth am arian i'r Cyngor;
- xi. Bod y gyllideb weithredol flynyddol ar gyfer 2017/18 ar gyfer y gwasanaeth cleient a chontractwr cyfun o leiaf £250k yn llai mewn termau gwirioneddol na'r gyllideb gyfun ar gyfer gwaith trwsio yn 2013/14. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i'r gwasanaeth newydd ymsefydlu a gwneud arbedion gwerth am arian;
- xii. Bydd y gwasanaeth angen cymorth arbenigol allanol ar gyfer y trawsnewid er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r gwasanaeth o fewn yr amserlen ofynnol. Disgwylir y bydd rhai o gostau'r buddsoddiad hwn yn cael eu gwrthbwysu gan arbedion a wneir yn ystod y cyfnod trawsnewid dwy flynedd.

#### **4.0 Crynodeb o'r cynnydd a wnaed gyda chynlluniau gweithredu blaenorol**

**4.1** Dangosodd yr adolygiad bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r cynllun gweithredu blaenorol, mae bron i 60% o'r camau wedi eu cwblhau neu'n cael sylw. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o gynnydd mewn nifer o feysydd i gwblhau'r cynllun gweithredu. Gellir casglu bod y gwasanaeth yn symud yn y cyfeiriad iawn a bod **y timau cleient ac UCA yn dechrau sefydlu hanes o lwyddiant.**

#### **4.2 Crynodeb o'r casgliadau yn dilyn adolygiad o drefniadau gweithio y gwasanaeth**

Gan mai'r argymhelliad yw cadw'r gwasanaeth yn fewnol, ond gyda strwythur cyfun newydd a dull modern o ddarparu gwasanaethau, mae'r ymgynghorwyr yn credu y gellir goresgyn yr anawsterau cyfredol. Fodd bynnag, bydd angen i'r gwasanaeth fod yn barod i ymgymryd â phrosiect trawsnewid mawr er mwyn gwireddu'n llawn uchelgeisiau'r Gwasanaeth Tai ar gyfer gwaith trwsio, sef gwasanaeth modern, effeithlon ac ardderchog. Mae'r Ymgynghorwyr yn credu y bydd yn cymryd chwe mis i ailstrwythuro'r tîm a dwy flynedd wedyn i godi lefel y gwasanaeth fel ei fod yn ddarparwr ardderchog.

### **Rhan 2 – Cynllun Busnes tymor canolog ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio**

#### **5.0 Datblygu Cynllun Busnes tymor**

**5.1** Un amcan allweddol o fewn argymhellion adroddiad Solutions for Housing oedd datblygu Cynllun Busnes tymor canolog. Mae gweithdai a sesiynau datblygu wedi eu trefnu gyda staff o Gwasanaethau Tai, UCA, Cyllid ac Adnoddau Dynol i ddatblygu y Cynllun Busnes 2014 – 2017, sydd yn destun craffu gan Bwyllgor (gweler Atodiad 2)

**5.2** Dyma weledigaeth newydd y gwasanaeth: **Tîm Atgyweirio rhagorol, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, sydd wedi ymrwymo i gyflawni gwasanaethau modern, effeithlon ac o safon uchel, ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ein cwsmeriaid.**

**5.3** O fewn y weledigaeth hon, cydnabyddir bod angen newid trawsnewidiol a diwylliannol a bod angen moderneiddio dull gweithredu'r gwasanaeth cyfan, drwy ei wneud yn fwy hyblyg, yn addasadwy, yn syml ac yn arloesol. Yn ogystal â'r gwasanaeth atgyweirio tai presennol, byddai cwrmpas gwasanaeth y dyfodol hefyd yn ehangu i ystyried y cymunedau a'r amgylchedd lle lleolir yr eiddo a hefyd ceisio cyfleoedd busnes newydd y byddai'r arian/adnoddau dros ben yn cael eu defnyddio i'w hail-fuddsoddi i'r gwasanaeth. Felly, mae

gweledigaeth y Cynllun Busnes wedi defnyddio'r gair 'cwsmeriaid' yn hytrach na 'thenantiaid i gydnabod ehangu darpariaeth y gwasanaeth i feysydd posibl nad ydynt yn ymwneud â thenantiaid.

- 5.4** Mae amcanion allweddol newydd ar gyfer y Cynllun Busnes hwn wedi cael eu datblygu o amgylch pum thema, fel a ganlyn: Pobl, Cwsmeriaid, Cyfleoedd, Hyfywedd Ariannol a Gwerth am Arian ac Asedau. Mae'r datganiadau amcanion allweddol newydd hyn yn adlewyrchu gweledigaeth a chyfeiriad newydd y gwasanaeth, ac maent fel a ganlyn:

**Ein Pobl:** Datblygu sgiliau a chymwyseddau ein pobl i ddarparu gwasanaeth atgyweirio rhagorol i'n cwsmeriaid;

**Ein Cwsmeriaid a'n Gwasanaeth:** Gwybod pwy yw ein cwsmeriaid, cyflawni gwasanaeth atgyweirio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer ein holl gwsmeriaid i ddylanwadu ar y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu;

**Ein Cyfleoedd:** Ceisio a sicrhau cyfleoedd busnes newydd sy'n gwneud cyfraniad ariannol cadarnhaol fel y gellir ail-fuddsoddi arian dros ben yn ôl i'r busnes craidd, neu amcanion cymdeithasol ehangach;

**Ein Perfformiad a Chyflawni Gwerth am yr Arian:** Darparu lefelau rhagorol o berfformiad a lefel dda o werth am arian ym mhopeth a wnawn a pharhau i fod yn hyfyw yn ariannol;

**Ein Hasedau:** Mabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at atgyweirio a buddsoddi, rheoli asedau'n effeithlon ac yn gost-effeithiol, a defnyddio gwybodaeth o ansawdd da i hysbysu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

- 5.5 Diwylliant y Gwasanaeth Atgyweirio** - Er mwyn sicrhau gwasanaeth rhagorol, bydd diwylliant y Gwasanaeth Atgyweirio yn cael ei ddatblygu ymhellach i fod fel a ganlyn:

- Yn broffesiynol
- Yn canolbwyntio ar y cwsmer – rhoi'r cwsmer gyntaf bob amser;
- Yn cyflawni Gwerth am Arian;
- Yn cael ei gymell gan berfformiad;
- Yn arloesol – i oresgyn a ffynnu;
- Yn gywir y tro cyntaf, bob amser.

**5.6** Yn y diwylliant uchod, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn cydnabod fod angen iddo ddatblygu ei lefel o graffter busnes er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gost effeithiol, yn cynrychioli gwerth da am arian a bod hyfywedd yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y cynllun.

## **6.0 Blaenoriaethau Strategol**

**6.1** Esbonnir y blaenoriaethau strategol y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn yn fanwl yn y cynllun hwn, ond mae crynodeb isod:

## **6.2 Blwyddyn Un 2014 – 2015**

Bydd y cynllun busnes yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn yn y flwyddyn gyntaf:

- datblygu a gweithredu'r strwythur tîm cleient / contractwr newydd ei uno; cynnal adolygiad llety (yn gysylltiedig â Phrosiect Gweithio'n Well y Cyngor) i sicrhau bod staff perthnasol yn cael eu cyd-leoli, gan ddileu'r rhwystrau a'r problemau cyfathrebu sy'n bodoli ar hyn o bryd;
- cynnal adolygiad gwerth am arian o'r swyddogaeth storffeydd a gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio ohono;
- adolygu gwariant isgontractwyr i sicrhau cydymffurfiaid â rheolau caffael a gwerth am arian;
- ymgorffori ffyrdd newydd o weithio i gynnwys gweithio mewn tîm ac ar sail prosiect a'r Model Gwasanaeth Rhagorol (**Atodiad H**);
- yn cyflwyno diwylliant perfformiad a threfniadau rheolaeth ariannol gadarn ochr yn ochr â'i gilydd;
- dechrau ar y gwaith o gadw tystiolaeth am enillion gwerth am arian ac adolygu'r gofynion ar gyfer gweithwyr masnachol yn unol â'r galw am waith masnachol o'r stoc dai a dechrau ar y gwaith i aml-sgilio'r gweithwyr.
- Y bwriad yw y bydd rheolwr trosiannol yn cael ei benodi i weithio gyda'r timau yn ystod y cyfnod hyd nes y bydd strwythur y tîm sydd newydd ei uno'n cael ei roi ar waith. Ei rôl fydd goruchwylio swyddogaethau'r cleient a'r contractwr tra byddant yn eu timau ar wahân er mwyn sicrhau bod gwaith tîm yn cychwyn yn gynnar a byddant hefyd yn cynorthwyo'r tîm i gyflawni'r tasgau allweddol a amlinellir uchod. Unwaith y bydd strwythur y tîm a unwyd mewn grym, yna bydd Arbenigwr ar Newid yn cael ei gyflwyno i gynorthwyo'r tîm newydd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio / meddwl a rheoli'r rhaglen newid fel y nodir yn **Atodiad C**.

### 6.3 Blwyddyn dau 2015 -2016

Bydd yr ail flwyddyn yn bennaf yn cynnwys ysgogi'r gwasanaeth i lefel gwasanaeth dwy seren 'da' i gynnwys:

- codi lefelau perfformiad tuag at chwarterl uchaf ar ddangosyddion allweddol (gweler **Atodiad D o**) a chyflawni lefelau uwch o gyfranogiad cwsmeriaid a chraffu ar y gwasanaeth.
- Bydd gweithredu'r prosiect TG yn cael ei gwblhau;
- bydd dull gweithredu darbodus yn cael ei gyflwyno i herio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu er mwyn sicrhau mai gwasanaeth syml, modern ac effeithlon yw'r norm.
- Bydd y dull presennol o wasanaethu nwy ac atgyweirio systemau nwy yn cael ei adolygu ar gyfer gwerth am arian.
- Yn ogystal, bydd dull mwy cyfannol ac integredig i fuddsoddi asedau ac atgyweirio yn cael ei fabwysiadu lle bydd goblygiadau o ran cynnal a chadw yn cael eu hystyried cyn buddsoddi, gyda'r bwriad o ostwng costau cynnal a chadw yn y dyfodol.

### 6.4 Blwyddyn tri 2016 – 2017

Yn ystod y flwyddyn olaf hon o gyfnod y cynllun busnes gwelir:

- y tîm yn ysgogi'r gwasanaeth tuag at ragoriaeth, yn cyflawni'r targedau perfformiad fel y nodir yn **Atodiad D o Gynllun Busnes y Gwasanaeth Trwsio**;
- yn cyflawni lefelau uchel o waith atgyweirio cywir y tro cyntaf i gwsmeriaid;
- nodi a sicrhau gwelliannau gwerth am arian yn ogystal â'r targed arbedion ariannol sydd i'w cyflawni ar gyfer 2017, ac
- ehangu canolbwynt y gwasanaeth i ymgymryd â chyfleoedd busnes eraill y tu allan i gwmpas traddodiadol Tai (**adran 6 o Gynllun Busnes y Gwasanaeth Trwsio**).

### 6.5 Targedau perfformiad

Felly, mae'r Cynllun Busnes hwn yn darparu targedau perfformiad sy'n realistig ond hefyd yn briodol ac yn heriol ac mae'r rhain yn dangos y targedau gam-wrth-gam (h.y. y cerrig milltir i ragoriaeth) i sicrhau lefelau yn y chwarterl uchaf ac yn dangos y bwriad ar gyfer gwelliant parhaus yn y meysydd hynny sy'n hanfodol i gyflawni lefelau gwasanaeth rhagorol. Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn cydnabod mai prif ddangosydd ei berfformiad fydd lefelau rhagorol o foddhad tenantiaid â'r gwasanaeth atgyweirio.

Bellach, mae'r cynllun yn darparu arweiniad clir ar gyfer y gwasanaeth a'i staff a dylai hefyd gynorthwyo cwsmeriaid i ddeall sut mae'r blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni.

Bydd trefniadau cadarn yn cael eu rhoi ar waith rŵan i sicrhau bod y cynllun busnes yn cael ei fonitro, ei reoli a'i gyflawni'n effeithiol. Gan fod y Gwasanaeth Atgyweirio'n wasanaeth hanfodol i'n cwsmeriaid ac yn gysylltiedig â'u boddhad cyffredinol gyda Gwasanaethau Tai Ynys Môn, bwriedir adrodd ar gynnydd am gyflawni'r Cynllun Busnes hwn i'r Cyngor yn flynyddol. Mae hyn yn ychwanegol i'r Cerdyn Sgorio Gwasanaeth misol a'r cyfarfodydd chwarterol monitro perfformiad.

Dylid nodi bod rhai agweddau, yn enwedig, lefelau boddhad cwsmeriaid Gwasanaeth Trwsio Cyngor Sir Ynys Môn ymysg y chwarter uchaf o landlordiaid cymdeithasol sydd gyda llai na 5,000 o unedeau stoc tai o fewn y Deyrnas Unedig.

## **6.6 Ymagwedd tuag at Gwerth am Arian**

Beirniadwyd y ffordd gyfredol o ymdrin â chaffael o fewn y Gwasanaeth Atgyweirio o fewn adroddiad Awdit Mewnol o'r Cyngor yn ddiweddar ac felly, o fewn tymor y Cynllun Busnes hwn, bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod holl ardaloedd gweithgaredd caffael yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffuriad gyda rheolau caffael y Cyngor. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn ei adolygiadau gyda'r lefelau uchaf o wariant i ddechrau, eu herio am Werth am Arian a chydymffuriad caffael ac wedyn gweithredu datrysiadau am Werth am Arian cynyddol wrth gadw at reolau'r Cyngor. Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth yn defnyddio arbenigwyr caffael arbenigol lle nad yw'r arbenigedd angenrheidiol yn bodoli yn fewnol.

<b>30</b>	<b>Job volumes –</b> to understand the reasons for job volumes reducing.	Reasons for reducing job volumes know	DR	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: In progress (BMU)</b>  This is being kept under review by the BMU but no conclusions have yet been drawn on job volumes and the potential impact of WHQS works on repairs budgets and whether this may or may not be a continuing trend.
<b>31</b>	<b>Operative rest breaks –</b> to review and formalise required rest breaks (out of hours working)	Defined rest breaks in place	LR / BWT / HWT	<b>February 2013</b>	<b>Current status: Complete (BMU)</b>  This has been reviewed and implemented.
<b>32</b>	<b>Productivity targets –</b> to put in place targets for productivity for operatives.	Productivity targets in place	LR / BWT / HWT	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b>  Productivity targets will be introduced in 2014/15
<b>33</b>	<b>Skills Audit –</b> to arrange a skills audit of the operatives to assess skills and inform future work-planning	Skills Audit completed	LR / Caroline Williams (Human Res)	<b>June / September, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b>  This has been deferred until a decision regarding the future of the service has been determined and the HR issues with regards to multi-skilling have been resolved.
<b>34</b>	<b>Stores –</b> options appraisal on future on stores to provide VFM option	Options appraisal performed	<b>Consultants to be appointed</b>	<b>June, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/BMU)</b>  This cannot be considered until a decision has been reached on the future of the repairs service.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>35</b>	<b>Procurement consortia</b> – to be explored for material procurement	All procurement consortia evaluated	<b>LR</b>	<b>Dependant on targets within findings of internal audit report</b>	<b>Current status: In progress(Client/BMU)</b> BMU have provided Procurement for Wales with their fully priced and specified stores commodity list and are awaiting response. In the early stages of procuring the services of sub-contractors, considering merging with the Authority's Property Section as they are also reviewing this function. This cannot be fully considered until a decision has been reached on the future of the repairs service.
<b>36</b>	<b>Minimum van stores on vans</b> – to ascertain whether insurance on van stores can be obtained in order for higher stores levels to be retained on vans	Insurance arrangements reviewed Revised van store levels in place	<b>LR / BWT / HT</b>	<b>April, 2013</b>	<b>Current status: Complete (BMU)</b>  Van stores are now in place.
<b>37</b>	<b>Overheads</b> – to review the charges to the BMU to ensure reasonableness	Breakdown of costs provide Reasonableness established	<b>LR / CH</b>	<b>September 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b>  This will be addressed during the upcoming 2014/15 budget.
<b>38</b>	<b>Materials</b> – to review the specification of materials to establish whether savings can be made.	Joint working group in place Materials reviewed Recommendations made	<b>DR/SHO/LR/ BWT/HWT link with recommendation 35</b>	<b>To be confirmed</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/BMU)</b>  This cannot be considered until a decision has been reached on the future of the repairs service.



	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>39</b>	<b>Stores uplifts – to establish whether 20% uplift covers cost of stores</b>	Calculation carried out	<b>LR / BWT</b>	<b>End March, 2013</b>	<p><b>Current status: In progress (BMU)</b> This was addressed shortly after the 2012 report as BMU were then a profit making unit, it was established that 20% uplift did cover cost of stores at that time, however this was not reflected within the job costing system where materials costs inclusive of overheads should have been charged to the job, which was the purpose of this recommendation.</p> <p>This issue will be addressed during the upcoming 2014/15 budget.</p>
<b>40</b>	<b>Stores option appraisal – to carry out an options appraisal on the future of the stores</b>	Options appraisal completed	<b>Consultant to be appointed</b>	<b>June 2013</b>	<p><b>Current status: In progress (BMU)</b> A desk-top in-house stores appraisal has been carried out and presented to the Head of Housing Services. This however was limited in scope and did not involve any visits to other provider's stores operations.</p> <p>An independent VFM review and options appraisal is recommended from this report and should be carried out during 2014/15.</p>
<b>41</b>	<b>Low demand voids – to carry out options appraisal on low demand properties and develop plan as to whether to repair.</b>	Options appraisal performed Voids plan in place	<b>SLW/DR</b>	<b>June 2013</b>	<p><b>Current status: In progress (Client)</b> Low demand properties are currently being reviewed and a complete voids plan will be developed.</p>

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>42</b>	<b>Utilities during void period</b> –to contribute to project to have utilities within void properties.	Utility supplier in place	<b>DR / SHO</b>	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/BMU)</b>  This will be considered during 2014/15.
<b>43</b>	<b>Contact with incoming tenant</b> – voids team “customise void within lettable standard parameters	Incoming tenant able to influence void	<b>DR / SHO</b>	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  This will be considered during 2014/15.
<b>44</b>	<b>Incentives</b> – Housing Service to consider whether incentives could be introduced for tenants to leave properties in good condition	Incentives considered	<b>SLW</b>	<b>June 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  This will be considered during 2014/15.
<b>45</b>	<b>Staff appraisals</b> – to take account of new strategic direction for Housing and identify skills gap.	Appraisals completed	<b>LR / BWT</b>	<b>December, 2012</b>	<b>Current status: Complete (BMU)</b>  Staff appraisals now in place.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>46</b>	<b>Toolbox talks</b> – more effective talks with operatives to include performance information sharing and service improvement	New format for toolbox talks introduced	<b>LR/BWT</b>	<b>September 2012</b>	<b>Current status: In progress (BMU)</b>  Toolbox talks are in place. Ideally, performance and high level financial information should be being shared but due to implementation of new systems this has not been possible to date but will be introduced in 2014/15.
<b>47</b>	<b>Tenant involvement</b> – to ensure that learning from the WHQS extends to the remainder of the BMU.	Learning passed to remainder of BMU service	<b>Heulwen Roberts / Jodie Davies</b>	<b>April, 2013</b>	<b>Current status: In progress (Client/BMU)</b>  The BMU has adopted some of the learning from working on the WHQS and this now needs to be embedded within the future service.
<b>48</b>	<b>Sickness</b> – establish the rates for the BMU and compare to industry averages	Rates calculated  Benchmarking carried out	<b>LR / BWT</b>	<b>November 2012</b>	<b>Current status: In progress (BMU)</b>  The BMU is currently receiving management reports form HR, however the reports do not provide sickness %, or trends.  However the monthly reports do show BMU sickness records against the Authority's annual target of 10 days per employee.  Benchmarking not yet carried out.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>49</b>	<b>Variations</b> – to introduce formal procedures for operatives varying jobs	Variation procedure in place	<b>SHO  To be done by consultants</b>	<b>September, 2013</b>	<b>Current status: In progress (BMU)</b>  Informal arrangements are in place and these need to be formalised and agreed with the client and shared with operatives.
<b>50</b>	<b>Cost comparison with SOR</b> – to review BMU job costs to SOR rates once new schedule of rates introduced	Cost comparison to SOR undertaken	<b>SHO  To be done by consultants</b>	<b>September, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b>  The implementation of the new systems and teething problems with the new job costing system has prevented this from being achieved. However this is planned to be introduced for 2014/15.
<b>51</b>	<b>Job cost benchmarking</b> – to share information with BMU once available	<b>Information shared</b>	<b>SHO / GOP</b>	<b>November, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/ BMU)</b>  Planned for 2014/15
<b>52</b>	<b>Stock condition survey</b> – to share information with BMU once available	Information shared	<b>DR 2 Stage  Savills Survey March 2013  Longer term phase 2 Orchard/Keyst one</b>	<b>13 / 14</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  No information has yet been shared with the BMU, however it is understood that the 20% sample stock condition survey results are nearing completion and results will be shared with the BMU shortly. It was also recommended that results of Fire Risk Assessments are also provided to the BMU.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>53</b>	<b>Aborted jobs</b> – the % of aborted jobs should be formally measured and corrective action in place.	% of jobs monitored  Corrective action taken.	LR	<b>October 2012</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  This information is being fed into the systems and client should be able to provide this % figure. It is understood that customer groups have also asked for this information.
<b>54</b>	<b>% Repairs completed at first visit</b> – to measure first time fix rates	First time fix rates known	<b>BWT / HT/ SHO</b>	<b>September, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  This can only be measured once appointments are in place and operative PDA's are in operation.
<b>55</b>	<b>Trackers</b> –to ensure that new hand held technology incorporates tracking system	Hand held technology has trackers embedded	<b>BWT</b>	<b>13 / 14</b>	<b>Current status: Complete (BMU)</b>  Trackers are on all vehicles apart from ones which are due for replacement.
<b>56</b>	<b>Extended opening hours</b> – to establish whether demand exists for “out of office hours”	Evening/Saturday appointments offered if demand confirm need	<b>Jodie Davies TP team to discuss with tenants groups</b>	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/BMU)</b>  Once the future of the service has been determined this will be considered.
<b>57</b>	<b>Flexible working arrangements</b> – to consider flexible arrangements with operatives to provide a “wider service time coverage”	Alternate arrangements considered	<b>SLW / LR</b>	<b>March, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client/BMU)</b>  Once the future of the service has been determined this will be considered.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>58</b>	<b>Out of Hours</b> – size of standby team to be reviewed after multi-skilling introduced.	Team size reviewed	LR/BWT/HWT	To be looked at after <b>June/July 2013</b> following <b>Equal Pay Claims</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b>  Once future of service has been determined and multi-skilling is in place, this could be considered.
<b>59</b>	BMU to work with <b>new Tenant Liaison section</b>	Joint working in place	LR/BWT/HWT and BMU staff to meet tenants group	<b>December 2012</b>	<b>Current status: Complete (BMU/Client)</b>  Joint working arrangements have commenced and are already producing tangible results.  Recent publication “Tenants Voice” a good example of co-working.
	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	
<b>60</b>	<b>Work tickets</b> – to contain vulnerability/disability information of tenants	Information provided on work tickets	SHO	<b>December, 2013</b>	<b>Current status: In progress (Client/BMU)</b> It has been decided that this will be put onto the ne PDA screen.
<b>61</b>	<b>Van fleet</b> – to review whether van safety checks can be reduced	Van safety check frequency reviewed	LR/BWT / Julie Jones/Noel Roberts	<b>December, 2013</b>	<b>Current status: Complete (BMU)</b> BMU have decided to continue with the current arrangement as this is an Authority wide policy.

	<b>Specifically ,the action will be:-</b>	<b>It will be Measured by Achieving the following Objectives/reaching the milestones</b>	<b>Achievement Led/ Owned by :-</b>	<b>Realistic Timescale for Delivery</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
<b>62</b>	<b>Sub-contractors – costs</b> compared with SOR values	SOR comparison performed	LR/BWT	<b>September, 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b> This will commence in 2014/15.
<b>63</b>	<b>Work for sub-contractors – to review</b> which work should be sub-contracted and which should be brought in	Review completed	LR/BWT <b>Depending on the outcome of the report from item 52</b>	<b>September 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b> This will commence in 2014/15.
<b>64</b>	<b>Evaluation of major contracts – tenants to review</b> gas servicing contractors	Review completed	SHO	<b>April 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (Client)</b>  It is anticipated that tenants will be involved in evaluating the performance of the new approach to the repairs service.
<b>65</b>	<b>Procedure manuals – to update</b> all procedure manuals with the changes to operational arrangements introduced during 2012/13	Procedure manuals of up to date procedures in place.	SHO/BWT	<b>To be completed by September 2013</b>	<b>Current status: Not yet started (BMU)</b> This will commence in 2014/15 once future of the service has been determined. If the service is retained in house, the structure will significantly change and new procedures will be required to reflect this.

**Key:**

<b>SLW</b>	<b>Shan L Williams, Head of Housing Service</b>	<b>LR</b>	<b>Leslie Roberts, Operational Manager, BMU</b>	<b>SM</b>	<b>Stephen Moore, Group Accountant</b>
<b>DR</b>	<b>Dafydd Rowlands, Technical Services Manager</b>	<b>BWT</b>	<b>Barry Thomas, Assistant Operations Manager</b>	<b>HR</b>	<b>Heulwen Roberts, Housing Services Manager</b>
<b>SHO</b>	<b>Stephen Owen, Senior Technical Officer</b>	<b>HT</b>	<b>Hefin Thomas, Contracts Supervisor</b>	<b>CH</b>	<b>Colin Harper, Accountant</b>
<b>GOP</b>	<b>Geraint Parry, Information Management Officer</b>	<b>PH</b>	<b>Paul Harper, IT Project Manager</b>	<b>KR</b>	<b>Karen Roberts, Principal Housing Officer</b>
<b>JD</b>	<b>Jodie Davies, Tenant Participation Liaison Officer</b>	<b>CW</b>	<b>Caroline Williams, Human Resource Officer</b>		



**(b)Progress against Welsh Audit Office’s Proposals for Improvement**

	<b>Proposal for Improvement</b>	<b>Progress as at February 2014</b>
1.	The Council should establish a clear purpose for its housing repairs service based on what it wishes to provide to its tenants and its contribution to achieving the Council's strategic priorities.	The clear purpose is being developed as part of this report on the future of the DLO. If the recommendation is accepted that the service is retained but under a merged client/contractor arrangement, then a medium term business plan will be developed to demonstrate how it will achieve the strategic priorities of the Council.
2.	Establish operational arrangements that are not based on a client/contractor split and develop a cost centre based approach to service delivery.	Once the recommended option with regards to the future of the DLO has been agreed, the service can then move to the next stage which is restructuring the team. This will ensure that all aspects of the service are ‘value adding’ in terms of service delivery and that any duplication, or needless bureaucracy, is removed.
3.	Review systems for receiving, ordering and completing responsive repairs with the aim of reducing activities within the system that do not add value or provide necessary assurance.	This will again be dependent upon the agreement of the option chosen for the repairs service. Should the recommended option to retain the service in house under the fully merged arrangement, be accepted, then all operational processes will be reviewed and all non-value adding activity will be removed.
4.	Review the findings and recommendations in the December 2008 Internal Audit report about job costing in the BMU and implement those recommendations that remain relevant	A new job costing system has not been implemented however it has suffered some ‘teething’ issues during 2013/14. Solutions for Housing have assisted the team in this regard and have developed an action plan to ensure that this is being operated correctly during 2014/15.
5.	Review current delivery arrangements with a view to clearly identifying the costs and benefits of existing arrangements in the context of the purpose of the service. (To include the review of the costs and benefits of existing stores arrangements compared to alternative options for ensuring access to parts and materials).	Should the service be retained in house under the fully merged arrangement, then all operational delivery arrangements will be challenged and amended where necessary. One of the conditions of the retaining of the service in house, is that the stores will be subject to an independent VFM and options appraisal during 2014/15.
6.	Having established a clear purpose for the service, establish a range of relevant performance measures that enable evaluation of the outcomes achieved and implement systematic review and evaluation at officer and member level.	Subject to the retaining of the service in house, a new suite of performance indicators measuring a ‘balanced scorecard view’ of the service will be introduced. A performance culture will be embedded and performance measurement will be a topic on all future management team meetings.

Tudalen 103





CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

**Cynllun Busnes Tymor Canolig y  
Gwasanaeth Atgyweirio**  
(yn cynnwys yr Achos Busnes ar gyfer Cadw'r  
Gwasanaeth yn Fewnol)

**Gwasanaethau Tai – Cyngor Sir Ynys Môn**

**Rhwng 2014/15 a 2016/17**

**Ebrill 2014**

## Cynnwys

## Tudalen

1.	Cyflwyniad a Chefndir	2
2.	Achos Busnes ar gyfer cadw'r gwasanaeth yn fewnol	6
3.	Datganiad Gweledigaeth, Amcanion Allweddol a Diwylliant	14
4.	Perfformiad presennol y Gwasanaeth Atgyweirio	16
5.	Hanfodion Gwasanaeth Atgyweirio Rhagorol	17
6.	Opsiynau Strategol Ehangach ar gyfer y Dyfodol	19
7.	Cyfranogiad cwsmeriaid yn y dyfodol	20
8.	Y modd yr ymdrinnir â gwerth am arian a chaffael	21
9.	Rhagamcanion ariannol	26
10.	Targedau Perfformiad	27
11.	Dadansoddi Risg	28
12.	Gweithredu'r Cynllun Busnes	29

## Atodiadau

A.	Dadansoddiad PEST a TOWS	32
B.	Gwasanaeth Atgyweirio Cyfredol – Dangosyddion, Canlyniadau a Thueddiadau Perfformiad a Chostau	34
C.	Amcanion Allweddol, Canlyniadau a Chamau Gweithredu Strategol	37
D.	Targedau Perfformiad rhwng 2014/15 a 2016/17	52
E.	Canlyniad y Gwerthusiad Opsiynau	54
F.	Dangosyddion gwerth am arian	59
G.	Strwythur Lefel Uchel Mynegol	60
H.	Model Gwasanaeth Rhagorol	61
I.	Cynllun ariannol hyd at 2016/17	62
J.	Gofynion timau ehangach	66

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Cynllun Busnes y Gwasanaeth Atgyweirio yn nodi'r weledigaeth, yr amcanion a'r camau strategol allweddol i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2017. Er mwyn gosod y Cynllun Busnes hwn yn ei gyd-destun, mae gan y Gwasanaeth Atgyweirio gyllideb sylweddol o £5.2 miliwn y flwyddyn ac mae'n cyflogi mwy na 60 o staff. Prif nod y Cynllun Busnes hwn felly, yw amlinellu trywydd clir ar gyfer sut y bydd y gwasanaeth yn symud o'i sefyllfa bresennol, i gyflawni ei uchelgais o fod yn ddarparwr gwasanaeth atgyweirio rhagorol, ac ar yr un pryd, dangos ei hyfywedd a gwerth am arian i'r Cyngor.

1.2 Ym mis Chwefror 2014, cynhaliwyd adolygiad Gwerthuso Opsiynau llawn am ddyfodol y Gwasanaeth Atgyweirio, ac yn ystod y cyfnod hwn, cafodd ystod lawn o opsiynau darparu gwasanaeth posib eu hystyried a'u gwerthuso. Lluniwyd adroddiad cynhwysfawr ar wahân o'r adolygiad hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Cynllun Busnes hwn.

Argymhellodd yr adroddiad Gwerthuso Opsiynau i **'gadw'r gwasanaeth yn fewnol, ond gan uno'r timau cleient a chontractwyr i un gwasanaeth atgyweirio, gan foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth'**. O'r ymarfer gwerthuso manwl hwn, cafwyd achos busnes ar gyfer cadw'r gwasanaeth yn fewnol, a drafodir yn fanylach yn **Adran 2** yr adroddiad hwn. Mae gweddill y Cynllun Busnes hwn yn rhoi manylion am sut yr ymdrinnir â'r heriau yn y gwasanaeth presennol a sut y gwireddir yr uchelgeisiau ar gyfer y gwasanaeth.

1.3 Lluniwyd y Cynllun Busnes o amgylch datganiad gweledigaeth newydd (**gweler adran 3.1**), blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y gwasanaeth (**gweler adran 1.6**) a phum amcan allweddol (**gweler adran 3.5**). Nodwyd camau strategol i'w cymryd hefyd ynghyd â'r terfynau amser i'w gweithredu. Diffiniwyd canlyniadau disgwylidig o'u gweithredu, ynghyd â sut y bydd y rhain yn cael eu mesur. Rhoddir manylion am y rhain yn **Atodiad C**.

1.4 Mae'r cynllun hwn yn ystyried y canlynol:

- Gweledigaeth gyffredinol Cyngor Sir Ynys Môn;
- Perfformiad presennol y Gwasanaeth Atgyweirio (**Atodiad B**);
- Y newidiadau posibl fydd yn effeithio ar yr amgylchedd gweithredu y mae'r gwasanaeth yn rhan ohono (**Atodiad A**);
- Cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth presennol (**Atodiad A**)
- Cyfraniad tai cymdeithasol i ansawdd bywyd cyffredinol y cymdogaethau lle lleolir y stoc a'i gyfraniad ehangach i gyflogaeth leol a datblygiad economaidd (**adrannau 6 ac 8**);
- Yr uchelgais ar gyfer rhagoriaeth sydd gan y Gwasanaeth Tai (rhoddir manylion am hyn yn **adran 5**); a
- Disgwyliadau perfformiad y Pennaeth Tai, ac yn benodol, y dylai'r Gwasanaeth Atgyweirio anelu at gyflawni safle yn y chwarterl uchaf yn ei ddangosyddion perfformiad pan gaiff ei feincnodi gyda chymheiriaid ledled y DU (h.y. y rhai â stoc dai o lai na 5,000 o unedau dan eu rheolaeth) ac y

byddai hefyd yn anelu at fod o fewn y 10% uchaf o ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer gwaith atgyweirio (**Atodiad D**).

Bydd y gwasanaeth yn ceisio cyflawni rhagoriaeth ar gyfer elfen resymol (h.y. cost ar gyfartaledd), gan gydnabod mai anaml y cyflawnir rhagoriaeth gyda chostau isel. Bydd yr holl gyfleoedd i gyflawni gwerth am arian yn cael eu harchwilio gan y gwasanaeth yn ystod cyfnod y cynllun busnes (gweler **adran 8**), ond ni fydd effeithlonrwydd ariannol yn cael ei gyflawni ar draul gwasanaeth i'r cwsmer.

1.5 Wrth wneud yr argymhelliad i gadw'r gwasanaeth yn fewnol, yn amodol ar brosiect moderneiddio / newid trawsnewidiol, nododd y Pennaeth Gwasanaethau Tai nifer o ofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor a'i randdeiliaid y bydd lefelau gwasanaeth rhagorol yn cael eu cyflawni yn y dyfodol ac o fewn terfyn amser rhesymol. Ymdrinnir â'r rhain yn y Cynllun Busnes hwn ac fe welir camau gweithredu manwl a phenodol yn **Atodiad C**. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- i. Bod yn rhaid anelu at gyflawni'r dasg o ailstrwythuro'r gwasanaeth atgyweirio arfaethedig fydd newydd gael ei uno o fewn chwe mis cyntaf 2014/15, gan gydnabod na all llawer o'r newid trawsnewidiol gyda'r timau ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn, ac felly ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd ac ar yr un pryd yn sicrhau bod yr holl waith angenrheidiol o ymgynghori gyda'r staff yn cael ei gynnal;
- ii. Yn dilyn yr ail-strwythuro, byddai gan y gwasanaeth sydd newydd ei uno derfyn amser o ddwy flynedd i sefydlu'r gwasanaeth a chymell perfformiad i'r lefelau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwr atgyweirio sy'n perfformio'n rhagorol. Pe na fyddai'r gwasanaeth yn cyflawni'r lefelau perfformiad disgwyliedig, yna efallai y bydd y Pennaeth Tai yn dymuno ystyried allanoli'r gwasanaeth eto. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu'r gwasanaeth atgyweirio cyfan (h.y. yr elfennau cleient a chontractwr);
- iii. Bod adolygiad llety yn cael ei gynnal er mwyn cydleoli timau yn y gwasanaeth newydd ei uno (pan fo hynny'n bosibl);
- iv. Bod y gwasanaeth newydd yn cael ei ategu gan gynllun busnes tymor canolig cynhwysfawr fydd yn dangos pa welliannau busnes fydd yn cael eu cyflawni a sut a phryd fyddan nhw'n cael eu cyflawni, a byddant hefyd yn nodi'r targedau perfformiad gam-wrth-gam i'w cyflawni;
- v. Bod adolygiad gwerth am arian a gwerthusiad o'r opsiynau annibynnol o'r swyddogaeth storfeydd yn cael eu cynnal yn chwe mis cyntaf 2014/15;
- vi. Bod gweithwyr yn cael eu haml-sgilio er mwyn sicrhau gwasanaeth hyblyg ac ymatebol, sy'n gallu cyflawni lefel uchel o atgyweiriadau cywir y tro cyntaf;
- vii. Bod strwythur y gweithlu'n cael ei adolygu i sicrhau bod y proffil a nifer y crefftau'n cyfateb â'r galw am atgyweirio gan y stoc dai;
- viii. Bod cyfrif masnachu yn parhau i gael ei gynnal yn y gwasanaeth sydd newydd ei uno, i gadw incwm a chostau elfen 'fasnachu' y contractwr o'r gwasanaeth sydd wedi'i uno, a fydd yn ei dro yn dangos ei hyfywedd parhaus a gwerth am arian i'r gwasanaeth tai cyffredinol;

- ix. Bod adolygiad o ddefnydd a gwariant is-gontractwyr yn cael ei gynnal yn ystod 2014/15 gyda'r nod o leihau'r lefel bresennol o wariant lle bo hynny'n bosib;
- x. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y gwasanaeth newydd, bod adolygiad o'r model ar gyfer cyflawni'r gwasanaethu nwy ac atgyweirio nwy yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod gwasanaeth gwerth am arian da yn cael ei gyflawni ar gyfer y Cyngor;
- xi. Bod y gyllideb weithredol flynyddol ar gyfer 2017/18 ar gyfer y gwasanaeth cleient a'r contractwr yn isafswm o £250k yn is mewn termau real na'r gyllideb atgyweirio gyfunol ar gyfer 2013/14. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth newydd ac i gynhyrchu enillion gwerth am arian;
- xii. Y bydd y gwasanaeth angen cefnogaeth newid trawsnewidiol arbenigol allanol er mwyn gwireddu uchelgeisiau llawn y gwasanaeth o fewn y terfyn amser gofynnol. Disgwylir y bydd ychydig o gostau'r buddsoddiad hwn yn cael ei osod yn erbyn arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchir yn ystod y cyfnod trawsnewidiol o ddwy flynedd.

1.6 Esbonnir y blaenoriaethau strategol y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn yn fanwl yn y cynllun hwn, ond mae crynodeb isod:

- **Blwyddyn Un** – Bydd y cynllun busnes yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn yn y flwyddyn gyntaf: datblygu a gweithredu'r strwythur tîm cleient / contractwr newydd ei uno; cynnal adolygiad llely (yn gysylltiedig â Phrosiect Gweithio'n Well y Cyngor) i sicrhau bod staff perthnasol yn cael eu cyd-leoli, gan ddileu'r rhwystrau a'r problemau cyfathrebu sy'n bodoli ar hyn o bryd; cynnal adolygiad gwerth am arian o'r swyddogaeth storffeydd a gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio ohono; adolygu gwariant isgontractwyr i sicrhau cydymffuriad â rheolau caffael a gwerth am arian; ymgorffori ffyrdd newydd o weithio i gynnwys gweithio mewn tîm ac ar sail prosiect a'r Model Gwasanaeth Rhagorol (**Atodiad H**); yn cyflwyno diwylliant perfformiad a threfniadau rheolaeth ariannol gadarn ochr yn ochr â'i gilydd; dechrau ar y gwaith o gadw tystiolaeth am enillion gwerth am arian ac adolygu'r gofynion ar gyfer gweithwyr masnachol yn unol â'r galw am waith masnachol o'r stoc dai a dechrau ar y gwaith i amlsgilio'r gweithwyr. Y bwriad yw y bydd rheolwr trosiannol yn cael ei benodi i weithio gyda'r timau yn ystod y cyfnod hyd nes y bydd strwythur y tîm sydd newydd ei uno'n cael ei roi ar waith. Ei rôl fydd goruchwyllo swyddogaethau'r cleient a'r contractwr tra byddant yn eu timau ar wahân er mwyn sicrhau bod gwaith tîm yn cychwyn yn gynnar a byddant hefyd yn cynorthwyo'r tîm i gyflawni'r tasgau allweddol a amlinellir uchod. Unwaith y bydd strwythur y tîm a unwyd mewn grym, yna bydd Arbenigwr ar Newid yn cael ei gyflwyno i gynorthwyo'r tîm newydd i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio / meddwl a rheoli'r rhaglen newid fel y nodir yn **Atodiad C**.
- **Blwyddyn dau** – bydd yr ail flwyddyn yn bennaf yn cynnwys ysgogi'r gwasanaeth i lefel gwasanaeth dwy seren 'da' i gynnwys: codi lefelau perfformiad tuag at chwarterel uchaf ar ddangosyddion allweddol (gweler **Atodiad D**) a chyflawni lefelau uwch o gyfranogiad cwsmeriaid a chraffu ar y

gwasanaeth. Bydd gweithredu'r prosiect TG yn cael ei gwblhau; bydd dull gweithredu darbodus yn cael ei gyflwyno i herio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu er mwyn sicrhau mai gwasanaeth syml, modern ac effeithlon yw'r norm. Bydd y dull presennol o wasanaethu nwy ac atgyweirio systemau nwy yn cael ei adolygu ar gyfer gwerth am arian. Yn ogystal, bydd dull mwy cyfannol ac integredig i fuddsoddi asedau ac atgyweirio yn cael ei fabwysiadu lle bydd goblygiadau o ran cynnal a chadw yn cael eu hystyried cyn buddsoddi, gyda'r bwriad o ostwng costau cynnal a chadw yn y dyfodol.

- **Blwyddyn tri** – yn ystod y flwyddyn olaf hon o gyfnod y cynllun busnes, bydd y tîm yn ysgogi'r gwasanaeth tuag at ragoriaeth, yn cyflawni'r targedau perfformiad fel y nodir yn **Atodiad D**; yn cyflawni lefelau uchel o waith atgyweirio cywir y tro cyntaf i gwsmeriaid; nodi a sicrhau gwelliannau gwerth am arian yn ogystal â'r targed arbedion ariannol sydd i'w cyflawni ar gyfer 2017, ac yn ehangu canolbwynt y gwasanaeth i ymgymryd â chyfleoedd busnes eraill y tu allan i gwmpas traddodiadol Tai (**adran 6**).

- 1.7 Felly, mae'r Cynllun Busnes hwn yn darparu targedau perfformiad sy'n realistig ond hefyd yn briodol ac yn heriol ac mae'r rhain yn dangos y targedau gam-wrth-gam (h.y. y cerrig milltir i ragoriaeth) i sicrhau lefelau yn y chwarterel uchaf ac yn dangos y bwriad ar gyfer gwelliant parhaus yn y meysydd hynny sy'n hanfodol i gyflawni lefelau gwasanaeth rhagorol. Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn cydnabod mai prif ddangosydd ei berfformiad fydd lefelau rhagorol o foddhad tenantiaid â'r gwasanaeth atgyweirio.
- 1.8 Bellach, mae'r cynllun yn darparu arweiniad clir ar gyfer y gwasanaeth a'i staff a dylai hefyd gynorthwyo cwsmeriaid i ddeall sut mae'r blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni. Rhoddir manylion am y targedau perfformiad yn **Atodiad D**.
- 1.9 Bydd trefniadau cadarn yn cael eu rhoi ar waith rŵan i sicrhau bod y cynllun busnes yn cael ei fonitro, ei reoli a'i gyflawni'n effeithiol. Gan fod y Gwasanaeth Atgyweirio'n wasanaeth hanfodol i'n cwsmeriaid ac yn gysylltiedig â'u boddhad cyffredinol gyda Gwasanaethau Tai Ynys Môn, bwriedir adrodd ar gynnydd am gyflawni'r Cynllun Busnes hwn i'r Cyngor yn flynyddol.



## 2. Achos Busnes ar gyfer Cadw'r Gwasanaeth yn Fewnol

### 2.1 Cefndir ac Ysgogwyr ar gyfer Newid

Nodir isod fanylion am y rhesymau allweddol pam fod angen newid y dull cyfredol o ddarparu gwasanaeth:

- 2.1.1 Yn 2012, beirniadodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) y gwasanaeth presennol gan nodi '...ni all y Cyngor ddangos bod ei wasanaeth atgyweirio'n cefnogi cyflawni ei flaenoriaethau strategol, roedd gweithgareddau'r UCA yn seiliedig ar fodloni gofynion tendro cystadleuol gorfodol oedd wedi dyddio, nid oedd unrhyw gonsensws ynghylch yr hyn yr oedd y gwasanaeth yn anelu at ei gyflawni, ni all y Cyngor ddangos bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan sicrhau gwerth am arian. Nid oes unrhyw fframwaith adrodd yn ôl am berfformiad wedi cael ei sefydlu ac mae gwendidau o ran gwirio gwybodaeth ariannol yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu gwerthuso ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn llawn'. Yna, aeth yr adroddiad ymlaen i nodi 'un elfen sy'n effeithio ar y defnydd effeithiol o adnoddau yw bod y rhaniad cleient / contractwr yn cyflwyno dyblygiad posib yn enwedig o amgylch gwaith cyn-archwilio, archebu gwaith ac archwilio gwaith sydd wedi'i orffen...mae angen adolygiad sylfaenol o drefniadau'r gwasanaeth'.
- 2.1.2 Yn dilyn adroddiad SAC, cynhaliodd Solutions for Housing adolygiad o'r Gwasanaeth a gwerth am arian y gwasanaeth presennol. Daeth i'r casgliad bod y gwasanaeth yn cyrraedd lefel sy'n cyfateb â gwasanaeth un seren (h.y. gwasanaeth gweddol) ond roedd ganddo ragolygon gwael ar gyfer gwella petai'r rhaniad cleient / contractwr presennol yn cael ei gadw ar ei ffurf bresennol. Ynghlwm wrth yr adolygiad, roedd cynllun gweithredu eang o dros 60 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwnnw.
- 2.1.3 Ym mis Hydref 2012, cynhaliodd archwilwyr mewnol y Cyngor adolygiad archwilio mewnol o drefniadau caffael yr UCA. Y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad oedd 'nad oes gan yr UCA strategaeth gaffael mewn grym sy'n amlinellu ymrwymiad i sicrhau gwerth am arian drwy gaffael a sut mae hyn yn cael ei gyflawni yn yr UCA. Nid oes unrhyw weithdrefnau mewn grym yn yr UCA i sicrhau bod caffael yn cael ei wneud yn unol â gofynion Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a rheolau Gweithdrefn Ariannol, a bod profion archwilio wedi canfod nad oedd samplau o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd a welwyd yn yr UCA, y dylent, oherwydd eu gwerth, fod wedi'u caffael yn unol â Chontract y Cyngor a rheolau Gweithdrefn Ariannol mewn grym.
- 2.1.4 Mae rhaniad cleient / contractwr mewn grym, sy'n golygu bod y dasg o gyflawni'r gwaith atgyweirio yn cael ei rheoli gan yr UCA yn y Gaerwen, ond mae'r rhan sy'n gofalu am y cleient yn cael ei rheoli gan brif dîm y Gwasanaethau Tai yn Llangefni. Mae hyn yn creu rhaniad mewnol yn y tîm a dull tameidiog o ddarparu gwasanaethau.

## 2.2 Yr achos busnes ar gyfer newid

Nodir yr achos busnes dros gadw'r Gwasanaeth Atgyweirio yn fewnol, yn amodol ar gyfuno'r timau cleient a contractwr mewn un tîm ac ymgymryd â rhaglen drawsnewid a foderneiddio cynhwysfawr isod.

### 2.2.1 Gwasanaeth Atgyweirio Cyfredol – gwendidau a chryfderau

Gwendidau - Cydnabuwyd bod gan y gwasanaeth cyfredol rai gwendidau allweddol yn cynnwys y canlynol: dim cyfeiriad strategol a gytunwyd arno, dim nod cyffredin gyda'r Gwasanaeth Tai, rhaniad cleient / contractwr sydd wedi creu perthynas waith gwrthwynebus a dull gweithredu tameidiog at ddarparu gwasanaeth ynghyd â diffyg canolbwynt ar werth am arian a methu dangos cydymffurfiaeth â rheolau caffael y Cyngor. Yn ei hanfod, mae'n wasanaeth hen ffasiwn sy'n gweithio ar bapur. Nid yw'r gweithlu'n cael eu haml-sgilio, ac mae diffyg technoleg fodern (er eu bod yn ymdrin â hyn ar adeg yr adolygiad hwn gyda phrosiect gweithredu TG gynhwysfawr eisoes ar y gweill).

Cryfderau - Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth cyfredol rai cryfderau fel a ganlyn: mae perfformiad yn dda mewn rhai meysydd rheng flaen allweddol, mae boddhad cwsmeriaid yn gymharol uchel ac mae wedi dangos gwelliant sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (gweler **Atodiad B**). Mae'r gwasanaeth eisoes yn cyrraedd lefel un seren o wasanaeth 'gweddol' ac roedd cynllun gwella wedi bod yn y broses o gael ei weithredu dros y deunaw mis blaenorol. Mae gan y tîm agwedd gadarnhaol, a'r awydd i wella a moderneiddio ac felly ni fyddai llawer o amharodrwydd fewnol i unrhyw raglen newid trawsnewidiol, yn amodol ar gefnogaeth ac adnoddau priodol.

### 2.2.2 Canlyniadau Meincnodi'r Gwasanaeth Cyfredol

Mae'r gwasanaeth cyfredol wedi cael ei feincnodi yn erbyn landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, ac yn erbyn canlyniadau ar gyfer landlordiaid cymdeithasol ledled y DU sydd â llai na 5,000 o unedau'n cael eu rheoli (ac eithrio Llundain ac unrhyw landlordiaid cymdeithasol yng nghanol dinas). Mae'r canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad B**. Mae'r tabl hwn yn dangos hanes perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â dangosyddion allweddol ac mae'n dangos bod perfformiad wedi bod yn gymysg, ond mae nifer o feysydd allweddol wedi dangos rhywfaint o welliant, yn enwedig o ran boddhad cwsmeriaid.

Mae'r tabl yn **Atodiad B** yn cynnwys perfformiad chwarterl uchaf (h.y. 25% uchaf) landlordiaid cymdeithasol Cymru sy'n cymryd rhan yng ngwasanaeth meincnodi HouseMark a hefyd perfformiad landlordiaid cymdeithasol ledled y DU sydd â llai na 5,000 o unedau dan eu rheolaeth. Mae colofn ochr dde'r tabl yn nodi a yw gwasanaeth atgyweirio cyfredol Ynys Môn yn cyflawni unrhyw un o'r lefelau hyn. Mae hyn yn dangos bod ychydig o'r trothwyon hyn wedi cael eu cyflawni, ond ar y cyfan, nid yw'n bodloni 'safon rhagoriaeth' landlordiaid cymdeithasol eraill sy'n perfformio'n rhagorol.

### 2.2.3 Opsiynau a ystyriwyd ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth yn y dyfodol

Cafodd ystod o opsiynau posibl ar gyfer y gwasanaeth eu hystyried yn ystod y Gwerthusiad o'r Opsiynau, gan gynnwys y posibilrwydd o allanoli'r gwasanaeth cyfan, neu rannau o'r gwasanaeth. Roedd y gwerthusiad yn ystyried cryfderau, manteision, gwendidau a risgiau pob opsiwn ac yna'n sgorio'r opsiynau hyn yn erbyn meini prawf wedi'u pwysu a'u mesur. Mae manylion llawn y Gwerthusiad Opsiynau yn destun adroddiad cynhwysfawr ar wahân ac ni chaiff ei ailadrodd yma; fodd bynnag, mae'r crynodeb o'r cryfderau, y manteision a'r risgiau sydd ynghlwm wrth yr opsiwn a argymhellir i gadw'r gwasanaeth yn fewnol yn cael ei gynnwys yn **Atodiad E** y Cynllun Busnes hwn.

Nid yw cadw'r gwasanaeth yn fewnol o reidrwydd yn golygu y bydd popeth o fewn y gwasanaeth presennol yn cael eu cadw. Bydd y gwasanaeth yn nodi ac yn datblygu ei gryfderau craidd ac yn gweithredu'r rhain yn fewnol, ond mae'n cydnabod y gall meysydd busnes llai critigol eraill gael eu cyflawni'n allanol. Er enghraifft, bydd y gwasanaeth yn archwilio opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer ei swyddogaeth storfeydd a allai gynnwys allanoli hyn i ddarparu'r allanol, petai asesiad gwerth am arian annibynnol yn darparu tystiolaeth y byddai hyn yn cynnig mwy o fanteision busnes a chost-effeithiolrwydd.

### 2.2.4 Gwerth Ychwanegol a Gwerth Ariannol yr Opsiwn Mewnol

Mae rheolaeth ac ymwybyddiaeth ariannol yn y gwasanaeth wedi cael ei gydnabod fel maes o wendid yn y gorffennol, ond roedd hyn yn cael ei gryfhau pan gynhaliwyd yr ymarfer Gwerthuso Opsiynau a phan ddatblygwyd y Cynllun Busnes.

Ystyriwyd bod costau gweithredu a rheoli'r gwasanaeth yn gymharol uchel (yn rhannol oherwydd y rhaniad cleient / contractwr ar wahân yn arwain at ddyblygu rhai tasgau) ond dywedodd yr ymgynghorydd oedd yn adolygu'r gwasanaeth fod 'posibilrwydd o gael enillion gwerth am arian ac arbedion o ran costau'. Nodwyd y cyfleoedd hynny ac fe'u hamlinellir yn **adran 8** yr adroddiad hwn ac maent wedi cael eu cynnwys fel camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Strategol yn **Atodiad C**. Mae'r canlyniadau meincnodi diweddaraf o gostau'r gwasanaeth yn dangos bod gwasanaeth atgyweirio ymatebol Ynys Môn ar gyfartaledd yn £160 ar hyn o bryd, yn erbyn ffigur chwarter uchaf o £108 yng Nghymru a £99 yn y DU yn gyffredinol ac felly mae angen cyflwyno ffyrdd o arbed costau er mwyn cyflawni'r un lefelau â'r perfformwyr gorau.

O ran y potensial ar gyfer arbedion ariannol, ystyrir bod isafswm targed o £250k y flwyddyn yn lefel ddarbodus i'w nodi, a bydd yn cael ei gyflawni drwy enillion o ymarferion caffael ar draws y gwasanaeth gan gynnwys y swyddogaeth storfeydd, arbedion staffio posibl o'r strwythur wedi ei uno ac effeithlonrwydd gweithredol drwy weithio mewn ffordd fwy syml ac fel busnes, a fydd yn cael ei gyflawni drwy ddull gweithredu darbodus tuag at gyflawni'r gwasanaeth. Fodd bynnag, dylid cymharu hyn yn erbyn yr arbedion posibl o £400k y flwyddyn a allai fod yn gyraeddadwy (ond nid oes gwarant o hynny) pe byddai'r gwasanaeth yn cael ei allanoli, ac mae'n seiliedig ar brofiad o wasanaethau eraill a dendrwyd yn ddiweddar (cyfeiriwch at yr adroddiad Gwerthuso Opsiynau ar wahân i gael rhagor o fanylion).

Teimlai'r Tîm Atgyweiriadau y byddai cadw'r gwasanaeth yn fewnol (yn amodol ar foderneiddio / trawsnewid) yn cyflawni lefel uwch o werth i'r Cyngor na'r opsiwn o allanoli a bod angen ystyried y gwerth hwn, er ei fod yn anodd ei fesur yn ariannol, er mwyn sicrhau bod cymhariaeth deg â'r opsiwn o allanoli.

Ystyrir bod y gwerth ychwanegol i'r Cyngor fel a ganlyn:

- i. Perchnogaeth – mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai Ynys Môn yn cadw perchnogaeth a rheolaeth lawn o'r gwasanaeth (yn hytrach nag allanoli i gontractwr allanol i gyflawni gwasanaeth) ac yn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu gan bobl leol. Drwy gadw perchnogaeth lawn, gall y gwasanaeth hefyd sicrhau aliniad mewnol llawn â gweledigaeth ac amcanion strategol y Cyngor gyda phwrpas a gwerthoedd cyffredin;
- ii. Gwasanaethu un cleient yn hytrach na llawer - byddai'r gwasanaeth mewnol wedi'i ymrwymo'n llawn i Wasanaeth Tai Ynys Môn, fel ei unig gleient, yn hytrach na'r llawer o gleientiaid a wasanaethir gan gontractwr allanol;
- iii. Hyblygrwydd - drwy gadw'r gwasanaeth yn fewnol, mae hyn yn cynnig lefel uwch o hyblygrwydd i'r Gwasanaeth Tai na'i allanoli, a fyddai'n cynnwys manyleb contract anhyblyg mewn grym. Teimlwyd y byddai gan wasanaeth mewnol y gallu i ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg heb yr angen i ail-drafod y contract (gan gynnwys y posibilrwydd o daliadau ychwanegol) gyda chontractwr allanol;
- iv. Pwrpasol - byddai'r gwasanaeth mewnol yn bwrpasol ar gyfer gofynion Ynys Môn yn hytrach na bod yn wasanaeth cyffredin a ddarperir gan gontractwr allanol i bob un o'i gleientiaid;
- v. Gwerth am Arian - byddai'r opsiwn yn sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael yn cael ei wario ar y stoc dai, yn hytrach na chyfran yn cael ei dalu fel elw i'r contractwr. Byddai gwasanaeth mewnol yn cael blaenoriaeth o ganolbwyntio ar y cwsmer, yn hytrach na chael ei gymell gan elw, ond, ar yr un pryd, cydnabyddir bod angen i'r gwasanaeth mewnol ddatblygu gwell craffter masnachol a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Byddai dull gweithredu darbodus yn cael ei gyflwyno i symleiddio prosesau a bydd yr adnoddau a arbedir drwy weithio yn fwy effeithlon ac effeithiol ar gael i'w cyfrannu naill ai at fusnes craidd, neu at faterion ehangach fel: prosiectau effeithlonrwydd ynni, gwelliannau amgylcheddol i stadau, creu cyfleoedd prentisiaeth a gwella'r gwasanaeth ymhellach i gwsmeriaid. Mae ystod eang o gyfleoedd gwerth am arian wedi cael eu nodi a'u harchwilio yn y prif gynllun busnes (**adran 8**);
- vi. Lleihau risg – mae'r opsiwn hwn yn osgoi'r risg y gallai contractwr allanol fynd yn fethdalwr, a fyddai'n golygu na fyddai swyddogaeth atgyweirio ar gael ar unwaith ar gyfer y Gwasanaeth Tai. Mae dadansoddiad risg llawn ar gyfer cadw'r gwasanaeth yn fewnol i'w weld yn y cynllun busnes (**adran 11**);
- vii. Atebolrwydd - byddai atebolrwydd clir mewn grym gan mai'r gwasanaeth newydd ei uno'n unig fyddai'n gyfrifol am gyflawni ei gynllun busnes a chyflawni ei weledigaeth a'i amcanion strategol. Byddai uwch reolwyr yn atebol am eu penderfyniadau, eu camau gweithredu a pherfformiad eu gwasanaeth.

Yn y blynyddoedd cynnar o'r prosiect trawsnewid sydd ei angen, disgwylir y bydd angen unrhyw arbedion a gynhyrchir i ariannu costau'r rhaglen newid, i gynnwys yr arbenigwyr/hyfforddwyr rheoli newid ac arbenigwyr caffael posibl i sicrhau arbedion effeithlonrwydd gwerth am arian ar draws meysydd gwariant allweddol y gwasanaeth. Mae'r costau posibl yn dangos y gallai cost y prosiect trawsnewid fod oddeutu £100k, fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys costau posibl unrhyw ddiswyddiadau a allai ddeillio o ailstrwythuro'r gwasanaeth. Er mwyn darparu cymhariaeth ddefnyddiol, byddai'r gost o allanoli'r gwasanaeth, gan gynnwys bodloni gofynion OJEU, yn debygol o fod hyd at £150k.

Er mwyn gweithredu'n bwylllog felly, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio wedi tybio'r elfennau a ganlyn:

- Na fydd unrhyw arbedion net ym mlynyddoedd cynnar y cynllun busnes tra bod y rhaglen trawsnewid yn mynd rhagddi;
- Bydd costau'r rhaglen drawsnewid yn cael ei ariannu o'r arbedion a gynhyrchir yn y blynyddoedd cynnar hyn ac na fydd angen i'r Cyngor ychwanegu unrhyw adnoddau at gyllideb y Gwasanaethau Tai i'w gyflawni;
- Y bydd isafswm targed gwirioneddol o £250k yn cael ei gyflwyno yng nghyllideb refeniw blynyddol 2017/18.

Bydd cost ychwanegol hefyd ar gyfer Rheolwr Trawsnewid a fydd yn cael ei benodi i'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod tra bod y strwythur tîm newydd yn cael ei ddatblygu a swyddi'n cael eu cyfateb / recriwtio i'r swyddi. Eu rôl fydd goruchwyllo swyddogaethau'r cleient a'r contractwr a gweithredu nifer o brosiectau allweddol yn ystod cyfnod cynnar y Cynllun Busnes nad ydynt yn ddibynnol ar gael y tîm newydd yn weithredol. Bydd hyn yn cael ei ariannu o swm wrth gefn ar gyfer prosiectau newid yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2014/15.

Dylid nodi hefyd bod y Cyngor eisoes wedi ymrwymo i lefelau mawr o wariant TG sy'n cynnwys y systemau contractwr atgyweirio ac felly byddai cadw'r gwasanaeth yn fewnol yn osgoi'r angen i gael gwared ar y gwariant hwn.

### **2.2.5 Manteision ehangach o gadw'r gwasanaeth yn fewnol**

Byddai ystod o fanteision ehangach eraill hefyd yn ymddangos o gadw'r gwasanaeth atgyweirio wedi ei uno a foderneiddiwyd yn fewnol fel a ganlyn:

- i. Gwasanaeth wedi'i integreiddio'n llawn - drwy gyfuno'r swyddogaethau cleient a contractwr gyda'i gilydd a dod â'r rhain yn nes at y Gwasanaeth Tai yn ei gyfanrwydd, teimlwyd y gallai'r gwasanaeth weithredu fel un tîm yn y dyfodol gyda gweledigaeth ar y cyd, yn goresgyn problemau presennol sy'n ymwneud â chyfathrebu, gwahanol flaenoriaethau, dyblygu gwaith, rhwystredigaeth staff a diwylliant o fwrw bai. Disgwylir y bydd y gwelliannau mewnol hyn yn galluogi'r tîm i sicrhau lefelau gwell o wasanaeth i gwsmeriaid;
- ii. Y gallu i ystyried gweithgareddau arallgyfeirio y tu hwnt i dai cymdeithasol traddodiadol, er enghraifft: cynnal a chadw adeiladau'r cyngor, adeiladau heblaw am dai, sector preifat, sector rhentu. Fodd bynnag, mae'r

- Gwasanaeth Atgyweirio'n derbyn na ddylai hyn gael ei wneud ar draul y gwasanaeth craidd (**adran 6**);
- iii. Mae manteision ehangach a phethau i'w dysgu wrth foderneiddio'r Gwasanaeth Atgyweirio a gall y wybodaeth hon gael ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Tai ehangach ar gyfer gwella perfformiad timau eraill y Gwasanaeth Tai;
  - iv. Materion rheoleiddio a llywodraethu - bydd yr opsiwn hwn yn mynd i'r afael â phryderon adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 ac adroddiad Gwerth am Arian ac Adolygiad o'r Gwasanaeth gan Solutions for Housing yn 2012. Bydd yr opsiwn hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â chaffael gan Archwilwyr Mewnol y Cyngor.

#### 2.2.6 Staffio / Adnoddau Dynol

Mae strwythur staffio lefel uchel mynegol ar gyfer y gwasanaeth newydd yn cael ei gynnwys yn Atodiad G y Cynllun Busnes hwn. Mae'r strwythur staffio'n adlewyrchu'r uchelgais i ddarparu ymagwedd gyfannol tuag at fuddsoddi mewn asedau ac atgyweirio gyda'r bwriad o reoli'r swyddogaethau hyn yn y dyfodol gan un Rheolwr Gwasanaethau Eiddo a fydd yn sicrhau bod gweithio a meddylfryd cydgysylltiedig yn cael ei gyflawni.

Bydd y swyddogaeth reoli gwaith atgyweirio yn un tîm (yn hytrach na'r swyddogaethau cleient a chontractwr ar wahân ar hyn o bryd) a bydd cysylltiadau clir â chanolfan alwadau'r gwaith atgyweirio.

Bydd aml-sgilio'n cael ei gyflwyno ar gyfer y gweithwyr, a ddylai yn ei dro arwain at lefel uwch o atgyweirio cywir tro cyntaf ar gyfer cwsmeriaid. Bydd yr oriau gwaith presennol hefyd yn cael eu hadolygu a'u hystemyn i sicrhau y gall gwaith atgyweirio gael ei wneud ar adeg fwy cyfleus i gwsmeriaid e.e. apwyntiadau gyda'r nos ar gael. Bydd y gymysgedd o grefftau yn y gwasanaeth yn cael ei adolygu'n unol â'r galw am waith gan y stoc dai a bydd y gweithlu'n cael ei ailstrwythuro'n unol â hynny. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth rheng flaen wedi ei rhannu'n bedair ardal ddaearyddol a bydd hyn yn cael ei aildrefnu'n drefniant symlach, fydd yn cael ei ysgogi'n rhannol wrth gyflwyno technoleg gweithio symudol a Chynorthwyr Digidol Personol (PDAs).

Unwaith y bydd cytundeb wedi ei gael am ddyfodol y Gwasanaeth Atgyweirio, yna bydd adroddiad strwythur staffio manwl i'r dyfodol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gerbron Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Y bwriad yw na fydd y strwythur staffio manwl newydd yn costio mwy na'r gwasanaeth presennol a'r uchelgais yw y bydd yn sicrhau arbedion o ran costau.

Bydd y Gwasanaeth Tai yn gweithio'n agos gyda thîm Adnoddau Dynol y Cyngor i sicrhau bod amserlen yn cael ei rhoi ar waith a bod yr holl weithdrefnau ac ymgynghoriadau angenrheidiol gyda staff ac undebau yn cael eu dilyn.

### 2.2.7 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol Newydd ar gyfer y Gwasanaeth a Gedwir

Er mwyn sicrhau bod cyfeiriad strategol clir i'r dyfodol, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio wedi datblygu datganiad Gweledigaeth newydd a chyfres o amcanion strategol allweddol, canlyniadau clir i'w cyflawni a chynllun gweithredu strategol manwl i'w cyflwyno (gweler **adran 3**).

### 2.2.8 Cyflawni'r Prosiect Trawsnewidiol

Bydd y prosiect trawsnewidiol yn cael ei gyflawni mewn tri cham allweddol fel a ganlyn:

Cam Un: Cyfnod Sylfaenol - Amserlen ddisgwyliedig o 6 mis hyd at fis Tachwedd 2014.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolwr trawsnewidiol yn cael ei gyflwyno i'r tîm a fydd yn darparu arweinyddiaeth glir, yn rheoli ac yn cydlynu gwaith y swyddogaethau cleient a chontractwr sydd ar wahân ar hyn o bryd ac yn sefydlu perthynas waith mwy cynhyrchiol. Yn ystod y cyfnod hwn byddai'r rheolwr hefyd yn goruchwyllo'r prosiectau i gyflawni strwythur y tîm newydd ei uno a'r adolygiad llety. Bydd y rheolwr yn cyflwyno dull gweithredu 'yr hanfodion sylfaenol' ar gyfer y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr elfennau sylfaenol o'r gwasanaeth yn cael eu cyflawni'n briodol ac yn effeithlon a bydd yn sicrhau bod rheolaeth weithredol gref mewn grym ar gyfer y gwasanaeth, bod rheolaeth ac ymwybyddiaeth ariannol yn cael eu cryfhau a bod diwylliant perfformiad, a ategir gan weithdrefnau rheoli contract cadarn, yn cael ei gyflwyno. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod sylfaen gadarn mewn grym a bydd y gwasanaeth modern i'r dyfodol yn cael ei ddatblygu ar ben hyn.

Cam Dau: Cyfnod Datblygu – Amserlen ddisgwyliedig o 18 mis hyd at fis Mawrth 2016.

Bydd y cyfnod hwn yn dechrau unwaith y bydd strwythur y tîm sydd newydd ei uno mewn grym a gall y cam 'rheoli newid' i foderneiddio a thrawsnewid y gwasanaeth ddechrau. Bydd perfformiad yn cael ei ysgogi tuag at lefelau gwasanaeth rhagorol yn y cyfnod hwn. Bydd y tîm yn cael ei gefnogi gan arbenigwyr rheoli newid a fydd yn goruchwyllo, yn rheoli'r prosiect, yn arwain ac yn hyfforddi'r tîm a bydd yn cyflwyno egwyddorion dull gweithredu darbodus i'r tîm. Y bwriad, fodd bynnag, yw y bydd llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni gan y tîm eu hunain a fydd yn sicrhau bod dysgu a pherchnogaeth yn ei le. Y bwriad yw y bydd y prosiect newid trawsnewidiol yn cael ei gyflwyno mewn camau, a fydd yn rhoi amser i'r timau yn y gwasanaeth i gael eu sefydlu cyn symud ymlaen i fentrau newid eraill. Drwy'r prosiect trawsnewidiol, bydd y 'Model Gwasanaeth Rhagorol' (gweler **Atodiad H**) yn cael ei fabwysiadu, sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan landlordiaid cymdeithasol rhagorol 3 seren eraill, lle mae staff naill ai'n gyflenwyr gwasanaethau rheng flaen (h.y. yn darparu'r gwasanaeth i'r cwsmeriaid), neu maent yn alluogwyr o'r gwasanaeth rheng flaen, sy'n gyfrifol am sicrhau bod popeth yn y gwasanaeth yn barod i ddarparu gwasanaethau cywir y tro cyntaf, bob amser. Bydd yr holl fentrau newid drwy ddull sy'n seiliedig ar brosiectau, lle gall aelodau allweddol a effeithir gan y penderfyniad

ddod â sgiliau a gwybodaeth berthnasol ar draws y tîm i sicrhau bod ystod lawn o safbwyntiau yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnodau cynllunio a rheoli.

Cam Tri: Cam Grymuso - Amserlen ddisgwyliedig 6 mis hyd at fis Medi 2016

Bydd y cam hwn yn golygu y bydd gan y tîm fwy o rym a byddant hefyd yn gallu cyflawni gwelliannau a mentrau eu hunain yn y gwasanaeth heb fod angen cymorth allanol parhaus. Bydd yr arbenigwyr rheoli newid yn dal i weithio gyda'r tîm, er ar sail llai dwys nag yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect a'u blaenoriaeth fydd trosglwyddo gwybodaeth i'r tîm. Erbyn y cam hwn, bydd lefelau perfformiad y gwasanaeth yn rhagorol a bydd yr enillion gwerth am arian wedi cael eu gwireddu.

### 2.2.9 Cynllun Busnes

Mae'r achos busnes hwn bellach yn cael ei gefnogi gan gynllun busnes cynhwysfawr sydd wedi cael ei gynllunio gan y Gwasanaeth Atgyweirio i droi'r uchelgais a'r dyheadau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol, i mewn i gynllun gweithredu strategol gwirioneddol, pendant a chyraeddadwy gyda chanlyniadau clir. Mae'r cynllun busnes hwn, sy'n ffurfio gweddill yr adroddiad hwn, yn amlinellu beth fydd y camau gweithredu allweddol, sut fyddan nhw'n cael eu cyflwyno ac erbyn pryd fyddan nhw'n cael eu cyflawni.

### 2.2.10 Targedau Perfformiad

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu ystod o dargedau perfformiad gam-wrth-gam dros gyfnod y cynllun i ddarparu map llwybr disgwyliedig clir i gyflawni lefelau gwasanaeth rhagorol (**Atodiad D**).

### 2.2.11 Cynllun Ariannol

Mae cynllun ariannol ar gyfer y gwasanaeth ar gyfer cyfnod tair blynedd y cynllun busnes newydd wedi cael ei ddatblygu ac fe welir hyn yn Atodiad I. Mae hyn yn dangos hyfywedd y gwasanaeth dros y cyfnod hwn.

### 2.2.12 Cerrig Milltir Allweddol

Mae rhestr o gerrig milltir a dyddiadau allweddol wedi cael eu datblygu gan y Tîm Atgyweirio sy'n amlinellu beth yw elfennau allweddol y cynllun a'r dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer eu cwblhau (gweler **adran 12**).

### 2.2.13 Strategaethau Ymadael

Mae strategaeth ymadael glir wedi cael ei datblygu gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai sy'n nodi, pe na fyddai'r gwasanaeth a gedwir yn fewnol yn cyflawni'r lefelau perfformiad gofynnol, yna bydd y gwasanaeth yn cael ei ystyried eto ar gyfer ei allanoli a byddai'r gwasanaeth cyfan, h.y. y swyddogaethau cleient a chontractwr yn cael eu hallanoli pe byddai hynny'n digwydd.



### 3. Datganiad Gweledigaeth, Amcanion Allweddol a Diwylliant

- 3.1 Dyma weledigaeth newydd y gwasanaeth: **Tîm Atgyweirio rhagorol, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, sydd wedi ymrwymo i gyflawni gwasanaethau modern, effeithlon ac o safon uchel, ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ein cwsmeriaid.**
- 3.2 O fewn y weledigaeth hon, cydnabyddir bod angen newid trawsnewidiol a diwylliannol a bod angen moderneiddio dull gweithredu'r gwasanaeth cyfan, drwy ei wneud yn fwy hyblyg, yn addasadwy, yn syml ac yn arloesol. Yn ogystal â'r gwasanaeth atgyweirio tai presennol, byddai cwmpas gwasanaeth y dyfodol hefyd yn ehangu i ystyried y cymunedau a'r amgylchedd lle lleolir yr eiddo a hefyd ceisio cyfleoedd busnes newydd y byddai'r arian/adnoddau dros ben yn cael eu defnyddio i'w hail-fuddsoddi i'r gwasanaeth. Felly, mae gweledigaeth y Cynllun Busnes wedi defnyddio'r gair 'cwsmeriaid' yn hytrach na 'thenantiaid i gydnabod ehangu darpariaeth y gwasanaeth i feysydd posibl nad ydynt yn ymwneud â thenantiaid.
- 3.3 Wrth ddatblygu'r cynllun busnes hwn, mae'r gwasanaeth atgyweirio wedi ystyried yr amgylchedd gweithredu economaidd ac allanol ehangach ac wedi cynhyrchu dadansoddiad PEST cynhwysfawr yn **Atodiad A**. Yna, ystyriwyd y bygythiadau a'r cyfleoedd a nodwyd o'r dadansoddiad hwn ochr yn ochr â chryfderau a gwendidau'r Gwasanaeth Atgyweirio. Arweiniodd hyn at ddatblygu dadansoddiad TOWS manwl (a elwir weithiau yn ddadansoddiad SWOT) ac mae hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn **Atodiad A**.
- 3.4 Fel gwasanaeth rheng-flaen sy'n cyflawni 7,428 o atgyweiriadau cyffredinol bychain, 2,426 o achosion o wasanaethu nwy a 272 o unedau gwag y flwyddyn ar gyfartaledd, mae hefyd wedi cydnabod rhai amcanion allweddol cyffredinol fel a ganlyn:
- Bod yn groesawgar ac yn hygyrch gyda phob cwsmer;
  - Darparu tai fforddiadwy, diogel, o ansawdd uchel;
  - Helpu creu gwell amgylchedd lleol ar gyfer ein tenantiaid.
- 3.5 Mae amcanion allweddol newydd ar gyfer y Cynllun Busnes hwn wedi cael eu datblygu o amgylch pum thema, fel a ganlyn: Pobl, Cwsmeriaid, Cyfleoedd, Hyfywedd Ariannol a Gwerth am Arian ac Asedau. Mae'r datganiadau amcanion allweddol newydd hyn yn adlewyrchu gweledigaeth a chyfeiriad newydd y gwasanaeth, ac maent fel a ganlyn:

**Ein Pobl:** Datblygu sgiliau a chymwyseddau ein pobl i ddarparu gwasanaeth atgyweirio rhagorol i'n cwsmeriaid;

**Ein Cwsmeriaid a'n Gwasanaeth:** Gwybod pwy yw ein cwsmeriaid, cyflawni gwasanaeth atgyweirio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer ein holl gwsmeriaid i ddylanwadu ar y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu;

**Ein Cyfleoedd:** Ceisio a sicrhau cyfleoedd busnes newydd sy'n gwneud cyfraniad ariannol cadarnhaol fel y gellir ail-fuddsoddi arian dros ben yn ôl i'r busnes craidd, neu amcanion cymdeithasol ehangach;

**Ein Perfformiad a Chyflawni Gwerth am yr Arian:** Darparu lefelau rhagorol o berfformiad a lefel dda o werth am arian ym mhopeth a wnawn a pharhau i fod yn hyfyw yn ariannol;

**Ein Hasedau:** Mabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at atgyweirio a buddsoddi, rheoli asedau'n effeithlon ac yn gost-effeithiol, a defnyddio gwybodaeth o ansawdd da i hysbysu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Rhoddir manylion am yr amcanion allweddol hyn, y canlyniadau a fydd yn deillio o'u gweithredu a'r camau gweithredu strategol allweddol i'w cyflawni yn ystod cyfnod y ddogfen cynllun busnes hwn yn **Atodiad C**.

3.6 Diwylliant y Gwasanaeth Atgyweirio - Er mwyn sicrhau gwasanaeth rhagorol, bydd diwylliant y Gwasanaeth Atgyweirio yn cael ei ddatblygu ymhellach i fod fel a ganlyn:

- Yn broffesiynol
- Yn canolbwyntio ar y cwsmer – rhoi'r cwsmer gyntaf bob amser;
- Yn cyflawni Gwerth am Arian;
- Yn cael ei gymell gan berfformiad;
- Yn arloesol – i oresgyn a ffynnu;
- Yn gywir y tro cyntaf, bob amser.

Yn y diwylliant uchod, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn cydnabod fod angen iddo ddatblygu ei lefel o graffter busnes er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gost effeithiol, yn cynrychioli gwerth da am arian a bod hyfywedd yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y cynllun.

## 4. Perfformiad presennol y Gwasanaeth Atgyweirio

4.1 Wrth osod cyfeiriad strategol newydd ar gyfer y gwasanaeth, i ddechrau, roedd hi'n angenrheidiol deall perfformiad presennol y Gwasanaeth Atgyweirio, gan fod hyn yn creu man cychwyn ar gyfer y Cynllun Busnes newydd hwn.

4.2 Rhoddir tueddiadau perfformiad ar gyfer y tair blynedd ariannol lawn ddiwethaf yn **Atodiad B**. Mae hyn yn darparu dadansoddiad tueddiadau defnyddiol a chyfeiriad dangosyddion perfformiad a chostau allweddol yn ystod y cyfnod. Yng ngholofnau canol y tabl (wedi'u lliwio'n llwyd) gwelir y lefelau meincodi ar gyfer cyflawni'r chwarter uchaf (h.y. 25% uchaf) yng ngrŵp meincodi Ynys Môn. Mae'r golofn ar y

llaw dde yn rhoi asesiad goleuadau traffig ynglŷn ag a yw'r lefelau hyn wedi eu cyflawni hyd yn hyn.

4.3 Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio i lywio a gosod y targedau perfformiad gam-wrth-gam yn y cynllun busnes newydd a drafodir yn fanylach yn **adran 10** ac yn **Atodiad D**.

## 5. Hanfodion Gwasanaeth Atgyweirio Rhagorol

5.1 Uchelgais y Cynllun Busnes hwn yw cyflawni gwasanaeth rhagorol ac felly mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn diffinio'r hanfodion, a thrwy hyn sicrhau bod y gwasanaeth yn symud ymlaen tuag at nod a gytunwyd ac a ddeallwyd gan bawb. Yn ystod yr adolygiad Gwerthuso Opsiynau adnabu'r tîm prosiect y canlynol fel hanfodion ar gyfer cyflawni gwasanaeth rhagorol:

- i. **Gwasanaeth cwsmer** – gwasanaeth i fodloni'r tenantiaid yn hytrach na'r landlord. Oriau gweithio mwy hyblyg ar gyfer tenantiaid sy'n gweithio yn ystod y dydd. Atgyweirio'n gywir y tro cyntaf fel norm, fel y gellir osgoi'r angen am ymweliad arall h.y. yr atgyweirio yn cael ei wneud ar amser, yn llawn, heb gamgymeriadau. Adnabuwyd mewn gwasanaeth rhagorol y byddai'r staff yn barod i fynd 'y filltir ychwanegol' ar gyfer y cwsmer a bod â gwasanaethau hollol hygyrch. I gyflawni hyn, roedd yn hanfodol bod dealltwriaeth glir o bwy yw'r cwsmeriaid a gwahanol anghenion grwpiau o gwsmeriaid ac addasu'r gwasanaeth yn briodol i'r gwahanol anghenion hyn. Teimlwyd y gallai'r gwasanaeth hefyd ddarparu gwell gwybodaeth i'r tenantiaid ar yr hyn y gallent hwy eu hunain wneud i osgoi problemau yn eu hunedau (h.y. agwedd ei bod yn well atal na thrwsio) e.e. materion lleithder a chyddwysiad. Adnabuwyd bod yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau (BMU) wedi adeiladu perthnasoedd da gyda thenantiaid yn ystod y gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) diweddar ac y gellir bellach ddefnyddio'r un dull yn y gwasanaeth atgyweirio;
- ii. **Cyfranogiad cwsmer** – bod ystod eang o gyfleoedd cyfranogiad cwsmer mewn lle a allai arddangos yn glir sut yr oedd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth. Byddai cyfranogiad cwsmer yn adlewyrchu proffil y cwsmeriaid. Adnabuwyd er mwyn bod yn rhagorol y byddai'n hanfodol bod y gwasanaeth yn defnyddio cwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y gwasanaeth;
- iii. **Gwasanaethau integreiddiedig/unedig** – gwasanaeth atgyweirio sy'n integreiddio'n llyfn gyda'r timau Rheolaeth Tai ehangach i gyflwyno gwasanaeth integreiddiedig, gan roi adborth o ran gwybodaeth i'r gwasanaeth yn barhaus. 'Llygaid a chlustiau' y landlord. Gallai'r landlord ei hunan ddefnyddio'r gwasanaeth i gipio gwybodaeth ehangach na dim ond cyflwr yr eiddo h.y. gwybodaeth am y cwsmer a'r ystâd/amgylchedd ehangach;
- iv. **Gwella parhaus** – canolbwyntio clir ar wella parhaus, Gwerth am Arian a datblygiadau newydd. Bod y gwasanaeth angen ymdrechu yn barhaus a

datblygu ei hunan i gyflawni gwasanaeth 'cywir y tro cyntaf' uwch. Y bwriad felly yw y bydd prosiectau peilot yn cael eu datblygu ar gyfer mentrau newydd er mwyn profi eu heffaith mewn ffordd reoledig cyn eu defnyddio'n ehangach ar draws y gwasanaeth. Yn ychwanegol, byddai'r gwasanaeth yn sicrhau y byddai adolygiadau yn cael eu cynnal ar ôl y gweithredu i fesur y gwir effaith, gyda thystiolaeth ar ffurf data caled a meddal;

- v. **Staff llinell flaen** – er mwyn cyflawni atgyweiriadau cywir y tro cyntaf adnabuwyd bod gweithlu aml-sgil ac wedi'u grymuso angen bod mewn lle ac mae hyn angen cael ei gefnogi trwy gyrsiau hyfforddiant sgiliau priodol. Byddai cyfuniad o hyfforddiant ffurfiol a hyfforddiant wrth weithio yn ddelfrydol, fel y byddai asesiad rheolaidd o sgiliau;
- vi. **TG** – mae angen systemau modern ac integreiddiedig i alluogi'r tîm i gyflawni gwasanaeth effeithiol ac un sy'n diwallu disgwiliadau cynyddol soffistigedig tenantiaid o ran technoleg. Mae dyfeisiau technoleg a ddelir yn y llaw, systemau trefnu gwaith *opti-time*, tracio cwsmeriaid, apwyntiad ar y pwynt cyswllt cyntaf a negeseuon testun cyn yr apwyntiad, i gyd angen bod mewn lle. Ystyriwyd bod systemau sy'n rhyngwynebu yn llyfn gyda'i gilydd hefyd yn hanfodol. Adnabuwyd, fodd bynnag, er mwyn i ddyfeisiau symudol weithio bod problem gyda'r lefel o signal mewn rhai rhannau o'r ynys;
- vii. **Costau** – teimlai'r tîm er mwyn cyflawni ei lefelau ardderchog o wasanaeth, na allai'r gwasanaeth fod yn un rhad, ond bod yn rhaid iddo fod yn fforddiadwy. Adnabu'r tîm y risg posibl yn y dyfodol o system diwygio lles Credyd Cynhwysol y llywodraeth a allai o bosibl leihau llif incwm net yn y dyfodol a golygu bod llai o bres ar gael ar gyfer gwasanaethau craidd megis atgyweirio. Dylai gwerth am arian felly fod yn rhan annatod o'r gwasanaeth i sicrhau'r defnydd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael o ran canlyniadau i gwsmeriaid. Dylai rheolaeth gyllidol gref ac ymwybyddiaeth fasnachol fod yn norm;
- viii. **Perfformiad** – byddai'r gwasanaeth atgyweirio yn anelu at gyrraedd lefelau perfformiad ymysg y 10% uchaf o ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru a'r 25% uchaf o ran darparwyr tai cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig gyfan i landlordiaid sydd â llai na 5,000 o unedau dan eu rheolaeth;
- ix. **Defnyddiau** – teimlai'r tîm bod angen i system gyflenwi defnyddiau o ffynonellau cost-effeithiol, modern ac effeithlon fod mewn lle. Byddai gwasanaeth cyflenwadau wedi ei gyflenwi'n effeithlon, gan gynnwys adnewyddu stoc yn awtomataidd mewn faniau, yn galluogi gweithwyr i leihau lefelau o ail ymweliadau i gwsmeriaid ac amser anghynhyrchiol.

5.2 Yn gyffredinol, teimlai'r tîm bod angen ymdrin â'r gwasanaeth a'i drawsffurfiad mewn ffordd fwy strategol yn y dyfodol ac na fyddai rhagoriaeth yn digwydd drwy ddamwain. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y tîm yn mabwysiadu model y Gwasanaeth Rhagoriaeth a amlinellir yn **Atodiad H**. Mae angen i'r daith at ragoriaeth yn y dyfodol felly gael ei rheoli yn fwy gweithredol, a dylid herio targedau perfformiad, gyda diwylliant perfformiad cryf yn

rhan annatod o'r gwasanaeth. Teimlwyd ei bod yn hanfodol bod yr holl staff yn deall y llwybr clir at ragoriaeth.

## 6. Opsiynau Strategol Ehangach ar gyfer y Dyfodol

6.1 Wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes hwn, ystyriodd y Gwasanaeth Atgyweirio ystod o opsiynau strategol ehangach a ellir eu defnyddio gan y gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd ymgymryd â busnes newydd yn canolbwyntio ar geisio twf, arloesedd a chyfle. Prif ddiben ymgymryd â busnes newydd fydd creu arian/adnoddau dros ben o'r gweithgareddau hyn er mwyn eu hail-fuddsoddi yn ôl i wasanaethau craidd Tai Môn, neu i gefnogi eu hamcanion cymdeithasol ehangach.

Y bwriad yw y bydd ymchwil i gyfleoedd a marchnadoedd busnes newydd, y risgiau yn cael eu hasesu yn llawn ac achos busnes llawn yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob cyfle i'w ystyried gan y Pennaeth Tai. Bydd dull rheolaeth prosiect yn cael ei fabwysiadu ar gyfer pob cyfle a bydd yn ymwneud ag aelodau allweddol o'r timau ar draws Môn a fydd yn cael eu heffeithio gan y busnes newydd.

Caiff cyfleoedd newydd eu treialu lle bo'n bosibl ac os yn llwyddiannus, bydd y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn a'u gwneud yn rhan annatod o'r gwasanaeth. Bydd strategaethau gadael hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer pob cyfle. Y bwriad yw y bydd pob busnes newydd yn cael ei sefydlu mewn ffordd a fydd yn caniatáu am adrodd cyllidol tryloyw o ran incwm a gwariant, er mwyn arddangos ei ddichonoldeb parhaus i'r Cyngor.

6.2 Dewiswyd nifer o opsiynau i'w cynnwys o fewn y cyfnod Cynllun Busnes tair blynedd gyfredol fel a ganlyn, a chânt eu hystyried ymhellach o fewn yr Amcan Cyfleoedd o fewn **Atodiad C**:

- Darparu gwasanaethau atgyweirio ar gyfer adrannau eraill o'r Cyngor;
- Gwneud gwaith sydd ar hyn o bryd yn cael ei is-gontractio yn fewnol (ond dim ond lle y gall achos busnes arddangos angen parhaol am y gwaith a bod y gwell Gwerth am Arian ohono yn cael ei berfformio yn fewnol);
- Darparu gwasanaeth atgyweirio i unedau RTB. Mae hyn yn adnabod bod yr unedau yma o fewn ardaloedd rheolaeth cyfredol stoc Môn a gallai hyn ddarparu cam cyntaf hawdd wrth gynnig gwasanaethau i eraill i ddiben cynhyrchu arian/adnoddau dros ben ar gyfer buddsoddiad mewnol;
- Gwneud gwaith yn yr amgylchedd lle mae'r stoc wedi'i leoli ac nid dim ond i'r eiddo ei hunan;
- Bydd y gwasanaeth yn edrych yn rhagweithiol am gyfleoedd cydweithredu a phartneriaeth gyda darparwyr tai cymdeithasol a chydag asiantaethau eraill yn gweithio o fewn Môn.

6.3 Y bwriad yw bod y cyfleoedd busnes cychwynnol yn defnyddio sylfaen sgiliau cyfredol y Gwasanaeth Atgyweirio a byddant yn adeiladu ar ei gryfderau busnes craidd. Y nod yw adeiladu hyder a chymhwysedd y tîm wrth gyflwyno gwaith o fath ehangach, mwy masnachol ac wrth wneud hynny, ddatblygu sgiliau craffter busnes ac ehangu i ardaloedd eraill mwy cymhleth, ac o bosib o risg uwch. Mae'n debygol y

bydd y cyfleoedd yma yn cael eu hystyried ym mlwyddyn 3 o'r cynllun busnes, unwaith bod y tîm wedi adeiladu'r gwasanaeth craidd i gyrraedd lefelau rhagorol.

## 7. Cyfranogiad cwsmeriaid yn y dyfodol

- 7.1 Nodwedd amlwg o sefydliadau rhagorol yw eu lefel uchel o gyfranogiad cwsmeriaid. Yn benodol, maent yn medru arddangos sut mae eu cwsmeriaid wedi dylanwadu ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn ac maent yn glir am gyfranogiad cwsmeriaid a sut mae hyn yn ychwanegu gwerth at y busnes.
- 7.2 Ar hyn o bryd teimlir bod cyfranogiad cwsmeriaid yn cynnwys nifer cymharol fychan o gwsmeriaid. Tra bod y gwasanaeth yn derbyn bod heriau wrth geisio cael mwy o gwsmeriaid i gyfranogi, mae teimlad wrth gynnig ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogi, sy'n adlewyrchu lefelau amrywiol o ymrwymiad gan y cwsmeriaid, y gall hyn gynyddu lefel derbyn barn cwsmeriaid ac felly gyflwyno gwasanaethau sy'n adlewyrchu'n agosach eu hanghenion.
- 7.3 Mae'r Cynllun Busnes yma yn adnabod bod angen sicrhau craffu effeithiol ar denantiaid hefyd a dylai hyn gynnwys ystod o fesurau megis: siopa dirgel, cysgodi, gwirio data, mynychu cyfarfodydd, cynnal arolygon, gwneud archwiliadau neu gyfweld staff.
- 7.4 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn bwriadu sicrhau (trwy weithio gyda thimau Tai Môn eraill) bod y canlynol mewn lle a bod yr holl gwsmeriaid yn medru chwarae rôl weithredol mewn sicrhau bod rhagoriaeth yn cael ei gyflawni dros gyfnod y cynllun:
- i. Y caffaelir 100% o'r wybodaeth proffil cwsmer.
  - ii. Cronfa ddata cyfranogiad Cwsmer sy'n cofnodi gwahanol lefelau o gyfranogiad tenant yn amrywio o grwpiau ffocws sy'n cyfranogi'n llawn i gwblhau holiaduron arlein yn unig ayyb.
  - iii. Bod cwsmeriaid yn derbyn data meincnodi yn ogystal â data perfformiad, er mwyn i gwsmeriaid fedru rhoi perfformiad Môn yn ei gyd-destun cywir a medru barnu drostynt eu hunain a yw'r gwasanaeth yn cyrraedd lefelau rhagorol (chwartel uwch).
  - iv. Bod cyfranogiad cwsmeriaid yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a bod y gwasanaeth yn cysylltu ag unrhyw grwpiau anodd eu cyrraedd trwy fodd sy'n addas iddynt hwy.
  - v. Ei fod wedi darparu mwy o adborth i gwsmeriaid, yn enwedig o amgylch 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'.
  - vi. Ei fod yn dysgu oddi wrth ganmoliaeth a chwynion cwsmeriaid a bod hyn yn arwain ein gwasanaeth yn y dyfodol.
  - vii. Bod ganddo fwy o siopa dirgel/gwiriadau realiti gan gwsmeriaid.
  - viii. Bod y safon ail-osod yn cael ei adolygu gan grwpiau cwsmeriaid.
  - ix. Ei fod yn cynnal arolygon cwsmeriaid gyda mwy o ffocws yn ystod y flwyddyn ar bynciau penodol a bod unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau yn cael eu dilyn gan arolygon cwsmeriaid i gipio profiadau cwsmeriaid.



- x. Ei fod yn sicrhau bod cyfranogiad cwsmeriaid mewn lle wrth ddylunio rhaglenni peilot ar gyfer busnes newydd, neu newidiadau i fusnes cyfredol.

## 8 Y modd yr ymdrinnir â Gwerth am Arian a Chaffael

- 8.1 Mae'r Cynllun Busnes hwn wedi cymryd i ystyriaeth adroddiad diweddar HouseMark ym Mawrth 2014 ar 'Ddiffinio Gwerth am Arian mewn Tai Cyngor'. Dywedant 'Mae newidiadau radical yn amgylchedd cyllidol a gweithredol tai cyngor, ynghyd â phwysau i ailfeddwl beth yw ei rôl a'i bwrpas, mae natur gwerth wedi newid sy'n gofyn am olwg newydd ar ystyr Gwerth am Arian. Mae amodau newydd yn creu angen am ailymweld â chwestiynau megis ar gyfer pwy y dylai tai cyngor fod, a pha fuddion y gallant ac y dylent eu darparu ... ac mae Cynghorau'n awr angen cymryd golwg tymor hirach a rôl llawer mwy gweithredol o ran rheoli eu hasedau tai. Fel chwaraewyr pwysig yn 'nheulu' y cyngor – yn gyfrifol am reoli cyfran sylweddol o asedau, dyledion, incwm a gwariant, a chyda cyfran sylweddol o weithlu'r cyngor, sylfaen sgiliau a chaffael – mae Adrannau Tai yn gyfrannwyr pwysig i amcanion corfforaethol y cyngor. Hanner y frwydr gyda Gwerth am Arian yw sicrhau bod adnoddau terfynedig yn cael eu gwario yn effeithiol ar y pethau cywir a fydd yn cyflawni'r amcanion a ddymuna'r sefydliad – bod cynllunio busnes yn gadarn. Mae hanner arall y frwydr – economi ac effeithlonrwydd, neu wneud pethau'n iawn - yn cynhyrchu ychydig iawn o werth os yw'n cael ei dargedu ar y pethau anghywir. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig y bydd rheoli asedau'n gadarn i sicrhau llwyddiant – efallai mai am bobl a lles y mae busnes ond fe'i hadeiladir ar asedau.'
- 8.2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â'r holl ddarparwyr gwasanaeth atgyweirio tai cymdeithasol eraill, yn wynebu'r her o gynnal a chadw eiddo i safon gyson uchel, gyda gwasanaeth o safon uchel, o fewn cyd-destun rheoli costau a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Mae'n hanfodol felly bod ganddo dechnoleg gadarn, ddibynadwy a hyblyg i gefnogi'r busnes a'i ddarpariaeth gwasanaeth. I gael gwerth da am arian, mae'r gwasanaeth yn deall ei fod angen datblygu ffordd gynyddol integreiddiedig o ymdrin â chyflawni'r gwasanaeth a dealltwriaeth well o ofynion cwsmer.
- 8.3 Credir bod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael ei yrru'n ormodol gan broses a bod angen llinio'r gwasanaeth, cael gwared ag unrhyw weithgaredd nad yw'n ychwanegu gwerth ac wedyn rheoli, gwella a llyfnhau'r gwaith sydd ar ôl i sicrhau ei fod yn llifo'n well ar draws y gwasanaeth i'r cwsmer.
- 8.4 Beirniadwyd y ffordd gyfredol o ymdrin â chaffael o fewn y Gwasanaeth Atgyweirio o fewn adroddiad Awdit Mewnol o'r Cyngor yn ddiweddar ac felly, o fewn tymor y Cynllun Busnes hwn, bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod holl ardaloedd gweithgaredd caffael yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiad gyda rheolau caffael y Cyngor. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn ei adolygiadau gyda'r lefelau uchaf o wariant i ddechrau, eu herio am Werth am Arian a chydymffurfiad caffael ac wedyn gweithredu datrysiadau am Werth am Arian cynyddol wrth gadw at reolau'r

Cyngor. Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth yn defnyddio arbenigwyr caffael arbenigol lle nad yw'r arbenigedd angenrheidiol yn bodoli yn fewnol.

- 8.5 Mae'r Cynllun Busnes hwn yn adnabod bod y Gwasanaeth Atgyweirio angen dod â mwy o ffocws busnes i'w wasanaeth. Wrth wneud hyn, bydd yn archwilio a yw allbynnau uwch yn medru cael eu cyflwyno o'r adnoddau cyllidol cyfredol a fuddsoddiwyd yn y gwasanaeth ac, yn ddelfrydol, bod allbynnau cynyddol yn cael eu cyflwyno ar gyfer lefelau is o adnoddau, gan ganiatau i unrhyw adnoddau sydd wedi eu rhyddhau gael eu buddsoddi mewn mannau eraill i gyflawni amcanion ehangach.
- 8.6 Yn awr, wedi datblygu gweledigaeth glir am ddyfodol y Gwasanaeth Atgyweirio, bydd y tîm yn medru herio'n sylfaenol y ffyrdd y mae'n cyflwyno ei wasanaeth ac adnabod cyfleoedd i sicrhau gwell Gwerth am Arian. Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn deall, gyda bygythiad parhaus o bolisiau Diwygiadau Lles, ei fod yn gweithredu o fewn amgylchedd cyllidol heriol lle y gallai cyllidebau atgyweirio yn y dyfodol gael eu lleihau ac felly mae'n rhaid iddo gael ffordd gadarn o ymdrin â chwilio am a chyflawni Gwerth am Arian ym mhob peth a wna. Er mwyn sicrhau bod Gwerth am Arian yn cael ei gyflwyno bydd hefyd ymrwymiad cynyddol i gyfranogiad tenantiaid, tryloywder a chraffu.
- 8.7 Mae Gwasanaeth Atgyweirio Môn yn deall bod cynnig Gwerth am Arian yn gofyn am gymryd golwg tri dimensiwn ar y gyfundrefn fel a ganlyn, ac mae'r gwasanaeth wedi meincnodi'r gwasanaeth atgyweirio cyfredol yn erbyn cymheiriaid yn yr ardaloedd penodol hyn ac mae'r canlyniadau o fewn **Atodiad B**:

➤	<b>Cost</b> y Gwasanaeth
➤	<b>Ansawdd</b> y gwasanaeth a pherfformiad
➤	<b>Bodddhad, Allbynnau a Chanlyniadau</b> (yn enwedig i gwsmeriaid)

- 8.8 Er mwyn adnabod pa mor bwysig yw Gwerth am Arian, mae'r gwasanaeth wedi cytuno amcan allweddol ar wahân, penodol ar gyfer Gwerth am Arian, sef '**darparu gwerth da am arian ym mhob peth a wnawn**'. I gyflawni hyn rhaid i'r gwasanaeth ymdrechu i:
- gyflwyno'r atgyweirio cywir,
  - i'r cwsmer cywir,
  - ar yr amser cywir,
  - i'r safon gywir,
  - ar y gost gywir (fforddiadwy), a
  - chyflwyno atgyweiriadau yn gyson gywir bob tro trwy gyflawniad gweithredol effeithlon ac effeithiol.
- 8.9 Wrth ddatblygu'r cynllun busnes hwn, gwnaed ymchwil i sut roedd landlordiaid tai eraill oedd yn perfformio'n dda yn cyflawni Gwerth am Arian ym maes atgyweirio. O'r ymchwil hwn roedd hi'n glir bod ystod o welliannau ac effeithlonedd gwasanaeth yn bosibl o fewn Môn. Adnabuwyd y cyfleoedd canlynol a'u hymgorffori yn y cynllun busnes fel a ganlyn:



Cyfle Gwerth am Arian	Sut yr Ymdrinir â hyn yn y Cynllun Busnes
i. Ffordd llwyr integreiddiedig (o'i gymharu ag un ddarniog) o ymdrin â chyflwyno'r gwasanaeth.	Bydd uno swyddogaethau'r cleient a'r contractwr a hefyd yr adolygiad llety yn sicrhau dull mwy integreiddiedig o ymdrin â gweddill y Tîm Tai.
ii. Gwasanaeth a gynllunir o amgylch y cwsmer yn hytrach na'r Landlord.	Cyflwyno dull Syniadaeth Ddarbodus/Systemau a mwy o gyfranogiad gan y cwsmeriaid wrth ddylunio'r gwasanaeth a chraffu.
iii. Safonau gwasanaeth clir a heriol, wedi eu gosod gan gwsmeriaid	Meincnodi'r safonau gwasanaeth gydag eraill ac ymgynghori â chwsmeriaid cyn gweithredu newidiadau.
Cyfle Gwerth am Arian	Sut yr Ymdrinir â hyn yn y Cynllun Busnes
iv. Defnyddio'r wybodaeth o sylfaen cwsmer Môn i deilwra gwasanaethau ar gyfer anghenion ac agwedd at gyflwyno'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a fydd yn gwella profiad y cwsmer o'r adrodd am atgyweirio hyd at y cwblhau.	Cynyddu'r lefel o gyfranogiad cwsmer yn y gwasanaeth ynghyd â phroffilio cwsmer i ddeall anghenion y gwahanol grwpiau cwsmer. Bydd agwedd unedig y tîm yn sicrhau bod ceisiadau cwsmeriaid yn llifo'n rhwydd o un pen i'r llall o'r gwasanaeth.
v. Lefelau uchel o foddhad cwsmer a chyfleoedd am adrodd am eu profiadau er mwyn i'r gwasanaeth fedru diwallu eu hanghenion yn well yn y dyfodol.	Gosod targedau perfformio heriol ar gyfer boddhad cwsmer. Cynyddu'r nifer o gyfleoedd i gwsmeriaid roi adborth am eu profiad i'r gwasanaeth a diwylliant dysgu yn cael ei gyflwyno a fydd yn cael ei ddefnyddio i wella'r profiad yn y dyfodol.
vi. Gweithlu hyblyg, aml-sgil wedi'u grymuso (ar ôl gweithredu'r aml-sgilio) a chostau llafur cost-ffeithiol.	Gweithio aml-sgil wedi ei gyflwyno a chostau llafur wedi eu cymharu gyda darparwyr eraill.
vii. Cynhyrchedd uwch o ran nifer o swyddi a gwblhawyd a'r amser cyfangwbl a gymerwyd i'w cwblhau.	Gweithio aml-sgil wedi ei gyflwyno, apwyntiadau cwsmer, cyflenwi cyflenwadau yn effeithlon a gweithio symudol oll wedi eu cyflenwi o fewn diwylliant perfformiad tîm.
viii. Lefelau uwch o atgyweirio cywir y tro cyntaf ar gyfer cwsmeriaid.	Gweithio aml-sgil a dysgu o fethiannau.
ix. Defnyddiau wedi'u prisio'n gystadleuol a'u darparu yn effeithlon.	Adolygiad Gwerth am Arian o'r cyflenwadau a gweithredu'r argymhelliad.
x. Cyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng cost ac ansawdd.	Perfformiad yn cael ei berfformio yn defnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys i sicrhau nad yw'r dymuniad am leihau cost ar draul ansawdd.

xi. Systemau cyllidol cadarn a thryloyw wedi'u cyfuno â chraffter busnes cynyddol rheolwyr allweddol.	Cyflwyno cyllidebau cyllidol cadarn newydd, ynghyd â'r rhagdybiaethau allweddol a gytunwyd gan reolwyr. Cyfrifon rheoli misol mewn cyfarfodydd tîm i fonitro perfformiad cyllidol a gweithredu i gywiro pan fo angen.
xii. Byddai meincnodi rheolaidd yn erbyn grwpiau o gymheiriaid mewn lle ac yn cael eu defnyddio i godi perfformiad a gyrru costau i lawr i gydweddu lefelau'r perfformwyr gorau.	Meincnodi blynyddol trwy wasanaeth HouseMark gyda landlordiaid o Gymru a'r DU i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gymharu â'r perfformwyr gorau ac yn medru dysgu oddi wrthynt.
<b>Cyfle Gwerth am Arian</b>	<b>Sut yr Ymdrinir â hyn yn y Cynllun Busnes</b>
xiii. Agwedd mwy bwriadol a llai adweithiol i gynnal a chadw sy'n ystyried gwybodaeth am gyflwr stoc cyfredol a ffactorau cynaliadwyedd stoc eraill a hefyd mwy o raglenni gwasanaethu a chylchol i sicrhau agwedd atal yn hytrach na thrwsio. Bydd meddwl yn yr un ffordd yn norm fel y bydd agwedd holistig at reoli asedau o fewn strategaeth rheoli asedau cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth.	Bydd arolygon cyflwr stoc yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u rhannu â'r Tîm Atgyweirio. Bydd gwariant buddsoddiad mewn tai yn cymryd i ystyriaeth 'cost bywyd cyfan' y buddsoddiad gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau atgyweirio. Bydd y timau rheoli asedau ac atgyweirio yn cael eu rheoli gan un rheolwr er mwyn sicrhau bod pawb yn meddwl yn yr un ffordd.
xiv. Amser byrrach i ganiatau ail-osod eiddo gwag, felly colli llai o rent.	Deall y rhesymau am amser hirach nag sy'n dderbyniol i gadw eiddo'n wag, dysgu oddi wrth ddarparwyr eraill, gwell cyfathrebu gyda'r tîm gosod eiddo a mabwysiadu egwyddorion Syniadaeth Ddarbodus /Systemau.
xv. Defnydd effeithiol o is-gontractwyr yn seiliedig ar anghenion busnes am waith arbenigol ac ymdrin â phegynnau yn y llwyth gwaith, pob adnodd arall ar gyfer rhedeg y busnes i gael ei ddarparu yn uniongyrchol o fewn y gwasanaeth atgyweirio.	Y defnydd o is-gontractwyr i gael ei herio a dod â'r gwaith yn ôl i'r adran lle y gellir profi enillion Gwerth am Arian. Bydd is-gontractwyr sydd ar ôl yn atebol i reolau dyfynbris a thendro'r Cyngor a gwiriadau rheolaidd i sicrhau mai'r pris cyfredol a gynigir yw'r pris gorau sydd ar gael.
xvi. Y gwasanaeth yn medru arddangos ei fod yn barhaus yn cyflenwi mwy o ran canlyniadau am yr un adnodd neu hyd yn oed am lai (un o'r gofynion gan y Pennaeth Tai yw bod y gwasanaeth yn arbed £250k y flwyddyn erbyn 2017/18).	Arbedion o leiafswm o £250k y flwyddyn yn cael eu cyflawni.

xvii. Prosesau busnes darbodus effeithlon a gwasanaethau cefnogol 'swyddfa gefn' sy'n llwyr alluogi cyflawni gwasanaeth cyffredinol rhagorol.	Bydd yr holl brosesau allweddol yn cael eu herio a'u symleiddio/llilinio lle bo hynny'n bosibl. Cael gwared â gweithgareddau nad ydynt yn ychwanegu gwerth neu gael rhai yn eu lle.
xviii. Diwylliant perfformiad wedi'i ymgorffori o fewn y gwasanaeth gydag agwedd gynhwysfawr a chydlynol at reolaeth Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n cynnwys cerdyn sgorio cytbwys o fesurau cost, ansawdd, cynhyrchedd a boddhad cwsmer. Targedau cam-wrth-gam mewn lle i herio'r gwasanaeth yn barhaus i gyflawni mwy.	Cyflwyno targedau perfformiad gam-wrth-gam, bydd cerdyn sgorio cytbwys mewn lle, gweithdrefnau rheolaeth contractau cadarn yn cael eu gweithredu i sicrhau bod data yn gyfredol ac yn gywir. Ymgymryd yn syth ag adolygu perfformiad yn wythnosol. Y gweithlu yn cael eu hysbysu am eu perfformiad.
<b>Cyfle Gwerth am Arian</b>	<b>Sut yr Ymdrinir â hyn yn y Cynllun Busnes</b>
xix. Profi rheolaidd yn erbyn yr hyn sy'n bosib ei gyflenwi o'r farchnad ehangach i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydfynd ag ac yn cystadlu â'r hyn sy'n cael ei gyflenwi gan ddarparwyr eraill. Chwilio am a gweithredu arfer gorau.	Cynhaliwyd arfarniad opsiynau eisoes yn 2014 ynglŷn â'r hyn sydd ar gael yn y farchnad ehangach. Cyflwynwyd cynllun trawsffurfio i gydfynd â'r safonau a gyflenwyd gan gontractwr allanol. Mwy o fynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi perthnasol i sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn parhau yn 'ynysig'.
xx. Technoleg gyfredol, gadarn, ddibynadwy a hyblyg i gefnogi'r busnes a'i ddarpariaeth gwasanaeth.	Bydd prosiect moderneiddio TG yn cael ei gwblhau yn ystod tymor y cynllun busnes hwn.
xxi. Trefniadau gweithio mwy effeithiol gyda gweddill y Gwasanaeth Tai o fewn 'agwedd tîm at dai' cyffredinol.	Gweledigaeth o'r cynllun busnes hwn yn plethu i weledigaeth ehangach ar gyfer Gwasanaethau Tai. Bydd cael gwared â'r rhaniad cleient/contractwr yn cael gwared ag arwahanrwydd y gwasanaeth atgyweirio a bydd yr adolygiad llety yn dod â thimau yn agosach at ei gilydd.

8.10 Mae'r cynllun busnes wedi adnabod ystod o fetrigau a fydd yn cael eu defnyddio i fesur Gwerth am Arian a chaiff y rhain eu cynnwys yn **Atodiad F**.

## 9 Rhagamcanion Ariannol

- 9.1 Bydd Cyngor Sir Ynys Môn angen sicrwydd trwy gydol tymor y cynllun busnes bod y Gwasanaeth Atgyweirio yn aros yn wasanaeth dichonadwy yn gyllidol.
- 9.2 Datblygwyd cynllun cyllidol tair blynedd ar gyfer y gwasanaeth a geir yn **Atodiad I**. (Er gwybodaeth, y golofn blwyddyn 2014/2015 yw'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol.)
- 9.3 Mae'r cynllun cyllidol yn dangos model sylfaen sydd yn y safle cyfredol 'fel y mae', gyda'r holl gostau sydd ar ôl yn aros fel y maent ar hyn o bryd, gyda dim ond cynnydd ar gyfer chwyddiant yn cael ei ddarparu. Mae hyn yn dangos bod disgwyl i'r gwasanaeth gynhyrchu arian/adnoddau dros ben iach, os yw pob rhagdybiaeth gyfredol yn parhau'n wir. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae ystod o bwysau posibl ar y cyfrif masnachu, nid y lleiaf o'r rhain yw'r polisïau Diwygio Lles a fydd angen rheolaeth gyllidol glos i sicrhau bod y rhagamcanion cyllidol hyn yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd.
- 9.4 I brofi grymuster y cynllun, mae tri sensitifrwydd wedi eu darparu hefyd yn **Atodiad 11** i asesu sensitifrwydd y cynllun i newidiadau mewn rhagdybiaethau incwm:
1. 10% llai o incwm ar y cyfrif masnachu cyfredol.
  2. 20% llai o incwm ar y cyfrif masnachu cyfredol.
  3. 5% mwy o incwm ar y cyfrif masnachu cyfredol.
- Fel y nodwyd uchod, dim ond y cyfrif masnachu cyfredol fel y mae ar gyfer 2014/2015 sydd wedi cael sensitifrwyddau wedi eu rhedeg yn ei erbyn. Mae canlyniadau'r sensitifrwyddau hyn wedi eu crynhoi yn y tabl isod.

### Arian neu Adnoddau Dros Ben/(Diffyg) Blynyddol fesul blwyddyn o ganlyniad i redeg sensitifrwyddau

	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000
<b>Model Sylfaen</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Incwm – 10%</b>	<b>-157</b>	<b>-160</b>	<b>-163</b>
<b>Incwm – 20%</b>	<b>-315</b>	<b>-321</b>	<b>-327</b>
<b>Incwm + 5%</b>	<b>79</b>	<b>80</b>	<b>81</b>

- 9.5 Fel y dangoswyd uchod, mae'r canlyniadau cyllidol yn agored i ddirywiad petai incwm yn disgyn a chostau sefydlog (sydd ar hyn o bryd yn bopeth heblaw am ddefnyddiau ac is-gontractwyr) yn parhau ar eu lefelau cyfredol. Bydd lleihad sylweddol mewn incwm felly yn gofyn am naill ai i'r gyfundrefn leihau ei chostau sefydlog, neu ddod â gwaith ychwanegol i mewn i'r cyfrif masnachu er mwyn gwrthbwysu'r lleihad hwn.

Nid yw'r cynllun cyllidol ar hyn o bryd wedi rhagdybio unrhyw gyfleoedd twf busnes a byddai'r rhain yn cael eu hymgorffori yn unig wedi cymeradwyaeth gan y Cyngor.

- 9.6 Oherwydd y pwysau cyllidol posibl ar y gwasanaeth a'i sensitifrwydd i ddirywiad, mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn ddiweddar wedi cryfhau ei drefniadau rheoli cyllid ac wedi mabwysiadu ar gyfer 2014/2015 fformat adrodd yn ôl newydd ar gyfer ei gyfrif masnachu, a fydd yn sicrhau adrodd mwy cyson, tryloyw a llawn gwybodaeth. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i'r gweithdrefnau a'r prosesau sydd eu hangen gan y Tîm Atgyweirio a'r Tîm Cyllid i gynhyrchu Cyfrif Masnachu misol ac adroddiadau naratif cysylltiedig mewn ffordd amserol ac effeithlon.

## 10 Targedau Perfformiad

- 10.1 Mae targedau perfformiad gam-wrth-gam blynyddol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes wedi eu datblygu yn seiliedig ar y canlynol:
- Bydd perfformiad yn cael ei yrru i fyny i'r 10% perfformiad gorau yng Nghymru dros dymor y cynllun busnes;
  - Lle bo perfformiad eisoes yn y 10% perfformiad uchaf yng Nghymru, bydd yn cael ei yrru i fyny i'r chwarterel uwch o ran perfformiad yn y DU (ar gyfer perchnogion sydd â llai na 5,000 uned i'w rheoli);
  - Lle bo perfformiad cyfredol yn barod yn lefelau chwarterel uchaf y DU, yna ein nod yw cynnal y lefel hwn o berfformiad trwy gydol y cynllun.
- 10.2 Mae'r targedau perfformiad cam-wrth-gam yn gynwysedig o fewn Atodiad D ac mae'r ddwy golofn dde o fewn y tabl hwn, yn y lliw llwyd, yn cynnwys y wybodaeth meincnodi ar gyfer Cymru a'r DU.

# 11 Dadansoddiad Risg

11.1 Mae nifer o risgiau wedi eu hadnabod gan y Cynllun Busnes hwn ac mae'r rhain wedi eu gosod o fewn yr adrannau isod:

11.2 **Risgiau rheoleiddio a threfn lywodraethol:**

- Gallai methiant i gyflawni'r cynllun busnes arwain at adroddiad beirniadol pellach gan Swyddfa Awdit Cymru;
- Gallai methiant i gyflawni'r cynlluniau caffael arwain at adroddiad beirniadol pellach gan Archwilwyr Mewnol y Cyngor;
- Gallai methiant i gyflawni gwelliannau i'r gwasanaeth arwain at ymyrraeth gan LICC.

11.3 **Risgiau cyllidol:**

- Gallai methiant i reoli'n gywir yr adnoddau cyllidol sydd ar gael yn y gwasanaeth arwain at anallu i ddangos dichonoldeb parhaus y gwasanaeth mewnol i'r Cyngor;
- Gallai methiant i gyflawni'r lefel o arbedion cyllidol a adnabuwyd o fewn y cynllun hwn atal y gwasanaeth mewnol rhag medru arddangos pa mor gost-effeithiol ydyw o'i gymharu ag opsiynau cyflenwi eraill;
- Risg i gyllidebau craidd cyfleoedd busnes newydd yn methu cyflawni arian/adnoddau dros ben;
- Effaith anffafriol posibl ar gyllidebau atgyweirio craidd o ganlyniad i Ddiwygiadau Lles, yn arwain at i'r elfennau allweddol yn y Cynllun Busnes hwn fod yn anghyraeddadwy oherwydd adnoddau annigonol a'r cynllun cyllidol yn methu arddangos ei ddichonoldeb.

11.4 **Risgiau gweithredu:**

- Gallu'r rheolwyr i reoli'r busnes cyfredol, tra ar yr un pryd eu bod yn moderneiddio'r gwasanaeth a'i yrru at ragoriaeth;
- Bydd methiant i foderneiddio'r gwasanaeth ac felly beidio rhyddhau gallu'r staff yn arwain at anallu i gyflawni'r graddfeydd amser a osodir yn y Cynllun Gweithredu Strategol;
- Methiant y rheolwyr i gludo'r staff gyda nhw ar y daith o newid;
- Gallai troi sylw at y rhaglen newid trawsffurfiol arwain at ddirywiad y perfformiad busnes craidd cyfredol;
- Methiant i gyflawni'r targedau perfformiad gam-wrth-gam o fewn y cynllun busnes yn arwain at ddiffyg hyder yn y gwasanaeth mewnol ac ystyried opsiynau eraill, gan gynnwys darganfod ffynonellau allanol;
- Y risg cyffredinol o beidio cyflawni'r cynllun trawsnewidiol ac felly'r buddion busnes ddim yn cael eu gwireddu.

11.5 **Risgiau i Enw Da:**

- Y risg i enw da Môn os yw'r rhaglen newid trawsffurfiol yn methu.

11.6 O ystyried y risgiau a amlinellir uchod bydd yn angenrheidiol i liniaru'r risgiau hyn cyn belled ag sy'n bosibl a chaiff hyn ei gyflawni trwy oruchwyllo a rheoli gweithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol cynhwysfawr o fewn **Atodiad C**.

## 12 Gweithredu'r Cynllun Busnes – y camau nesaf a'r cerrig milltir allweddol

- 12.1 Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn adnabod bod sefydliadau rhagorol yn rheoli eu taith at ragoriaeth yn rhagorol. I gyflawni hyn, mae'r gwasanaeth wedi gosod targedau perfformiad cam-wrth-gam heriol ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Busnes hwn a fydd yn sicrhau bod yna ffocws clir ar ddisgwyliadau perfformiad a bod diwylliant perfformiad cryf yn cael ei sefydlu. Bydd hyn yn sicrhau bod y llwybr at ragoriaeth yn ddealladwy i bob aelod o staff.
- 12.2 Unwaith i'r cynllun busnes gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, bydd y Gwasanaeth Atgyweirio yn datblygu cynllun gweithredol a fydd yn pennu gweithredoedd strategol i unigolion allweddol, gan sicrhau perchnogaeth.
- 12.3 Os caiff ei gytuno, bydd y cynllun newydd yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2014 trwy gyfres o gyfarfodydd briffio tîm gyda'r staff swyddfa, sgwrs benodol am offer gyda'r gweithwyr a nodyn briffio arbennig gan y Pennaeth Tai i'r holl staff. Bydd trafodaethau hefyd yn digwydd gyda'r cynrychiolydd undeb lleol. Bydd yr holl staff yn glir am y cyfeiriad newydd ar gyfer y gwasanaeth, y disgwyliadau a beth fydd eu cyfraniad hwy wrth geisio cyflawni ei uchelgeisiau.
- 12.4 Y bwriad yw cynnwys erthyglau am y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth i'r dyfodol o fewn cylchlythyrau cwsmer ac ar y wefan. Mae'n fwriad hefyd i berfformio cyflwyniad o'r Cynllun Busnes i'r Fforwm Cwsmeriaid.
- 12.5 Bydd y Gwasanaeth Atgyweirio yn sicrhau cyfathrebu'r cynllun busnes newydd i dimau ehangach Cyngor Môn, ac yn benodol lle bo angen cymorth i gynorthwyo'r gwasanaeth i gyflawni rhagoriaeth. Caiff crynodeb o'r cymorth disgwyliedig sydd ei angen gan y timau ehangach yn **Atodiad J**.
- 12.6 Bydd y tîm yn cyfathrebu canlyniadau perfformiad gwirioneddol yn erbyn targedau yn rheolaidd i'r cwsmeriaid a bydd yn rhoi'r rhain yng nghyd-destun meincnodi gwybodaeth gyda chymheiriaid, er mwyn galluogi cwsmeriaid i farnu go iawn a ydym yn perfformio'n rhagorol.
- 12.7 Caiff adroddiadau perfformiad misol eu cyflwyno – bydd y rhain yn sefydlu a yw'r gwasanaeth ar y llwybr i gyflawni targedau blynyddool, neu a oes angen gweithredu i gywiro.
- 12.8 Caiff adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn y cerrig milltir targed cytûn ei gyflwyno i'r grwpiau cwsmeriaid.
- 12.9 Bydd gan gyfarfodydd tîm rheoli misol agenda cytûn, canlyniadau cyfrif masnachu, Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI), monitro perfformiad yn erbyn y cynllun ac ati. Bydd y prif benawdau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r tîm cyfan.

- 12.10 Ar gyfer canlyniadau meincnodi, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu i ddangos gwelliant mewn dangosyddion allweddol a'r safleoedd graddio sy'n berthnasol o ran cymheiriaid.
- 12.11 Adroddir am adolygiad o gynnydd blynyddol yn erbyn y Cynllun Gweithredu Strategol i'r Cyngor.
- 12.12 Mesurir deilliannau o'r datganiadau amcanion allweddol i ddangos pa mor dda y mae Môn yn eu cyflawni.
- 12.13 Bydd gweithio prosiect a seiliedig-ar-dîm o fewn y tîm yn dod yn norm a defnyddir hyn i ddatblygu a gweithredu datrysiadau i broblemau sy'n gynwysedig yn y cynllun busnes. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod teimlad o berchnogaeth ar draws y tîm.
- 12.14 Darperir Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y Cynllun Busnes isod:

<b>Cerrig Milltir Allweddol i'w cyflawni</b>	<b>Dyddiad</b>
Cymeradwyo'r Achos Busnes a'r Cynllun Busnes ar gyfer cadw'r gwasanaeth yn fewnol	Mai 2014
<b>Dechrau Cam Un o'r prosiect newid Trawsffurfiol</b>	Mehedin 2014
Apwyntio Rheolwr Trawsffurfiol	Mehedin 2014
Dechrau prosiect AD ar gyfer y tîm newydd ei gyfuno ac aml-sgilio gweithwyr	Mehedin 2014
Gweithdrefnau rheoli cytundeb/cynnal a chadw mewn grym	Mehedin 2014
Cychwyn adolygiad Gwerth am Arian	Gorffennaf 2014
Cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad mewn lle	Medi 2014
Dechrau adolygiad o is-gontractwyr am Werth am Arian a chydymffurfio â chaffael	Medi 2014
Adolygiad faniau ac offer y gweithredwyr	Medi 2014
Adolygiad llety	Hydref 2014
Dechrau gweithredu argymhellion o'r adolygiad cyflenwadau	Hydref 2014
Adolygu gofynion busnes ar gyfer masnachau gweithredol	Hydref 2014
Cwblhau prosiect AD ar gyfer y tîm newydd ei gyfuno ac aml-sgilio.	Tachwedd 2014
<b>Dechrau Cam Dau y prosiect newid Trawsffurfiol</b>	Rhagfyr 2014
Arbenigwyr Rheoli Newid mewn lle	Rhagfyr 2014
Cyflwyno Syniadaeth Ddarbodus/Systemau	Ebrill 2015
Dechrau lefel uwch o gyfranogiad cwsmer yn y gwasanaeth	Ebrill 2015
Dechrau adolygiad o is-gontractwyr am Werth am Arian ac adolygiad caffael	Mawrth 2015
Adolygiad Gwerth am Arian o wasanaethu ac atgyweirio nwy	Medi 2015
Cwblhau prosiect gweithredu TG gan gynnwys gweithio gyda ffonau symudol	Medi 2015
Cyflwyno apwyntiadau cwsmeriaid	Rhagfyr 2015
Aml-sgilio llawn mewn lle	Mawrth 2016



Adolygu cynhyrchion a manylebau o fewn rhaglen fuddsoddi i sicrhau isafswm costau cynnal a chadw yn y dyfodol	Mawrth 2016
<b>Dechrau Cam Tri y prosiect newid Trawsfurfiol</b>	Mehfin 2016
Dechrau'r ystyriaeth o gyfleoedd busnes ehangach	Mehfin 2016
Cyflawni targedau perfformiad rhagorol	Mawrth 2017
Cyflawni enillion Gwerth am Arian	Mawrth 2017

## Atodiad A: Dadansoddiad PEST a TOWS

### Dadansoddiad PEST (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol a Thechnegol)

Mae'r dadansoddiad yma yn ymdrechu i gipio'r materion yn yr amgylchedd economaidd ehangach a gweithredol a allai gael effaith ar y gwasanaeth atgyweirio, yn gadarnhaol neu'n negyddol, dros gwrs y tair blynedd nesaf o'r cynllun busnes.

<p><b>Gwleidyddol (&amp; rheoleiddiol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Etholiad Cyffredinol 2015</li> <li>• Etholiadau Llywodraeth Cymru 2016</li> <li>• Ad-drefnu Llywodraeth Leol</li> <li>• Etholiadau Lleol 2016</li> <li>• Diwygiadau Lles/Credyd Cynhwysol</li> <li>• Deddf Dai Newydd</li> <li>• Diwygiad o'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) (cymhorthdal gadael y system)</li> <li>• Fframwaith Rheoleiddio, ffocws ar arddangos Gwerth am Arian</li> <li>• Agenda Gwyrdd</li> <li>• Agenda Cyngor Môn</li> <li>• Diffyg Tai Fforddiadwy</li> <li>• Disgwyliad o gysylltiadau agosach rhwng gofal cymdeithasol, iechyd a thai</li> <li>• Toriadau sector cyhoeddus</li> </ul>	<p><b>Economaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygiadau lles/credyd cyffredinol</li> <li>• Diwygiad o'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA)</li> <li>• Gostyngiad yng ngwariant y Cyngor</li> <li>• Chwyddiant yn codi – effaith ar gostau adeiladu, llafur a thanwydd i'r faniau</li> <li>• Y gallu i ddenu a chadw staff o safon mewn economi sy'n gwella lle mae cyfleoedd i staff wedi cynyddu</li> <li>• Twf yn yr economi (WYLFA)</li> <li>• Agenda Gwerth am Arian</li> <li>• Effaith tloidi ac amddifadedd, tloidi tanwydd</li> <li>• Poblogaidd yn heneiddio</li> <li>• Nawdd ECO</li> <li>• Diweithdra ieuenctid</li> <li>• Rhaglen VVP</li> </ul>
<p><b>Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Effaith Diwygiad Lles/Credyd Cynhwysol ar denantiaid</li> <li>• Poblogaeth yn heneiddio – stoc tai yn addas i bwrpas?</li> <li>• Diweithdra ieuenctid</li> <li>• Disgwyliadau cwsmeriaid yn codi – 'Rydyn ni eisiau hyn rwan ac rydym eisiau rheoli sut rydym yn ei dderbyn'</li> <li>• Effaith tloidi – cynnydd mewn trosedd, ASB, effaith ar eiddo, dwyn tanwydd ac ati.</li> <li>• Gwasanaethau yn cael eu tynnu oddi wrth bobl fregus o ganlyniad i doriadau yn y sector cyhoeddus a'r disgwyliad y gall landlordiaid tai cymdeithasol 'lenwi'r bwllch'.</li> </ul>	<p><b>Technolegol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• E-gaffael</li> <li>• E-fasnach</li> <li>• Credyd cynhwysol – gofynion am dechnoleg</li> <li>• Hygyrchedd tenantiaid at dechnoleg</li> <li>• Mesuryddion clyfar</li> <li>• Newid sianeli</li> <li>• Signal ffonau symudol</li> <li>• Hunan-wasanaeth cwsmer – hygyrchedd tenantiaid at dechnoleg</li> <li>• Cymwysiadau ffonau clyfar</li> <li>• Gweithio o bell /ffonau symudol</li> <li>• Cyfrifiadura cwmwl</li> <li>• Mwy o integreiddio rhwng systemau</li> <li>• Siop un stop</li> </ul>

## Dadansoddiad TOWS (Bygythiadau, Cyfleoedd, Gwendidau a Chryfderau)

<p><b>Bygythiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygiad lles – gostyngiad mewn incwm net yn arwain at ostyngiadau mewn cyllidebau craidd h.y. y gyllideb atgyweirio</li> <li>• Newid mewn llywodraeth/newid posibl mewn polisiau – Etholiad Cyffredinol/ Etholiad Llywodraeth Cymru</li> <li>• Ad-drefnu Llywodraeth Leol – newid posibl mewn blaenoriaethau</li> <li>• Ffocws rheoleiddiol ar Werth am Arian</li> <li>• Chwyddiant yn codi</li> <li>• Denu/ail-hyfforddi staff o safon</li> <li>• Poblogaeth yn heneiddio – a yw ein tai yn addas i'w hanghenion?</li> <li>• Disgwyliadau cwsmeriaid yn codi – a ellir diwallu'r rhain os yw adnoddau hefyd yn gostwng?</li> <li>• Deddf Tai</li> <li>• Effaith tlodi – trosedd a'i effaith ar ein hunedau o ganlyniad. Tlodi tanwydd – talu am wres neu dalu am rent?</li> </ul>	<p><b>Cyfleoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Newid llywodraeth/newidiadau posibl mewn polisiau – Etholiad cyffredinol/ Etholiad Llywodraeth Cymru</li> <li>• Cyfleoedd busnes newydd</li> <li>• Dysgu o gyfleoedd busnes newydd yn medru trosglwyddo gwybodaeth newydd yn ôl i'r busnes craidd</li> <li>• Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol</li> <li>• Deddf Gwerth Cymdeithasol</li> <li>• Agenda Gwyrdd</li> <li>• Nawdd ECO</li> <li>• Poblogaeth yn heneiddio – gwasanaethau newydd/ nawdd addasiadau</li> <li>• VVP</li> <li>• Cymunedau yn Gyntaf</li> <li>• Diweithdra ieuencid – prentisiaid</li> <li>• Coleg yn yr ardal ar gyfer sgiliau technegol</li> <li>• Cyfleoedd busnes ehangach y tu hwnt i gwmpas y gwasanaeth Tai traddodiadol</li> <li>• Cyflenwi gwell gwasanaeth trwy TG a syniadaeth Ddarbodus</li> <li>• Ailgylchu</li> </ul>
<p><b>Gwendidau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau busnes/cyllid</li> <li>• Agwedd darniog tuag at y gwasanaeth</li> <li>• Diwylliant a meddylfryd y gweithlu</li> <li>• Data proffilio cwsmer ddim yn cael ei ddefnyddio bob amser</li> <li>• Cost unedau gwag/rheolaeth</li> <li>• Atgyweirio cywir y tro cyntaf</li> <li>• Agwedd hen ffasiwn/defnyddio papur</li> <li>• Gweithio Seilo</li> <li>• TG – defnydd o ymarferoldeb, cyfathrebu tenantiaid a hyfforddiant</li> <li>• Dim yn ddigon rhagweithiol nac ymrwymedig ar strategaethau corfforaethol allweddol</li> <li>• Gwrthwynebus i risg</li> <li>• Ynysig</li> <li>• Perfformiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)</li> <li>• Diffyg hyblygrwydd oriau gwaith</li> <li>• Diffyg aml-sgilio</li> </ul>	<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth dda o'r stoc</li> <li>• Hanes o welliant ar rai Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)</li> <li>• Uchelgais am foderneiddio o fewn y tîm</li> <li>• Boddhad cwsmer yn uchel</li> <li>• Staff profiadol ac ymrwymedig</li> <li>• Cynllun busnes Cyfrif Refeniw Tai (HRA) cadarn</li> <li>• Cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)</li> <li>• Prosiect rheoli eiddo gwag wedi arwain at welliannau mewn gweithio ar y cyd.</li> </ul>

## Atodiad B

### Gwasanaeth Atgyweirio Cyfredol – Dangosyddion Perfformiad a Chostau – Canlyniadau a Thueddiadau

Dangosydd Perfformiad	Ynys Môn 2011/12 Gwirioneddol	Ynys Môn 2012/13 Gwirioneddol	Ynys Môn 2013/14 Ffigurau diweddaraf	Meincnodi Chwartel Uchaf Cymru	Meincnodi Chwartel Uchaf DU < 5,000 uned	Cyflawnwyd y Chwartel Uchaf gan Ynys Môn yn seiliedig ar ffigurau diweddaraf 2013/14
% o holl atgyweiriadau ymatebol ar amser	93%	84.1%	70.7%	97.9%	98.9%	<b>Naddo</b> (seiliedig ar ffigurau 2012/13)
% atgyweiriadau argyfwng ar amser	99.82%	99.9%	97.3%	98.1%	99.8%	<b>Cymru – Do DU – Bron iawn</b>
% Atgyweiriadau brys ar amser	99.8%	95.8%	95.5%	95.5%	99.2%	<b>Naddo</b>
% atgyweiriadau arferol ar amser	90%	75.4%	63.7%	94.7%	98.8%	(seiliedig ar ffigurau 2012/13)
% o holl atgyweiriadau a nodwyd yn	25%	40.0%	21.5%	39.6%	32.3%	<b>Do</b>

<b>argyfwng a brys</b>						
<b>% o holl atgyweiriadau argyfwng</b>	10%	13.8%	7.4%	<15.1%	<13.6%	<b>Do</b>
<b>% o holl atgyweiriadau brys</b>	15%	26.1%	14.1%	<21.2%	<15.8%	<b>Naddo</b>
<b>Bodddhad Cwsmer</b>	<b>2011/12 Gwirioneddol</b>	<b>2012/13 Gwirioneddol</b>	<b>2013/14 Ffigurau diweddaraf</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf Cymru</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf DU &lt; 5,000 uned</b>	<b>Chwartzel Uchaf wedi ei gyflawni gan Ynys Môn?</b>
<b>% o denantiaid yn fodlon gyda'r atgyweiriadau</b>	63%	83.10%	92%	82.10%	90%	<b>Do</b>
<b>% a gwblhawyd mewn un ymweliad</b>	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	89%	96.2%	<b>Heb ei fesur</b>
<b>Dangosydd Perfformiad</b>	<b>2011/12 Gwirioneddol</b>	<b>2012/13 Gwirioneddol</b>	<b>2013/14 Ffigurau diweddaraf</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf Cymru</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf DU &lt; 5,000 uned</b>	<b>Chwartzel Uchaf wedi ei gyflawni gan Ynys Môn?</b>
<b>Nifer cyfartalog o atgyweiriadau ymatebol fesul eiddo</b>	3.5	3.3	4.09	<2.6	<2.9	<b>Do</b>
<b>Amser</b>	70	83.6	68	<27.2	<23.8	<b>Naddo- ond</b>

<b>cyfartalog i ailosod – oll yn unedau gwag (dyddiau)</b>						<b>efallai nad atgyweiriadau sy'n gyfrifol am hyn</b>
<b>Dangosydd Cost</b>	<b>2011/12 Gwirioneddol</b>	<b>2012/13 Gwirioneddol</b>	<b>2013/14 Ffigurau diweddaraf</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf Cymru</b>	<b>Meincnodi Chwartzel Uchaf DU &lt; 5,000 uned</b>	<b>Chwartzel Uchaf wedi ei gyflawni gan Ynys Môn?</b>
<b>Cost uned wag safonol</b>	£4,829	N/A	£1,308	<b>£2,303.56</b>	<b>£1,401</b>	<b>Naddo</b>
<b>Cost cyfartalog atgyweiriad ymatebol</b>	£130	N/A	£160	<b>£108</b>	<b>£99</b>	<b>Naddo</b>

## Atodiad C

### Amcanion Allweddol, Canlyniadau a Chynllun Gweithredu Strategol

#### Ein Pobl

Amcan	Canlyniadau	Gweithrediadau Strategol	Amserlen
<p><b>I ddatblygu sgiliau a chymhwysedd ein pobl i ddarparu gwasanaeth atgyweirio rhagorol i'n cwsmeriaid.</b></p>	<p>Ymagwedd un tîm at atgyweirio ac mae gan yr holl staff Gwasanaeth Atgyweirio sgiliau, cymhwyseddau, agwedd ac ymddygiad rhagorol sydd yn sicrhau bod gennym ymagwedd fodern, hyblyg, arloesol a newidiol at ddarparu gwasanaeth.</p> <p>Mae staff wedi eu grymuso ar gyfer gwaith yn y byd modern gydag agwedd 'dwi am lwyddo' ac mae ganddynt gyfrifoldeb cydfuddiannol am lwyddiant y gwasanaeth a'i gynllun busnes.</p> <p>Bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae boddhad staff yn uchel.</p> <p>Wedi ei fesur gan: arolygon staff, gwerthusiadau, perfformiad gwasanaeth ac adborth gan gwsmeriaid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno strwythur tîm newydd ar gyfer swyddogaethau cleient a chontractwr cyfunol.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd gan y tîm fynediad at reolwyr trawsnewidiol a hyfforddwyr tîm/mentoriaid proffesiynol sy'n rheoli newid, er mwyn sicrhau bod yr ochr 'bobl' o bethau'n cael sylw.</li> <li>• Byddwn yn cyflwyno gweithio tîm fel ymagwedd safonol at ddarparu ein gwasanaeth – ysbryd o dîm cryf.</li> <li>• Byddwn yn sefydlu cynlluniau datblygu wedi eu teilwra ar gyfer staff yn cynnwys y sgiliau, cymhwyseddau, ymagweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau rhagorol.</li> <li>• Byddwn yn adolygu anghenion busnes y dyfodol ar gyfer proffesiynau a sicrhau bod cynllunio dilynol effeithiol yn ei le.</li> <li>• Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cymysgedd o broffesiynau a sgiliau'r tîm gweithredol i wirio a oes gennym y cymysg addas o broffesiynau a'r nifer cywir ohonynt i gefnogi'r galw gan ein busnesau presennol ac i'r dyfodol.</li> <li>• Byddwn yn edrych y tu hwnt i'r gwasanaeth i ddysgu gan ddarparwyr tai cymdeithasol eraill a defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu ymagwedd ein gwasanaeth.</li> <li>• Byddwn yn cynnal cynllun peilot o fentrau ac</li> </ul>	<p>Tachwedd 2014</p> <p>Mehfin 2014</p> <p>Rhagfyr 2014</p> <p>Medi14</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Hydref 2014</p> <p>Mehfin 2015</p> <p>Ionawr 2016</p>

		<p>ymagweddau newydd at ddarparu gwasanaeth a sefydlu hynny o fewn y busnes os yw'r cynllun yn llwyddiannus.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn adolygu'r swyddfeydd i osod timau gyda'i gilydd ble bynnag fo'n bosibl.</li> <li>• Byddwn yn gwella ein dulliau o gyfathrebu fel tîm ac yn rhoi adborth ar wybodaeth berfformiad i holl staff.</li> <li>• Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd a byddant yn gynhwysol. Rhennir gwybodaeth ar draws y tîm cyfan er mwyn grymuso staff yn fwy.</li> <li>• Bydd pob aelod o'r tîm yn gwybod sut y bydd ef neu hi'n cyfrannu at amcanion y gwasanaeth a bydd perfformiad a gwerthuso staff yn cefnogi hyn.</li> <li>• Bydd pob rheolwr yn cael hyfforddiant rheoli proffesiynol</li> <li>• Bydd rheolwyr allweddol yn mynychu o leiaf un digwyddiad/cynhadledd yn ymwneud ag atgyweirio i sicrhau bod Ynys Môn yn llwyddo i gynnal unrhyw ddatblygiadau yn y sector.</li> <li>• Byddwn yn datblygu diwylliant lle bydd y staff yn medru ysgogi eu hunain drwy adborth rheolaidd a rhoi cyfle i gymryd rhan ac i fod yn arloesol o fewn amgylchedd gwaith cefnogol.</li> </ul>	<p>Hydref 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Rhagfyr 2014</p> <p>Ionawr/Chwefror 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2015</p>
--	--	--	--



	<p>Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a bydd cwsmeriaid yn cydnabod ein staff fel darparwyr gwasanaeth rhagorol.</p> <p>Wedi ei fesur gan: arolygon boddhad cwsmer yn dynodi perfformiad chwarterel uchaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd ein staff yn bwrpasol reoli'r daith at ragoriaeth gyda llwybr clir wedi ei fapio y gall pawb ei ddeall, ynghyd â sut fydd pawb yn cyfrannu at y llwyddiant hwnnw.</li> <li>• Byddwn yn cynyddu cyfleoedd i staff fedru gweithio gyda chynrychiolwyr cwsmeriaid.</li> <li>• Byddwn yn gweithio gyda thimau Tai Ynys Môn eraill i ddarparu gwasanaeth integredig cyfan.</li> <li>• Byddwn yn llwyddo i ennill y Wobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer.</li> <li>• Byddwn yn ceisio sicrhau boddhad cwsmer ar bob gwaith atgyweirio a ymgwymerir drwy nifer o ddulliau.</li> <li>• Byddwn yn asesu boddhad cwsmer yn rheolaidd drwy holiaduron ac arolygon mewn perthynas â'r holl wasanaeth atgyweirio</li> </ul>	<p>Mawrth 2015</p> <p>Ebrill 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Rhagfyr 2016</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Ebrill 2015</p>
	<p>Gweithlu aml-sgiliau, brwdfrydig, ymroddgar a pharod.</p> <p>Wedi ei fesur gan: arolwg staff</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn rhoi gweithdrefnau aml-sgilio ar waith drwy ddulliau hyfforddi a recriwtio priodol i sicrhau gwasanaeth hyblyg ac ymatebol</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r fflyd o faniau presennol i sicrhau ei fod yn ddigonol ac wrth symud ymlaen sicrhau hefyd bod gan bawb fan sy'n cwrdd â'u gofynion.</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r cyflenwad o ddeunyddiau i sicrhau y darperir gwasanaeth effeithlon.</li> <li>• Byddwn yn darparu'r tîm â thechnoleg fodern i gyflawni lefelau uchel o gynhyrchiant.</li> <li>• Byddwn yn annog, cydnabod a gwobrwyo syniadau da ac arloesedd ac yn grymuso staff i'w gweithredu.</li> <li>• Byddwn yn mesur boddhad ein staff yn flynyddol.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y byddwn yn cwrdd â phob gofyniad lechyd a Diogelwch.</li> </ul>	<p>Mawrth 2016</p> <p>Medi 2014</p> <p>Rhagfyr 2014</p> <p>Mehafin 2015</p> <p>Chwefror 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mehafin 2014</p>

	<p>Sgiliau craffter busnes mewn trefn. Mae staff yn arloesol ac yn entrepreneuriaidd. Mae cydweithredu'n digwydd gyda thimau eraill ym Môn er mwyn datblygu a gweithredu mentrau newydd.</p> <p>Wedi ei fesur gan: adolygiadau ar ôl gweithredu mentrau newydd. Mae gwybodaeth ariannol yn bodoli a pherfformiad cryf wrth fasnachu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn hyfforddi a chefnogi ein staff i ddatblygu sgiliau mwy masnachol.</li> <li>• Anogir staff i weithio mewn ffyrdd arloesol a byddant yn cael eu cefnogi gan y tîm.</li> <li>• Byddwn yn mabwysiadu dull hyfforddi 'jest mewn pryd' ar gyfer staff wrth ddatblygu mentrau newydd, er mwyn i staff fedru defnyddio'r wybodaeth maent wedi ei dysgu.</li> </ul>	<p>Mawrth 2016</p> <p>Mawrth 2016</p> <p>Parhaus</p>
	<p>Gwasanaeth Atgyweirio'n integreiddio'n ddi-dor gyda'r Gwasanaeth Dai ehangach i ddarparu gwasanaeth integredig.</p> <p>Wedi ei fesur gan: Arolygon staff</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd y gwasanaeth atgyweirio yn gweithio fel 'llygaid a chlustiau' y landlord ac adrodd yn ôl ar unrhyw faterion i'r timau Tai.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd yr adolygiad llety yn ystyried yr angen i gyfathrebu gyda thimau Tai ehangach.</li> <li>• Byddwn yn gweithio ar amryw o fentrau o'r cynllun busnes gyda chydweithrediad ein cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tai.</li> <li>• Fe hyfforddir gweithredwyr i gyfeirio tenantiaid at wasanaethau landlordiaid eraill yn ystod eu hymweliadau.</li> </ul>	<p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Ionawr 2015</p>

## Ein cwsmeriaid a'n Gwasanaeth

Amcan	Canlyniadau	Gweithrediadau Strategol	Amserlen
<b>I wybod pwy yw ein cwsmeriaid a darparu gwasanaeth atgyweirio sydd â phwyslais ar y cwsmer a chynnig ystod eang o gyfleoedd i ddylanwadu ar y gwasanaeth a ddarparwn</b>	Wedi cyflawni darpariaeth ragorol 3 seren	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd ein gwasanaeth ar gael bob amser i'w archwilio, gyda chefnogaeth dilysiad annibynnol yn ôl yr angen.</li> <li>• Byddwn yn ystyried ceisio achrediad dan Ragoriaeth Gwasanaeth Cwsmer, neu Sefydliad Gwasanaeth Cwsmer (neu debyg).</li> </ul>	Mawrth 2016
	Wedi ei fesur mewn unrhyw archwiliad/archwiliad ffug.		Mawrth 2017
	Perfformiad chwarterl uchaf mewn boddhad cwsmer o wasanaeth atgyweirio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn adrodd ar ein gwybodaeth berfformiad i gwsmeriaid yng nghyd-destun i drendio gwybodaeth a meincnodi ehangach gyda'n cyfoedion, i alluogi cwsmeriaid i ddeall ein safbwynt a'n bod yn darparu gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus.</li> <li>• Byddwn yn archwilio ystod o wahanol ddulliau ar gyfer cael gwybodaeth ar foddhad cwsmer a fydd yn sicrhau bod y canlyniadau'n ddibynadwy ac yn cynrychioli'r gwasanaeth cyfan.</li> <li>• Byddwn yn defnyddio achosion o gŵyn i wella'r gwasanaeth i'r dyfodol ac atal pethau rhag digwydd eto.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau bod ymateb cyflym i unrhyw achos o foddhad gwael ac yn rhoi mesurau cywiro ar waith i atal pethau rhag digwydd eto.</li> <li>• Byddwn yn ystyried a ddylid dal a mesur boddhad cwsmer ar PDAs y gweithredwyr.</li> </ul>	Medi 2014
	Wedi ei fesur gan: meincnodi ac arolwg cwsmer.		Medi 2014
			Mawrth 2015
			Mawrth 2015
			Mehafin 2015

	<p>Mae ein gwasanaeth cwsmer yn adlewyrchu ymagwedd wasanaeth fodern sy'n ystyried cynnydd yn nisgwyliadau a dewisiadau'r cwsmer wrth ddelio â'r gwasanaeth atgyweirio (e.e. hunan-wasanaethu, siop un stop)</p> <p>Mae'r pwyslais ar effeithiolrwydd a chanlyniadau i'r cwsmer.</p> <p>Gwasanaeth hyblyg ac un a ellir ei addasu.</p> <p>Wedi ei fesur gan: foddhad cwsmer a siopa gan gwsmer dirgel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn cwblhau gweithredu'r systemau TG newydd.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cynnig apwyntiad ar gyfer gwaith nad yw'n argyfwng ar y cyswllt cyntaf.</li> <li>• Byddwn yn ystyried opsiynau i ymestyn y diwrnod gwaith i ddarparu apwyntiadau yn gynnar yn y bore neu gyda'r hwyr.</li> <li>• Byddwn yn ymchwilio datblygiadau TG newydd i sicrhau bod ein gwasanaeth yn cwrdd â'r disgwyliadau e.e. Apiau ffonau deallus ar gyfer apwyntiadau a negeseuon testun ymlaen llaw ychydig cyn i'r gweithredwr gyrraedd.</li> <li>• Byddwn yn ymchwilio'r defnydd o gyfleoedd siopa gan gwsmer dirgel gyda'r tîm Gwasanaethau Tai.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y gall cwsmeriaid gael mynediad at y gwasanaeth drwy wahanol ffyrdd – e.e. ffôn, neges destun, e-bost, gwefan ac ati.</li> <li>• Byddwn yn adolygu ac yn herio ystod eang o fathau categori o atgyweirio presennol ar gyfer atgyweirio ac yn cynnig dewis gwahanol mwy syml a byrrach i grwpiau cwsmer.</li> <li>• Byddwn yn darparu gwell gwybodaeth i gwsmeriaid a fydd o gymorth iddynt wrth geisio deal eu cyfrifoldebau'n well ar gyfer cadw eu heiddo mewn cyflwr da.</li> <li>• Byddwn yn ymchwilio'r defnydd o daliadau ysgogol i denantiaid.</li> </ul>	<p>Rhagfyr 2015</p> <p>Rhagfyr 2015</p> <p>Rhagfyr 2015</p> <p>Rhagfyr 2015</p> <p>Mehafin 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Hydref 2015</p> <p>Mehafin 2015</p> <p>Mehafin 2015</p>
--	--	--	---

	<p>Dewis eang o weithgareddau ar gael sy'n rhoi cyfle i'r cwsmer gyfranogi</p> <p>Tenantiaid deallus ac ynghlwm</p> <p>Wedi ei fesur gan: dewis llawn a dyddiadur o ddigwyddiadau wedi eu trefnu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gweithio gyda thimau Tai Ynys Môn eraill i greu cronfa ddata sydd cael mewnbwn gan denantiaid.</li> <li>• Byddwn yn rhoi cymorth wrth ddatblygu rhaglen gynhwysfawr o fewnbwn gan denantiaid sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn.</li> <li>• Byddwn yn darparu hyfforddiant priodol i denantiaid i'w galluogi i graffu effeithiolrwydd ein gwasanaethau.</li> <li>• Bydd gennym safonau a gytunwyd gan y cwsmer ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwn.</li> </ul>	<p>Mawrth 2015</p> <p>Medi 2014</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p>
	<p>Byddwn yn medru dangos sut mae cwsmeriaid wedi siapio darpariaeth y gwasanaeth</p> <p>Wedi ei fesur gan: adborth 'dywedoch chi ac fe wnaethom ni' i denantiaid a meincnodi 'cyfleoedd i gyfrnagogi'</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gweithio gyda thimau Tai Ynys Môn eraill i ddatblygu ymagwedd gynlluniol i adborth cwsmer a defnyddio'r canlyniadau i sbarduno canlyniadau.</li> <li>• Byddwn yn cydweithio â grŵp cwsmer atgyweiriadau a fydd yn cytuno ar dargedau perfformiad, yn derbyn adroddiadau perfformiad ac yn adolygu cynnydd yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd.</li> <li>• Byddwn yn ceisio sylwadau gan gwsmeriaid ynglŷn â sut i ddefnyddio adnoddau dros ben wrth ymgymryd â chyfleoedd busnes newydd</li> <li>• Byddwn yn rhoi cyfleoedd i gwsmeriaid chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwasanaeth gan gynnwys er enghraifft archwilio safonau unedau gwag, ystadau a mannau cymunol.</li> <li>• Byddwn yn ymgynghori â chwsmeriaid i sicrhau y gallant herio a chraffu darpariaeth gwasanaeth, perfformiad a chanlyniadau.</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r blaenoriaethau atgyweirio cyfredol a chynnig opsiynau symlach i gwsmeriaid.</li> </ul>	<p>Rhagfyr 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2017</p> <p>Mehefin 2015</p> <p>Mehefin 2015</p> <p>Hydref 2015</p>

	Gwasanaethau cywir y tro cyntaf  Wedi ei fesur gan: canlyniadau perfformiad.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn deall y rhesymau am fethu â llwyddo gyda gwasanaethau tro cyntaf i gwsmeriaid gan ddefnyddio bob un methiant fel cyfle i ddysgu.</li> <li>• Bydd gennym weithlu aml-sgiliau ar gael.</li> <li>• Byddwn yn cynnal prosiectau peilot lle byddwn yn newid ein hymagwedd at y gwasanaeth a phrofi i weld a yw buddion cadarnhaol yn cael eu darparu. Os llwyddir, byddwn yn sefydlu'r newidiadau yn ein gweithdrefnau gweithredu safonol.</li> <li>• Gosodir targedau perfformio blynyddol i lefelau chwarteli uwch.</li> </ul>	<p>Mai 2015</p> <p>Mawrth 2016</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Mehafin 2014</p>
	Mae 100% o wybodaeth proffil tenantiaid yn wybyddus ac yn cael ei defnyddio o fewn y gwasanaeth  Wedi ei fesur o gronfa ddata'r tenantiaid.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth proffilio cwsmer i fwydo'n dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau'r cwsmer a defnyddio hyn i osod lefelau'r gwasanaeth i'r dyfodol.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd Ynys Môn yn denu diddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan ymgysylltu â nhw mewn ffordd sy'n addas iddynt.</li> </ul>	<p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p>

### Ein Cyfleoedd

Amcan	Canlyniadau	Gweithrediadau Strategol	Amserlen
<b>I geisio a chreu cyfleoedd busnes newydd sy'n cyfrannu'n gryf yn ariannol ac a all ildio gweddillion i'w hailfuddsoddi i'r busnes craidd neu amcanion</b>	<p>Cyfleoedd busnes newydd hyfyw wedi eu gweithredu</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth</p> <p>Wedi ei fesur gan: allbynnau busnesau newydd, rhai ariannol a boddhad cwsmer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn adnabod ystod o gyfleoedd busnes ac yn asesu eu costau'n llawn, ynghyd â'u buddion a'u risgiau cyn gwneud unrhyw argymhellion i'w cynnig gerbron y Pennaeth Tai/Cyngor.</li> <li>• Byddwn wrthi'n bwrpasol yn ceisio gweithio mewn partneriaeth lle gellir dangos bod budd amlwg i Ynys Môn wrth wneud hynny</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd y cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at sefyllfa ariannol y busnes</li> </ul>	<p>Ebrill 2016</p> <p>Mawrth 2017</p> <p>Mawrth 2017</p>

<b>cymdeithasol ehangach.</b>		<p>drwy fodelu eu heffaith ar gynllun busnes ariannol y Gwasanaeth Atgyweirio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddir cyfleoedd busnes ar waith yn defnyddio dull tîm prosiect.</li> <li>• Byddwn yn datblygu strategaethau ymadael clir os na fydd y cyfleoedd newydd yn cyfrannu'n ariannol cystal â'r disgwyl.</li> </ul>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Mawrth 2017</p>
	Drwy ymgymryd â chyfleoedd busnes newydd caiff staff gyfleoedd hyfforddi a gwaith mwy amrywiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar gyfer pob cyfle busnes newydd byddwn yn sicrhau y byddwn yn asesu sgiliau'r staff i ymgymryd â'r cyfleoedd hyn ac i gael yr hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.</li> <li>• Byddwn yn ystyried datblygu sgiliau i wneud gwaith adeiladu ar eiddo newydd os daw'r cyfleoedd hyn ar gyfer y gwasanaeth tai mewnol.</li> </ul>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Ebrill 2016</p>
	<p>Ni chafwyd gostyngiad mewn safon yn y gwasanaeth i'r cwsmer drwy chwilio am ragor o gyfleoedd. Llwyddwyd i greu rhagor o fuddion cymunedol.</p> <p>Wedi ei fesur gan: arolwg cwsmer ac ystod o ddangosyddion/adborth boddhad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn mesur boddhad y cwsmer presennol yn barhaus, i sicrhau nad yw'r gwasanaeth craidd wedi ei effeithio wrth i ni geisio cyfleoedd busnes ehangach.</li> <li>• Byddwn yn ymgorffori buddion cymunedol i'r camau cynllunio a chaffael o brosiectau.</li> </ul>	<p>Ebrill 2017</p> <p>Ebrill 2015</p>

	<p>Ailfuddsoddi arian dros ben i mewn i'r gwasanaeth craidd, gyda chwsmeriaid yn penderfynu ar y blaenoriaethau hyn.</p> <p>Wedi ei fesur gan: arian dros ben yn dod ar gael a rhai cwsmeriaid yn dylanwadu'n gryf ar sut i'w wario yn ôl blaenoriaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gosod targedau ariannol clir i fusnesau eu cyflawni a bydd strategaethau ymadael clir yn barod ar gyfer pob cyfle busnes.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y bydd cwsmeriaid yn cael dylanwadu ar sut i ailfuddsoddi arian sy'n weddill o fusnesau newydd.</li> <li>•</li> </ul>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Mawrth 2017</p>
--	---	---	---------------------------------------

### Ein Perfformiad a Sicrhau Gwerth am Arian

Amcan	Canlyniadau	Gweithrediadau Strategol	Amserlen
<p><b>I ddarparu lefelau rhagorol o berfformiad a Gwerth Da am Arian ym mhob elfen o'n gwaith a pharhau'n hyfyw yn ariannol.</b></p>	<p>Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio'n darparu gwasanaethau o werth da am arian</p> <p>Wedi ei fesur gan : cymariaethau meincnodi annibynnol gyda chyfoedion</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn darparu £250k o leiaf o arbedion gwirioneddol bob blwyddyn erbyn 2017/18 (o'i gymharu â chyllideb 2013/14).</li> <li>• Byddwn yn atgyfnerthu ein trefniadau rheoli arian</li> <li>• Byddwn yn sicrhau tryloywder wrth adrodd yn ariannol.</li> <li>• Byddwn yn llawn ddeall ein costau a'n gyrwyr costau.</li> <li>• Byddwn yn gwneud defnydd llawn o wybodaeth meincnodi i ymdrin â meysydd sydd â chostau uchel a/neu meysydd sy'n perfformio'n wael.</li> <li>• Byddwn sefydlu ymwybyddiaeth Gwerth am Arian ar draws y gwasanaeth.</li> <li>• Byddwn yn dangos tystiolaeth o gynnydd mewn Gwerth am Arian yn rheolaidd.</li> </ul>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Medi 2014</p> <p>Mehafin 2015</p> <p>Mehafin 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mehafin 2015</p> <p>Mehafin 2015</p>



	<p>Mae'r Gwasanaeth Atgyweirio'n darparu gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol gan wybod i sicrwydd i ble mae ei adnoddau'n cael eu rhyddhau a'r rhesymau dros wneud hynny.</p> <p>Wedi ei fesur gan: alinio clir o adnoddau yn erbyn blaenoriaethau a rheolaeth ariannol gref a rheoli costau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gwneud penderfyniadau ariannol a fydd yn alinio ein hadnoddau gyda blaenoriaethau ar gyfer gwella a datblygu'r gwasanaeth.</li> <li>• Byddwn yn ceisio'n bwrpasol i ganfod y perfformwyr gorau a dysgu ganddynt gan osgoi 'ail greu'r olwyn'.</li> <li>• Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gwasanaethau llwyddo tro cyntaf a byddwn yn delio â phob methiant fel cyfle i ddysgu ohono.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau bod cyllidebau ariannol yn adlewyrchu anghenion cynnal a chadw parhaus yr offer a osodwyd fel rhan o'r rhaglen SATC.</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth nwy ac atgyweiriadau nwy i'r dyfodol.</li> <li>• Byddwn yn adrodd ar gostau atgyweirio unedau i'w hailosod ar wahân i wariant cyfalaf ar unedau gwag.</li> </ul>	<p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Ebrill 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mehafin 2014</p>
	<p>Gwasanaethau effeithlon yn rhyddhau'r gallu i wneud rhagor gyda'r un adnoddau.</p> <p>Wedi ei fesur gan: dueddiadau mewn dangosyddion cost ac allbwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gennym gynllun i gyflawni perfformiad chwarterl uchaf ym mhob maes o fewn cyfnod o dair blynedd y cynllun busnes.</li> <li>• Byddwn yn cyflwyno meddylfryd Systemau Effeithlon ar gyfer ymarferion allweddol o fewn y gwasanaeth.</li> <li>• Byddwn yn adolygu datblygiadau technolegol yn barhaus gan weithredu o fewn y gwasanaeth os gwneir achos am Werth am Arian.</li> <li>• Byddwn yn rhoi sicrhau bod gweithio symudol yn digwydd.</li> <li>• Byddwn yn adolygu costau unedau gwag a chymharu gyda darparwyr gwasanaeth eraill i sicrhau bod y cydbwysedd cywir gennym ar gyfer cost ac ansawdd.</li> </ul>	<p>Mehafin 2014</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mawrth 2017</p> <p>Medi 2015</p> <p>Medi 2015</p>

	<p>Bydd gweithgareddau caffael wedi sicrhau'r pris gorau/ansawdd gorau ar gyfer popeth y mae'r Gwasanaeth Atgyweirio yn ei gaffael.</p> <p>Wedi ei fesur gan: brisiau yn cael eu cyflawni wedi iddynt gael eu profi yn erbyn y farchnad a boddhad cwsmer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn trefnu adolygiad Gwerth am Arian annibynnol o'r storffeydd.</li> <li>• Byddwn yn ceisio gweithio ag eraill i gaffael nwyddau a gwasanaethau ar y cyd os bydd hyn o fudd i'r cwsmer.</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethu ac atgyweirio gwaith nwy a sicrhau y cyflawnir Gwerth am Arian.</li> <li>• Byddwn yn adolygu gwaith is-gontractiol ac yn cynnig y gwaith hwn yn fewnol os bydd hi'n ymarferol ac yn briodol gwneud hynny.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â Pholisi Caffael Ynys Môn a rhoi gwybod i'r gwasanaeth atgyweirio am bob penderfyniad a wneir ar gyflenwi a darparu nwyddau.</li> </ul>	<p>Gorffennaf 2014</p> <p>Mawrth 2017</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2016</p>
	<p>Cynllun rheoli ariannol cadarn yn ei le.</p> <p>Cynllun sy'n hyfyw yn ariannol.</p> <p>Wedi ei fesur gan: y cyfrif masnachu mewn credyd a chynllun ariannol hyfyw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu a chynnal cynllun ariannol hyfyw.</li> <li>• Bydd gennym gyllidebau cynhwysfawr yn eu lle gyda thybiaethau allweddol wedi eu deall a'u cymeradwyo gan reolwyr allweddol cyn cychwyn y flwyddyn ariannol.</li> <li>• Byddwn yn cadw cyfrif masnachu manwl a bydd y Tîm Rheoli'n derbyn cyfrifon rheoli misol ar ffurf sy'n ddealladwy ar gyfer rheolwyr nad ydynt yn arbenigwyr ar arian.</li> <li>• Byddwn yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gymariaethau gwir gostau gyda Rhestr o Gyfraddau a gwir amser gyda Gwerthoedd Munudau Safonol.</li> </ul>	<p>Medi 2014/ Ionawr 2015/Mawrth 2015</p> <p>Mehafin 2014</p> <p>Mawrth 2015</p>

	<p>Arian dros ben a ddaw yn sgil cyfleoedd busnes newydd</p> <p>Wedi ei fesur gan: ddadansoddiad ar wahân o fewn y Cyfrif Masnachu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygir y cyfrif masnachu er mwyn dangos sefyllfa ariannol cyfleoedd busnes newydd ar wahân.</li> <li>• Byddwn yn ailfuddsoddi arian dros ben o gyfleoedd busnes newydd i mewn i'r busnes craidd, neu amcanion cymdeithasol ehangach.</li> </ul>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Mawrth 2017</p>
	<p>Lefelau rhagorol o berfformiad a diwylliant o atebolwydd yn ei le.</p> <p>Wedi ei fesur gan: Ganlyniadau tuedd o ddangosyddion perfformiad yn dangos sefyllfa'n gwella.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynir casgliad llawn o ddangosyddion perfformiad yn seiliedig ar ymagwedd sgorio cytbwys.</li> <li>• Bydd y tîm yn derbyn hyfforddiant a mentora i sicrhau y bydd gan staff y sgiliau i fedru rheoli a mesur perfformiad.</li> <li>• Bydd gweithdrefnau rheoli contract cynhwysfawr mewn grym a chyflwynir tasgau yn wythnosol i sicrhau y bydd perfformiad yn gyfredol ac yn gywir, gan felly sicrhau y bydd unrhyw waith cywiro'n cael ei wneud yn brydlon. Yna fe gyflwynir crynodebau misol i'r cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli.</li> <li>• Rhennir gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd gyda'r timau rheng flaen a galluogi.</li> <li>• Dangosir adroddiadau perfformiad cyfredol ar draws y gwasanaeth yn hysbys i bawb ac wedi eu deal gan bawb.</li> </ul>	<p>Medi 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mehfin 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Mawrth 2015</p>

## Ein Hasedau – Eu Rheoli'n Effeithiol

Amcan	Canlyniadau	Gweithrediadau Strategol	Amserlen
<b>I fabwysiadu ymagwedd gyfannol i atgyweiriadau a buddsoddiadau, gan reoli asedau'n effeithlon ac yn gost effeithiol, a defnyddio gwybodaeth safonol i hysbysu rhaglenni gwaith i'r dyfodol.</b>	<p>Cartrefi safonol mewn lleoliadau y mae pobl yn dymuno byw.</p> <p>Wedi ei fesur gan: foddhad cwsmer a chyfraddau ailosod cymharol gyson ac isel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn adolygu'r safon ailosod mewn ymgynghoriad â'n cwsmeriaid a byddwn hefyd yn cymharu'r safon gydag un gan ddarparwyr tai cymdeithasol eraill.</li> <li>• Byddwn yn ceisio adborth boddhad cwsmer yn rheolaidd gan denantiaid newydd.</li> <li>• Byddwn yn cynnig dewis o gynnyrch os yn bosibl er mwyn rhoi'r boddhad gorau i'r cwsmer.</li> <li>• Byddwn yn cynnal adolygiad o'r cynnyrch a ddefnyddiwn a'n manylebau ar gyfer gwelliant, cynnal a chadw ac ailosod. Bydd yr adolygiad yn ystyried: <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Egwyddorion tai gydol oes i alluogi pobl i fyw'n gyfforddus ac yn ddiogel yn eu cartrefi am gyfnod hirach</li> <li>➢ Cynnyrch Ynni a Gwresogi i wella safonau a gostwng biliau gwresogi ac allyriadau carbon</li> <li>➢ Hanes atgyweirio a chynnal a chadw a data cyflwr stoc</li> </ul> </li> </ul>	<p>Ebrill 2015</p> <p>Rhagfyr 2014</p> <p>Medi 2015</p> <p>Mawrth 2016</p>
	<p>Stoc wedi ei gadw yn unol â safonau Ynys Môn. Defnydd effeithlon o'r gofrestr asedau. Cynllunio buddsoddi am y dyfodol.</p> <p>Wedi ei fesur gan: MOTs, arolygon cyflwr stoc, boddhad cwsmer a dewis cwsmer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am gyflwr stoc i hysbysu buddsoddiad a chynlluniau atgyweirio i'r dyfodol.</li> <li>• Byddwn yn gweithredu'r modiwl Conglfaen a gwneud y mwyaf o'r adnodd hwn a sicrhau bod data gwasanaethau ac atgyweirio yn gyfredol ac yn gywir, gan felly ddarparu gwybodaeth ddeallus a pherthnasol i siapiao darpariaeth y gwasanaeth a'r rhaglenni gwaith i'r dyfodol.</li> <li>• Byddwn yn darparu rhaglen o fuddsoddiad i gynnal safon Tai Ynys Môn.</li> <li>• Byddwn yn targedu eiddo sy'n anodd cael mynediad iddynt ac eiddo lle yr ydym wedi canfod</li> </ul>	<p>Medi 2014</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Medi 2014</p> <p>Mawrth 2016</p>

		<p>nad oes gwresogi yno a byddwn yn cynnal MOT ar yr eiddo hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu cofrestr dai hygrych.</li> </ul>	Medi 2015
	<p>Ymagwedd gyfannol at reoli asedau. Ymagwedd atal yn hytrach na datrys.</p> <p>Wedi ei fesur gan: Leihad mewn costau cynnal a chadw i'r dyfodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd gynlluniol ac ataliol at atgyweiriadau (yn hytrach na'r ymagwedd draddodiadol o ymateb, mynychu a thrwsio).</li> <li>• Byddwn yn gweithredu rhaglen gynnal a chadw gylchol a fydd yn diogelu'r buddsoddiad blaenorol o'r stoc, cadw'r stoc yn y cyflwr gorau a lleihau'r lefel o wariant a'r nifer o atgyweiriadau a wneir dros amser.</li> <li>• Byddwn yn ystyried a ddylid addasu rhaglenni buddsoddi i sicrhau llai o gostau cynnal a chadw i'r dyfodol.</li> </ul>	<p>Ebrill 2015</p> <p>Ebrill 2015</p> <p>Mawrth 2017</p>
	<p>Rhodddwyd ystyriaeth i gymunedau ehangach a'r amgylchedd lle lleolir yr eiddo.</p> <p>Wedi ei fesur gan: Tenant Satisfaction with the environment within which they live</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y tîm atgyweirio'n cydweithio â chydweithwyr mewn timau eraill i sicrhau yr ystyrir cymunedau ehangach a materion amgylcheddol.</li> <li>• Byddwn yn codi proffil grantiau gwelliannau amgylcheddol</li> <li>• Byddwn yn cynyddu'r lefel o fewnbwn tenant – teithiau cerdded drwy ystadau ac ardaloedd cymunol a chynnal gwaith ymgynghori mewn digwyddiadau cymunedol.</li> <li>• Byddwn yn sicrhau gwell ymgysylltu ag asiantaethau partner e.e. Heddlu Gogledd Cymru i adnabod troseddau a manau lle ceir problemau gan ddatrys neu wneud gwaith ataliol.</li> </ul>	<p>Ebrill 2016</p> <p>Rhagfyr 2015</p> <p>Mehefin 2015</p> <p>Mehefin 2015</p>

## Atodiad D

### Targedau Perfformiad rhwng 2014/15 a 2016/17

Dangosydd Perfformiad	2013/14 Perfformiad Diweddaraf	2014/15 Targed	2015/16 Target	2016/17 Targed	Meincnodi 10% Uchaf Cymru	Meincnodi Lefel Chwarter Uchaf y DU < 5000 uned
% o holl atgyweiriadau ymatebol ar amser	70.7%	85%	90%	97.9%	<b>97.9%</b>	<b>98.9%</b>
% atgyweiriadau argyfwng ar amser	97.3%	98%	99%	99.7%	<b>99.7%</b>	<b>99.8%</b>
% Atgyweiriadau brys ar amser	95.9%	96.5%	97.5%	98.4%	<b>98.4%</b>	<b>99.2%</b>
% atgyweiriadau arferol ar amser	63.7%	80%	90%	98.8%	<b>98.8%</b>	<b>98.8%</b>
% o holl atgyweiriadau a nodwyd yn argyfwng a brys	21.5%	21.5%	21.5%	21.5%	<b>38.4%</b>	<b>32.3%</b>
% o holl atgyweiriadau argyfwng	7.4%	7.4%	7.4%	7.4%	<b>13.4%</b>	<b>13.6%</b>
% o holl atgyweiriadau brys	14.1%	14.1%	14.1%	14.1%	<b>21.2%</b>	<b>15.8%</b>

<b>% o denantiaid yn fodlon gyda'r atgyweiriadau</b>	92%	92%	92%	92%	<b>87%</b>	<b>90%</b>
<b>Dangosydd Perfformiad</b>	<b>2013/14 Diweddaraf</b>	<b>2014/15 Targed</b>	<b>2015/16 Target</b>	<b>2016/17 Targed</b>	<b>Meincnodi 10% Uchaf Cymru</b>	<b>Meincnodi Lefel Chwartzel Uchaf y DU &lt; 5000 uned</b>
<b>% a gwblhawyd mewn un ymweliad</b>	Dim ar gael	70%	85%	92%	<b>92%</b>	<b>96.2%</b>
<b>Nifer cyfartalog o atgyweiriadau ymatebol fesul eiddo</b>	4.09	3.9	3.7	3.4	<b>&lt;3.4</b>	<b>&lt;3</b>
<b>Amser cyfartalog i ailosod – oll yn unedau gwag (dyddiau)</b>	37.1	35	30	25	<b>&lt;25 diwrnod</b>	<b>&lt;23.8 diwrnod</b>
<b>Amser cyfartalog i ailosod – oll yn brif unedau gwag (dyddiau)</b>	68	62	55	50	<b>&lt;50 diwrnod</b>	<b>&lt;49 diwrnod</b>
<b>Dangosydd Cost</b>	<b>2013/14 Diweddaraf</b>	<b>2014/15 Targed</b>	<b>2015/16 Targed</b>	<b>2016/17 Targed</b>	<b>Meincnodi 10% Uchaf Cymru</b>	<b>Meincnodi Lefel Chwartzel Uchaf y DU &lt; 5000 uned</b>
<b>Cost uned wag safonol</b>	£1,308	£1,340	£1,374	£1,409	<b>£1,800</b>	<b>£1,500</b>

<b>Cost cyfartalog atgyweiriad ymatebol</b>	£160	£150	£125	£100	<b>£100</b>	<b>£99</b>
---	------	------	------	------	-------------	------------

## Atodiad E

### Canlyniad y Gwerthusiad Opsiynau – Y dewis gorau ar gyfer cadw'r gwasanaeth yn fewnol ond yn gyfunol â chleient/contractiwr a gan foderneiddio'r gwasanaeth

Mater	Cryfderau a Buddion	Gwendidau	Risgiau
<b>Gwasanaeth Cwsmer</b>	<p>Dim newid yn y darparwr gwasanaeth, felly ceir parhad i gwsmeriaid. Un darparwr gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid – siop un stop. Gwasanaethu'r cwsmer yw'r amcan allweddol nid elw.</p> <p>Gall tenantiaid fod yn fwy cyfforddus gyda chyflogai o'r cyngor ond dod i'w gartref yn hytrach na chyflogai o gontractwr allanol.</p> <p>Cyfleoedd i denantiaid fod yn rhan o reolaeth y gwasanaeth.</p> <p>Ychwanegiad gwerth a hyblygrwydd gwasanaeth – y gallu i fynd un cam ymhellach er budd y cwsmeriaid.</p> <p>Proffilio cwsmeriaid a theilwra'r gwasanaeth yn sgil hyn.</p> <p>Mwy atebol i gwsmeriaid fel darparwr y gwasanaeth.</p> <p>Datrys problemau'n haws – dim trydydd parti ynghlwm i 'negodi' datrysiad.</p> <p>Darpariaeth fewnol yn osgoi'r risg o'r</p>	<p>Gall allanoli'r gwasanaeth lwyddo i roi lefel uwch o ddarpariaeth (ond gallai hyn gael ei liniaru gan gynllun busnes gyda thargedau cam wrth gam o berfformiad a fyddai angen eu cyflawni gan dîm sydd newydd gael ei ffurfio).</p>	<p>A all y tîm mewnol ddarparu gwasanaeth cwsmer sydd cystal ag un gan gontractiwr allanol?</p> <p>Gostyngiad posibl mewn perfformiad wrth i dîm a phrosesau newydd geisio sefydlu.</p> <p>Llai o allu i ddelio gyda chynnydd a gostyngiad mewn galw o'i gymharu â chontractwr allanol.</p>



	contractwr yn mynd i'r wal – sicrwydd o barhad y gwasanaeth.		
<b>Gwerth am Arian</b>	<p>Arbed y gost o fynd yn allanol i gaffael contractwr allanol.</p> <p>Dyblygiadau mewn gwasanaeth wedi eu dileu sy'n arwain at brosesau mwy effeithlon.</p> <p>Rheolaeth dros gyllideb.</p> <p>Dim elw i'r contractwr.</p> <p>Datrysiaid hirdymor o bosibl heb yr angen am dendro cystadleuol gan amharu ar y gwasanaeth a'r staff.</p> <p>Gellir cadw ac ailfuddsoddi unrhyw arbedion ar gyfer y gwasanaeth.</p> <p>Osgoi torri corneli gan contractwr o ganlyniad iddo gael ei arwain gan elw yn hytrach na budd y gwasanaeth.</p>	<p>Efallai y bydd angen ymgynghorydd newid trawsnewidiol allanol i gynhyrchu'r lefel gofynnol o berfformiad, ac felly rhaid ystyried y costau.</p> <p>Ni fyddai'r arbedion maint yn cael eu cyflawni drwy brynu mewn swmp fel y mae contractwyr allanol yn medru.</p> <p>Gellid gwneud rhagor o arbedion o bosib drwy dendro'r gwasanaeth. Ysgogiad colli elw – gall arwain at ddiffyg gwerth am arian/diffyg canolbwyntio. Gellid rhoi 'cosb' os na fyddai'r contractwr allanol yn perfformio – anodd gwneud hynny efo darparwr mewnol.</p>	Gall trawsnewid i ffordd newydd o weithio gymryd llawer iawn o amser rheoli.
<b>Gallu Perfformiad</b>	Gallai ymgynghorydd trawsnewid sy'n gweithio gyda tîm greu diwylliant o berfformio o fewn y tîm.	Gall gymryd yn hirach i gyflawni lefelau llawn o berfformiad gyda chontractwr allanol a ysgogir gan arian i wneud y contract berfformio.	Risg y gallai'r amser a gymerir i ailstrwythuro'r tîm gael effaith negyddol ar berfformiad yn ystod y cyfnod hwnnw.
<b>Materion Staffio a Strwythur</b>	Tîm cyfunol newydd, un weledigaeth, blaenoriaethau gwasanaeth wedi eu deall gan bawb, rolau a chyfrifoldebau	Bydd yn cymryd amser i sefydlu'r strwythur newydd. Newid meddylfryd y staff o	Amhariad posibl i'r gwasanaeth presennol wrth i newidiadau gael eu

	<p>clir, dim dyblygu tasgau/ymdrechion. Dim materion TUPE. Byddai aml-sgilio mewn grym. Mae gan Ynys Môn reolaeth dros recriwtio a chadw gweithredwyr – Recriwtio lleol. Cyflogaeth leol</p>	<p>safbwynt y cleient a'r contractiwr.  Cyfrifoldeb Ynys Môn yw rheoli'r cynnydd a'r gostyngiadau – ni ellir gwthio neu dynnu adnoddau ar gontract arall fel y gall contractiwr allanol. Baich rheoli (a chost) i reoli gweithlu mewnol.</p>	<p>gwneud. Efallai na fydd staff yn medru trawsnewid i'r ffordd newydd o weithio a bydd yr hen arferion gwaith yn dychwelyd.</p>
<p><b>Effaith ar dimau Tai a Gwasanaethau ehangach gan gynnwys materion Cyfathrebu</b></p>	<p>Rhannu gweledigaeth ar y cyd gyda gweddill y Gwasanaeth Tai. Osgoi'r diwylliant o weld bai a'r elfen 'nhw a ni' o wasanaeth sydd wedi ei hollti. Gwell cyfathrebu. Diwylliant ar y cyd a chysondeb gydag amcanion drwy'r sefydliad. Darpariaeth fewnol o'r gwasanaeth ac felly mewn egwyddor yn haws cyfathrebu na gyda chontractiwr allanol. Gwell rheolaeth dros y gwasanaeth, ei staff a'r rheolaeth ac wedi ei deilwra ar gyfer blaenoriaethau'r Gwasanaeth Tai yn hytrach nag 'un maint yn ffitio pawb'  Gwasanaeth cyfunol – gwasanaeth atgyweirio wedi ei integreiddio'n ddi-dor gyda'r Gwasanaeth Tai ac yn rhoi adborth cyson i'r gwasanaeth – 'llygaid a chlustiau'r landlord'. Cryfach fel un tîm na'r drefn bresennol. Diwylliant newydd o ddefnyddio camgymeriadau fel cyfle i wella a</p>	<p>Cyfrifoldeb llawn i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio'n rhagorol yn cael ei roi i'r Gwasanaeth Tai yn hytrach na'i roi i gontractiwr allanol.</p>	<p>Mae risg na fydd timau bob amser yn derbyn y ffyrdd newydd o weithio.</p>

	Ilwyddo'n llwyr y tro nesaf.		
<b>Materion TG</b>	Dim newid i'r TG bresennol ond byddai mwy o gyfrannu wrth foderneiddio'r gwasanaeth. Mynediad hawdd at wybodaeth ynglŷn â'r tenant o systemau'r Cyngor. Llai o risg o amlygu gwybodaeth gyfrinachol am denantiaid.		
<b>Materion Cyfreithiol a Rheoleiddiol</b>	Dim materion cyfreithiol. Bydd yn ymdrin â phryderon gwahaniad y cleient/contractwr o'r WAO. Nid yw'r Gwasanaeth wedi ei glymu i mewn i'r cytundeb.		
<b>Pa mor Hawdd neu Anodd yw Gweithredu'r Datrysiaid</b>	Byddai ymgynghorydd trawsnewidiol yn ei le i roi cymorth i'r tîm i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i foderneiddio'r gwasanaeth.	Llawer o amser rheoli i oruchwylio trawsnewid y prosiect. Angen strwythur staffio newydd. Rhaid ymdrin â materion llety ar yr un pryd – rhaid i'r timau sydd newydd ymuno gael eu lleoli gyda'i gilydd.  Anodd moderneiddio gwasanaeth wrth geisio ei redeg ar yr un pryd. Gallu tîm i ddarparu'r lefel o newid sydd ei angen.  Lefelau presennol o ddyblygu – effaith strwythur newydd? Gall dysgu rôl newydd a gweithio mewn ffordd wahanol fod yn her	Amharu ar y gwasanaeth presennol

--	--	--	--

Amser arwain i mewn yn 6 mis ar gyfer ailstrwythuro'r tîm ac yna dwy flynedd i sefydlu'r ymagwedd newydd hon a sbarduno'r gwasanaeth at ragoriaeth. Amserlen lawn yn ddwy flynedd a hanner (30 mis) ers penderfyniad.

## Atodiad F


### Dangosyddion Gwerth am Arian

Gellid defnyddio'r dangosyddion gwerth am arian canlynol i fesur llwyddiant Gwerth am Arian:

- I. Cyfran o gostau alldro o'i gymharu â'r gyllideb
- II. Cyfran o atgyweiriadau a gynlluniwyd o'i gymharu â rhai ymatebol
- III. Cyfran o wariant ar atgyweiriadau argyfwng a brys o'i gymharu ag atgyweiriadau heb fod â brys.
- IV. Cyfanswm Costau atgyweiriadau ar gyfartaledd fesul atgyweiriad.
- V. Cost atgyweirio gyfartalog fesul eiddo.
- VI. Cost uned yn gyfartalog fesul atgyweiriad.
- VII. Cyfran o gostau atgyweirio hen fod yn argyfwng y gwnaed a chadwyd apwyntiad ar eu cyfer.
- VIII. Cyfran o apwyntiadau atgyweiriadau a ganslwyd.
- IX. Cyfran o atgyweiriadau ymatebol a gwblhawyd o fewn y targed.
- X. Cyfran o atgyweiriadau argyfwng a brys a gwblhawyd o fewn y targed.
- XI. Cyfran o atgyweiriadau a archwiliwyd wedyn a gafodd radd 'llwyddo'.
- XII. Cyfran o atgyweiriadau a gwblhawyd yn ystod yr ymweliad cyntaf.
- XIII. Cyfran o gwsmeriaid a ddyweddodd eu bod yn fodlon gyda'r atgyweiriadau ymatebol.
- XIV. Canran o dasgau a gwblhawyd fel atgyweiriadau argyfwng a brys.
- XV. Cyfran o eiddo gyda thystysgrif gwasanaeth nwy blynyddol.
- XVI. Cyfran o alwadau a gafodd eu delio o fewn 30 eiliad.
- XVII. Cyfartaledd o amser a gymerwyd i ateb galwadau
- XVIII. Nifer o dasgau heb eu delio â nhw yn ôl blaenoriaeth
- XIX. % o archwiliadau cyn ac ar ôl y gwaith.
- XX. Arbedion caffael a gyflawnwyd o'i gymharu â'r gyllideb.
- XXI. % o ffurflenni boddhad cwsmer a ddychwelir.
- XXII. % o dasgau a gwblhawyd y tu hwn i'w hamser targed yn ôl categori
- XXIII. % o atgyweiriadau ailosod a gyflawnodd radd 'llwyddo' gan archwilwyr neu denantiaid newydd.

## Atodiad 2

### Strwythur Lefel Uchel Mynegol




Tudalen 164

# Atodiad H

## Model Gwasanaeth Rhagorol

Tudalen 165



## Appendix I

### **Cynllun Ariannol a Sensitifrwyddiaethau Hyd at 2016/17**



## (a) MODEL SYLFAENOL

	2014/15	2015/16	2016/17
	£	£	£
<b>Trosiant (gros)</b>	<b>3,636,280</b>	<b>3,709,006</b>	<b>3,783,186</b>
<b>Llai: Costau Gwaith Uniongyrchol</b>			
Costau Llafur Cyflogeion Uniongyrchol (cynnwys cost pellach)	656,240	669,365	682,752
Cerbydau a Pheiriannau	19,290	19,676	20,069
Deunyddiau Uniongyrchol	602,590	614,642	626,935
Costau Is-gontractwyr/asiantaeth	1,460,310	1,489,516	1,519,307
Costau uniongyrchol eraill	59,840	61,037	62,258
<b>Cyfanswm Cost Uniongyrchol y Gwaith</b>	<b>2,798,270</b>	<b>2,854,235</b>	<b>2,911,320</b>
<b>Elw Gros (Cyfraniad)</b>	<b>838,010</b>	<b>854,770</b>	<b>871,866</b>
<b>Costau/Gorbenion Anuniongyrchol</b>			
Costau Cyflogeion Anuniongyrchol (cynnwys cost pellach)	276,360	281,887	287,525
Costau Safle	80,180	81,784	83,419
Costau canolig ac ad-daliadau	481,470	491,099	500,921
Arian wrth gefn	0	0	0
<b>Cyfanswm Anuniongyrchol/Gorbenion</b>	<b>838,010</b>	<b>854,770</b>	<b>871,866</b>
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>3,636,280</b>	<b>3,709,006</b>	<b>3,783,186</b>
<b>Gweddill / (Diffyg) Targed</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

## (b) SENSITIFRWYDD 1: MODEL SYLFAENOL - 10% O OSTYNGIAD MEWM INCWM O'R PRIF GYLLIDEB MASNACHU

	2014/15	2015/16	2016/17
	£	£	£
<b>Trosiant (gros)</b>	<b>3,272,652</b>	<b>3,338,105</b>	<b>3,404,867</b>
<b>Llai: Costau Gwaith Uniongyrchol</b>			
Costau Llafur Cyflogeion Uniongyrchol (cynnwys cost pellach)	656,240	669,365	682,752
Cerbydau a Pheiriannau	19,290	19,676	20,069
Deunyddiau Uniongyrchol	542,331	553,178	564,241
Costau Is-gontractwyr/asiantaeth	1,314,279	1,340,565	1,367,376
Costau uniongyrchol eraill	59,840	61,037	62,258
<b>Cyfanswm Cost Uniongyrchol y Gwaith</b>	<b>2,591,980</b>	<b>2,643,820</b>	<b>2,696,696</b>
<b>Elw Gros (Cyfraniad)</b>	<b>680,672</b>	<b>694,285</b>	<b>708,171</b>
<b>Costau/Gorbenion Anuniongyrchol</b>			
Costau Cyflogeion Anuniongyrchol (cynnwys cost pellach)	276,360	281,887	287,525
Costau Safle	80,180	81,784	83,419
Costau canolig ac ad-daliadau	481,470	491,099	500,921
Arian wrth gefn	0	0	0
<b>Cyfanswm Anuniongyrchol/Gorbenion</b>	<b>838,010</b>	<b>854,770</b>	<b>871,866</b>
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>3,429,990</b>	<b>3,498,590</b>	<b>3,568,562</b>
<b>Gweddill / (Diffyg) Targed</b>	<b>-157,338</b>	<b>-160,485</b>	<b>-163,694</b>

## (c) SENSITIFRWYDD 2: MODEL SYLFAENOL - 20% O OSTYNGIAD MEWN INCWM O'R PRIF GYLLIDEB MASNACHU

	2014/15	2015/16	2016/17
	£	£	£
<b>Trosiant (gros)</b>	<b>2,909,024</b>	<b>2,967,204</b>	<b>3,026,549</b>
<b>Llai: Costau Gwaith Uniongyrchol</b>			
Costau Llafur Cyflogeion Uniongyrchol (cynnwys cost pellach)	656,240	669,365	682,752
Cerbydau a Pheiriannau	19,290	19,676	20,069
Deunyddiau Uniongyrchol	482,072	491,713	501,548
Costau Is-gontractwyr/asiantaeth	1,168,248	1,191,613	1,215,445
Costau uniongyrchol eraill	59,840	61,037	62,258
<b>Cyfanswm Cost Uniongyrchol y Gwaith</b>	<b>2,385,690</b>	<b>2,433,404</b>	<b>2,482,072</b>
<b>Elw Gros (Cyfraniad)</b>	<b>523,334</b>	<b>533,801</b>	<b>544,477</b>
<b>Costau/Gorbenion Anuniongyrchol</b>			
Costau Cyflogeion Anuniongyrchol (cynnwys cost pellach)	276,360	281,887	287,525
Costau Safle	80,180	81,784	83,419
Costau canolig ac ad-daliadau	481,470	491,099	500,921
Arian wrth gefn	0	0	0
<b>Cyfanswm Anuniongyrchol/Gorbenion</b>	<b>838,010</b>	<b>854,770</b>	<b>871,866</b>
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>3,223,700</b>	<b>3,288,174</b>	<b>3,353,937</b>
<b>Gweddill / (Diffyg) Targed</b>	<b>-314,676</b>	<b>-320,970</b>	<b>-327,389</b>

## (d) SENSITIFRWYDD 3: MODEL SYLFAENOL + 5% O GYNNYDD MEWN INCWM O'R PRIF GYLLIDEB MASNACHU

	2014/15	2015/16	2016/17
	£	£	£
<b>Trosiant (gros)</b>	<b>3,818,094</b>	<b>3,894,456</b>	<b>3,972,345</b>
<b>Llai: Costau Gwaith Uniongyrchol</b>			
Costau Llafur Cyflogeion Uniongyrchol (cynnwys cost pellach)	656,240	669,365	682,752
Cerbydau a Pheiriannau	19,290	19,676	20,069
Deunyddiau Uniongyrchol	632,720	645,374	658,281
Costau Is-gontractwyr/asiantaeth	1,533,326	1,563,992	1,595,272
Costau uniongyrchol eraill	59,840	61,037	62,258
<b>Cyfanswm Cost Uniongyrchol y Gwaith</b>	<b>2,901,415</b>	<b>2,959,443</b>	<b>3,018,632</b>
<b>Elw Gros (Cyfraniad)</b>	<b>916,679</b>	<b>935,013</b>	<b>953,713</b>
<b>Costau/Gorbenion Anuniongyrchol</b>			
Costau Cyflogeion Anuniongyrchol (cynnwys cost pellach)	276,360	281,887	287,525
Costau Safle	80,180	81,784	83,419
Costau canolig ac ad-daliadau	481,470	491,099	500,921
Arian wrth gefn	0	0	0
<b>Cyfanswm Anuniongyrchol/Gorbenion</b>	<b>838,010</b>	<b>854,770</b>	<b>871,866</b>
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>3,739,425</b>	<b>3,814,214</b>	<b>3,890,498</b>
<b>Gweddill / (Diffyg) Targed</b>	<b>78,669</b>	<b>80,242</b>	<b>81,847</b>

## Rhagdybiaethau Allweddol

1. Mae chwyddiant yn 2% y flwyddyn ar holl gostau ac incwm.
2. Rhagdybir mai costau deunyddiau ac is-gontractwyr yw'r rhai amrywiol, mae'r gweddill yn gostau sefydlog.
3. Mae'r nifer o eiddo a reolir yn aros yn gyson drwy gydol y cynllun.
4. Ni fodelwyd unrhyw gyfleodd twf busnes i'r dyfodol o fewn y cynllun.
5. Mae cost y rhaglen drawsnewid yn cael eu cwrdd gan enillion Gwerth am Arian yn ystod cyfnod y cynllun. Ni ragwelwyd unrhyw arbediad net yn ystod y cyfnod hwn, serch hynny llwyddir i arbed £250k o'r holl gyllideb atgyweirio (yn cynnwys cyllidebau atgyweiriadau cleient) erbyn 2017/18.
6. Mae sensitifrwydd 3 ynn rhagweld cynnydd bach mewn trosiant ac felly fe reolir y llwyth gwaith o'r gallu presennol a'r dyfodol o gynhyrchiant (o ganlyniad i welliannau Gwerth am Arian) ac felly nid oes angen cynnydd ym maint y gweithlu.

## Atodiad J

### Gofynion y Gwasanaeth Tai ehangach a thimau Cyngor Môn eraill i roi cymorth i'r Gwasanaeth Atgyweirio gyflawni rhagoriaeth.

1. Gwasanaethau Tai Ynys Môn i arwain/cydgordio cwynion cwsmeriaid, ac i sicrhau bod yr hyn a ddysgir a'r tueddiadau o'r rhain yn cael ei ddefnyddio i hysbysu ymdrechion i wella gwasanaeth.
2. Proffilio cwsmer i'w sefydlu.
3. Rôl y cwsmer – angen cronfa ddata rôl y tenant (sy'n adlewyrchu proffil y tenant) ar gyfer y rhai sy'n dymuno bod ynghlwm ar unrhyw lefel o'u dewis nhw.
4. Dewis cynhwysfawr o weithgareddau mewn perthynas â rôl y preswlydd.
5. Arolygon wedi eu canolbwyntio ar y cwsmer.
6. I weithio tuag at wobwr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer neu debyg.
7. I ymgysylltu â phobl ifanc a grwpiau eraill nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol.
8. Rhagor o hyfforddiant i denantiaid i'w galluogi i brofi effeithlonrwydd ein gwasanaeth.
9. Trefnu adborth 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' i'r cwsmeriaid.
10. Cynnal asesiadau effaith mewn perthynas â rôl tenant.
11. Cwblhau datganiad meincnodi cywir (HouseMark) a rhannu'r canlyniadau gyda'r Gwasanaeth Atgyweirio.
12. Y tîm cyllid i ddarparu arbenigedd/cymorth i reolwyr y Gwasanaeth Atgyweirio, gan sicrhau bod yr adrodd yn glir ac yn dryloyw.
13. Y tîm cyllid i roi cymorth i'r tîm i ddeall eu gyrwyr cost.
14. Y tîm cyllid i roi cymorth i gymariaethau cost tasgau i SOR's a dadansoddiad tuedd.
15. Y tîm cyllid i roi cymorth wrth werthuso cyfleoedd busnes newydd.
16. Adnoddau dynol - i roi cymorth i'r tîm ddatblygu strwythur tîm newydd rhwng y cleient a'r contractwyr a'r ymgynghori a'r gweithredu angenrheidiol.
17. Adnoddau dynol – arolygon staff i fesur boddhad.
18. Adnoddau dynol – cynllunio dilyniant a phrentisiaid.
19. TGCh – cefnogaeth a thechnoleg TGCh sydd yn addas i'r pwrpas, effeithlon, yn cynnwys gweithio symudol ac ati.
20. Tai – angen i'r Gwasanaeth Atgyweirio gysylltu'n fwy effeithlon gyda'r Gwasanaeth tai, gan sicrhau y rhoddir adborth ar draws y ddau dîm a chynnwys y Gwasanaeth Atgyweirio ar dasgau fel teithiau cerdded o amgylch ystadau.
21. Gwasanaethau Tai Ynys Môn i ddatblygu strategaeth rheoli asedau corfforaethol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Atgyweirio diwygiedig.

## Ymgynghori â thenantiaid ynglyn â newidiadau yn yr Adran Atgyweirio a Chynnal a Chadw

Cynhaliwyd yn Adeilad y Cadetiaid Môr, Caergybi ar 29 Ebrill 2014.

Presennol: Nia Backhouse, Claire L. Owen, Mark Flack, Bleddyn Rowlands, Glenys Rowlands, Stella Taylor, Jean Owen, Stephen Nelson, Betty Williams, Helen Pritchard, Jean Perrin.

Eglurwyd mai pwrpas y cyfarfod oedd ymgynghori â'r tenantiaid ynglŷn â dyfodol y Gwasanaeth Atgyweirio a Chynnal a Chadw ac edrych ar y gwerthusiad opsiynau.

### Cwestiwn 1

Beth sy'n bwysig i chi fel cwsmeriaid ein Gwasanaeth Atgyweirio?

- Mae'n bwysig cael rhywun yr ydych yn ei adnabod, mae'n dda gweld wyneb cyfeillgar. Mae'n braf cael cysondeb gyda'r crefftwr yr ydych yn ei weld, yr ydych yn gwybod y gallwch eu trystio.
- Dylai pob crefftwr wisgo bathodynau I.D.
- Pan fyddwch yn galw'r ganolfan Atgyweirio mae'n bwysig eich bod yn siarad gyda rhywun sy'n gwrando ar y broblem ac sy'n gallu dweud wrthyfch am rai dyddiadau ac amseroedd ac y gallwch fod yn hyblyg â hwy.
- Gyda'r Cyngor rydych yn gwybod pwy i'w ffonio i gael atebion. Pe bai'r gwaith cynnal a chadw yn mynd allan i gontractwyr allanol fydddech chi ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw.
- Mae'n bwysig eu bod yn gofyn i chi am eich rhif ffôn fel y gallant gysylltu â chi os ydynt yn rhedeg yn hwyr ac ati.
- Mae'n bwysig cadw arian yn yr economi leol i'w wneud yn gryfach, cyflogi pobl leol a chynnig hyfforddiant/prentisiaethau i bobl leol.
- Cael dull o sicio ar-lein fel y gall tenantiaid gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith atgyweirio.
- Nid ydym ar hyn o bryd yn derbyn 'rhif tasg' ac fe fyddai'n dda cael hynny.
- Mae'n bwysig bod holiadur gwasanaeth i'r cwsmer yn cael ei anfon allan ar ôl bob tasg fel y gall yr adran gael atborth, da neu wael.
- Gwneud yn siŵr bod y crefftwr iawn yn cael ei anfon gyda'r partiau iawn.
- Sgiliau gwasanaeth cwsmer da a sgiliau gwrando da, a sensitifwydd gan staff.
- Eglurder – gwybod lle rydych chi'n sefyll a gwybod y cyfnodau amser.

### Cwestiwn 2

Beth sy'n dda am y gwasanaeth Atgyweirio yr ydych yn ei gael gennym ni ar hyn o bryd?

- Mae gofal y cwsmer yn gwella
- Mae gwaith sicio a diogelwch nwy yn fedrus iawn.
- Mae'r bathodynau ID bob amser yn cael eu dangos
- Mae gwaith sicio diogelwch tân yn cael ei wneud yn rheolaidd
- Hapus iawn bod yr Adran yn sylweddoli bod lle i wella.

- Mae galwadau argyfwng wedi gwella'n sylweddol
- Pan wneir y gwaith mae'r ansawdd yn ardderchog
- Mae'n dda iawn bod safbwyntiau'r tenantiaid yn cyfrif yn y gwaith o ddatblygu'r adran.

### Cwestiwn 3

Yn eich barn chi beth sydd angen ei wella/ei gryfhau?

- Cyfathrebu o gychwyn i orffen gwaith atgyweirio.
- Partiau sbâr ar y faniau fel y gall y crefftwr o bosibl orffen y dasg ar yr archwiliad cyntaf.
- Glynw wrth gyfnodau amser penodol
- Ffurflenni boddhad i'w gadael gyda thenantiaid neu i'w e-bostio iddynt ar ôl cwblhau'r dasg.
- Pan fo rhywbeth cadarnhaol yn digwydd ac sy'n cael ei fwydo'n ôl i denantiaid e.e. pe bai llythyr wedi ei dderbyn yn diolch ac yn canmol yr Adran am y gwaith a wnaed yna fe allai gael ei gyhoeddi yn y llythyr newyddion. Mae angen rhoi gwybod i denantiaid am bob gwaith da, oherwydd nad ydym ond yn clywed am storïau negyddol ynglŷn â'r Cyngor yn y wasg leol.

### Cwestiwn 4

Sut byddech chi yn hoffi cymryd rhan er mwyn sicrhau gwasanaeth rhagorol?

- Monitro gwaith gan grefftwyr
- Hyrwyddo targedau
- Edrych ar sefydlu panel aml-lefel o blith tenantiaid, masnachwyr, staff arolygu a rheolwyr o fewn Cynnal a Chadw i fonitro'r trawsnewid a datrys materion gyda'n gilydd. Cyfarfod o bosibl yn chwarterol.
- Gallai tenant o bosibl fynd i dasg i gysgodi arolygwr. 'Tenant Wyliedydd'.
- Torri i lawr y pethau sy'n rhwystro cyfathrebu rhwng tenantiaid a staff. Cael y balans yn iawn.
- Hefyd mae'n bwysig iawn bod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar staff ac felly ni ddylid gosod unrhyw dargedau afresymol.

### Sylwadau Cloi

Ar ôl trafodaeth hir ar wahanol opsiynau ynglŷn â dyfodol yr Adran Cynnal a Chadw, roedd yr holl denantiaid oedd yn bresennol yn cytuno'n gryf y dylid cadw Gwasanaethau Cynnal a Chadw y Cyngor yn fewnol gydag un tîm cynnal a chadw. Roedd y tenantiaid yn teimlo y byddai hyn yn rhoi gwasanaeth mwy cyson ac effeithiol i'r tenantiaid.

Roedd y tenantiaid yn teimlo, yn dilyn y gwaith a wnaed yn ddiweddar ar broffilio tenantiaid, bod staff y Gwasanaethau Tai yn gwybod am rai problemau allai fod gyda thenantiaid yn adrodd am ddiffygion neu eisiau ymweliadau gan grefftwyr, er enghraifft tenantiaid gyda phroblemau clyw/gweld neu anabledau, angen llythyrau mewn print bras ac ati. Hefyd mae staff cynnal a

chadw dros y blynyddoedd wedi adeiladu perthynas weithio gryf gyda thenantiaid ac maent yn adnabod eu cymunedau'n dda, a byddai felly yn drueni pe na bai'r gwaith hwn yn parhau. Bydd hyn yn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu trin fel unigolion ac nid fel 'rhifau tasg' yn unig.

Hoffai'r holl denantiaid oedd yn bresennol yn y cyfarfod ddiolch i'r Gwasanaethau Tai am roi iddynt y cyfle i adrodd yn ôl i'r gwasanaethau sy'n cael effaith arnynt hwy fel tenantiaid ac roeddent yn gwerthfawrogi bod eu safbwyntiau yn cyfrif ac yn gwneud gwahaniaeth.

This page is intentionally left blank



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12.5.14</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4</b>
<b>AELOD PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS</b>
<b>SWYDDOG SY'N ARWAIN:</b>	<b>DIRPRWY BRIF WEITHREDWR</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT</b>	<b>RHEOLWR CYNLLUNIO BUSNES A RHAGLENNI</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ER GWYBODAETH AC I SGRIWTINEIDDIO'R CERDYN SGORIO</b>

## **1. RHAGARWEINIAD**

- 1.1** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i nodi a rhoi gwybod i ddarllenwyr am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn fanwl y llwyddiant o ran y modd y mae gwaith y Cyngor yn cael ei gyflawni o ddydd i ddydd.

## **2. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL**


- 2.1** Mae'r cerdyn sgorio'n parhau i gael ei ddatblygu a'i sefydlu'n gadarn gan adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. O ganlyniad, bydd angen ychwaneg o amser yn achos rhai elfennau cyn y gellir adrodd yn llawn ar yr holl ddangosyddion.
- 2.2** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa gyfredol ar ddiwedd chwarter 4 a bydd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mai 2014.

## **3. YSTYRIAETHAU**

3.1 Oherwydd mai hon oedd y flwyddyn gyntaf o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol, mae'r Cyngor yn dechrau gweld tueddiadau'n sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o ddangosyddion.

### 3.2 RHEOLI POBL

3.2.1 O ran Rheoli Pobl, nodwyd bod ein **cyfraddau salwch** (*dangosydd 1 ar y cerdyn sgorio*) yn dangos gwell sefyllfa ar ddiwedd Ch3 o gymharu â'r un adeg y llynedd. Roedd yr un sefyllfa'n bod ar ddiwedd Ch4, sef bod **12.38** o ddiwrnodau wedi eu colli oherwydd salwch fesul pob gweithiwr amser llawn cyfatebol (gweler Tabl (i)). Er bod hyn yn uwch na'n targed corfforaethol o 10 niwrnod, mae'n adlewyrchu gwelliant sylweddol oddeutu 2 ddiwrnod fesul pob gweithiwr amser llawn cyfatebol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon o gymharu â data 2012/13.




Tabl (i)

3.2.2 Bydd gwaith gwerthuso pellach ar absenoldeb salwch yn cael ei wneud yn ystod Ch1 2014/15 er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd o 2013/14 ac fel y gellir mabwysiadu'r arferion sy'n gwella ar draws y gwasanaethau.

3.2.3 Yn gysylltiedig â chyfraddau salwch (fel y nodwyd eisoes yn adroddiadau Ch3) yw rheoli salwch. Mae cydymffurfiaeth staff gyda pholisïau corfforaethol ynghylch salwch gan gynnwys **cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith** (*dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio*) yn rhan hollbwysig o'r broses hon.

3.2.4 Mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu'r arferion hyn yn gadarn ar draws y gwasanaethau ac mae cyflogi cydlynedd sy'n canolbwyntio ar salwch yn unig wedi arwain at welliant graddol a chyson yn ystod y 3 chwarter diwethaf, gyda Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn codi o 34% (Ch1) i 59% (Ch4) fel a nodir yn Nhabl (ii) isod.



Tabl (ii)

3.2.4.1 O ran ffigyrau absenoldeb salwch sydd yn sylweddol uwch na'r targed, gwelwn o'r data bod y ffigyrau ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion (gan gynnwys yr Uned Ddarparu) yn 21.38, Gwasanaethau Plant yn 13.55 ac Adran yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol yn 12.49.

3.2.4.2 Yr un modd, roedd angen gweld gwelliant o ran nifer y Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd yn Addysg (43% sydd yn awr yn cynnwys data ysgolion hefyd), Gwasanaethau Plant (59%) a Gwasanaethau Oedolion (66%) ond gwelwyd gwelliant sylweddol ym mhob un o'r rhain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gydag Addysg er enghraifft (a nodir yn Nhabl (iii) isod, yn gwella o safle isel iawn ar ddiwedd y flwyddyn i sefyllfa lle mae'r arfer wedi sefydlu'n gadarn yn ystod Ch3 ac Ch4.




Table (iii)

3.2.5 Fel y nodwyd yn Ch3 ac yma eto ar ddiwedd Ch4, mae angen i ni barhau gyda'r gwelliant cyffredinol hwn a sefydlu'r prosesau hyn yn gadarn yn ystod blwyddyn ariannol newydd 2014/15 er mwyn gostwng ymhellach ein cyfraddau salwch ni fel Awdurdod.

### 3.3 RHEOLI PERFFORMIAD

3.3.1 O ran Rheoli Perfformiad – ac mewn perthynas â'r dangosyddion ar gyfer y **Gwasanaethau Oedolion**, dylid cyfeirio at un o'r 4 dangosydd (*03 SCA/018b - % gofalwyr Oedolion sydd wedi cael adolygiad/asesiad o'u hanghenion*) sy'n

ymddangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio. Mae hyn wedi gostwng ymhellach o 68% yn Ch3 i 63% yn Ch4 yn erbyn targed o 85%. Fodd bynnag, er bod hyn eto'n is na'n canlyniadau cyffredinol ar gyfer 2012/13 (75%), byddem yn y chwarter uchaf yn genedlaethol yn ôl ffigyrau 2012/13 (unrhyw ganran uwchlaw 56%) ac mae'n arwydd o'r dasg heriol sydd wedi cael ei gosod ar gyfer yr adran eleni.




Table (iv)


**3.3.2** Nodwyd o'r cerdyn sgorio ar gyfer Ch3 fod 2/3 o'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y **Gwasanaethau Plant** wedi dirywio. O'r dangosyddion hyn, roedd 25% ohonynt yn perfformio yn well na'i targed. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth a oedd yn amlwg yn peri pryder ond bod y gwasanaeth wedi disgwyl hyn ac wedi bod yn tracio'r sefyllfa drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaeth. Nodwyd hefyd bod y dirwiad hwn wedi digwydd ar adeg pryd cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaeth (cynnydd o dros 200 o gyfeiriadau yn ystod Ch3 o gymharu â Ch3 yn 2012).

**3.3.3** Ar ddiwedd Ch4, roedd y dangosyddion a oedd wedi dangos dirwiad yn Ch3 wedi gwella rhywfaint ac er bod rhai'n parhau i fod yn is na'u targed, mae hyn yn dangos fod sgrwteiddio perfformiad y gwasanaeth a'r camau a gymerir i liniaru'r sefyllfa, yn cael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â rhai o'r problemau.

**3.4** Mae'r dirwiad a nodwyd yn y dangosydd (11 ar y cerdyn sgorio) SCC/43a yn Ch3 yn enghraifft o hyn oherwydd mae'r canlyniad ar gyfer Ch4 yn 72% yn erbyn targed o 75% o gymharu â 71% yn Ch3. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer 2012/13 (81%) ac, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, byddai'n ein rhoi yn y chwarter is yn genedlaethol.

**3.5** Gwelwyd gwelliant tebyg o ran y tanberfformiad yn erbyn y dangosydd targed (10 ar y cerdyn sgorio) ar gyfer ymweliadau statudol (SCC/025) yr adroddwyd arno yn Ch3. Erbyn Ch4, roedd y canlyniad wedi codi i 91% yn erbyn targed o 95% o gymharu â'r canlyniad ar gyfer Ch3, sef 86%. Mae'n bwysig nodi, er nad ydym wedi cyrraedd ein targed blynyddol, rydym yn parhau i berfformio'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 83% yn 2012/13. Felly, rydym yn parhau i fod yn


perfformio'n dda yn erbyn y ffigwr cenedlaethol ond dygir sylw at y ffaith ein bod yn parhau i fod ar ei hôl hi o ran ein targed lleol a heriol fel a ddangosir yn isod yn Nhabl (v).



Tabl (v)

**3.5.1** Gellir priodoli'r gwelliant i'r ffaith fod y gwasanaeth wedi adolygu ei brosesau ac wedi sefydlu systemau newydd i gysoni perfformiad ac i ddal Rheolwyr a staff yn atebol.

**3.5.2** Er bod yr holl ddangosyddion **Tai** yn wyrdd ac wedi cyrraedd neu'n uwch na'r targed ac wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ac o gymharu â'r canlyniadau ar gyfer 2012/13, dylid nodi y byddai dau o'r dangosyddion hynny yn parhau i olygu y byddai Ynys Môn yn y chwarter isaf yn genedlaethol. Byddai (12-HHA/002 *nifer y dyddiau rhwng yr adeg y mae person yn cyflwyno'i hun fel person digartref a'r amser a gymer i gyflawni dyletswydd*) a (14-HHA/017b *nifer y dyddiau ar gyfartaledd y mae'r holl aelwydydd digartref yn eu treulio mewn llety dros dro*) yn parhau i fod yn y chwarter isaf yn ôl data 2012/13. Mae gwelliant o 740 o ddiwrnodau i 646 o ddiwrnodau (*yn achos dangosydd 12 ar y cerdyn sgorio*) ac o 1224 o ddiwrnodau i 621 o ddiwrnodau (*yn achos dangosydd 14 ar y cerdyn sgorio*) yn cynrychioli gwelliant da, ond yn 2012/13 roeddem 265 o ddiwrnodau a 326 o ddiwrnodau ar ei hôl hi o gymharu â'r awdurdodau oedd agosaf atom yn achos y ddau ddangosydd. Mae'r rhesymau am hyn yn hysbys iawn i'r gwasanaeth a'n rheoleiddwyr.



Tabl (vi)

**3.5.3** Dygir sylw at y ffaith fod **Llyfrgelloedd**, tra'n dangos perfformiad unwaith eto sydd wedi cyrraedd y targed neu sy'n agos at y targed ar y cerdyn sgorio, wedi

gweld dirywiad o ran dau ddangosydd o'u cymharu â chanlyniadau 2012/13. Mae (19-LCL/001b – *nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth*) a (20-LCL/004 – *nifer y deunyddiau llyfrgell a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth*) wedi gweld dirywiad bychan o 1.5% a 3% yn y drefn honno.

**3.5.4** Mae'r dangosydd ar gyfer ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a **Hamdden** lle mae ymwelwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (22 – LCS/002b) wedi gwella yn ystod y flwyddyn gan gyflawni nid yn unig berfformiad cadarnhaol yn erbyn y targed ond gwelliant hefyd o 8% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**3.5.5** Nodwch nad yw'r wybodaeth ynglŷn â dangosyddion **Addysg** (31-35 ar y *cerdyn sgorio*), wedi newid o Ch3 oherwydd eu bod yn dargedau Blynyddol neu Dymhorol yr adroddwyd arnynt eisoes.

## **3.6 GWASANAETH CWSMER**

**3.6.1** Mewn perthynas â Rheoli Cwsmeriaid, nodwyd bod gwelliant o ran **nifer y galwadau ffôn** (*dangosydd 11*) sy'n cael eu hateb a'r amser y disgwylir iddo gymryd iddynt gael eu hateb.

3.6.1.1 Mae'r gwelliant o 10 eiliad i 9 eiliad yn ystod cyfnod Ch3 wedi cael ei gynnal ar gyfer Ch4 sydd eto'n dangos ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn o ran gofal cwsmer.

**3.6.2** O ran **Cwynion** (*dangosyddion 1-3*) nodwyd bod y cyngor wedi cael 61 o gwynion swyddogol yn ystod 2013/14 ac yr ymatebwyd i 79% o'r cwynion hynny mewn modd amserol. Mae hyn yn welliant o ran cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn 2012/13, set 79 ar gyfer y flwyddyn) gostyngiad o 23%).

**3.6.3** Mae mesurau lliniarol i roi sylw i ymatebion hwyr eisoes wedi cael eu nodi mewn adroddiadau blaenorol, megis yr angen am well cyfathrebu rhwng adrannau a chyda'r cyhoedd a'r angen i osgoi oedi o ran anfon gwybodaeth at y gwasanaethau perthnasol a llunio polisiau i ddelio gyda materion penodol sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Nodwyd hefyd bod angen gwirio taliadau rhent gan gynnwys materion hyfforddiant ynghylch prosesau/systemau.

## **4.ARGYMHELLION**

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgrwrtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi meysydd a all achosi pryder o ran perfformiad y Cyngor.

**4.2** Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn fel y gellir sôn amdanynt yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Mai 2014.



**People Management**

Title	Actual	Target	RAG
01) Sickness absence - average working days/shifts lost	12.38	10.00	Red
02) No of staff with attendance of 100%	Available in May		
03) Short Term sickness (days)	16537.69		
04) Long Term sickness (days)	12274.78		
05) % of RTW interview held	59.00	90.00	Red
06) % of stress related sickness	10.00		
07) No. of occupational health referrals	362.00		
08) No. or workplace injuries	315.00		
09) % of PDR's completed within timeframe	Available in June		
10) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE)	2365.88		
11) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE)	1394.98		
12) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) Annual	Available in May		
13) No. of formal grievances (proved / upheld)	0.00		
14) No. of formal grievances (not proved / not upheld)	0.00		
15) No. of disciplinary investigations (proved)	6.00		
16) No. of disciplinary investigations (not proved)	0.00		
17) Local Authority employees made redundant	10.00		
18) No. of Agency Staff	18.00		
19) No. of Permanent grant funded posts	24.00		
20) No. of Temporary grant funded posts	128.75		
21) No. of collaborative posts supported (not hosted)	19.00		
22) No. of collaborative posts (hosted)	21.00		
23) Designated home workers	2.00		
24) % of staff with email facility	52.00		

**Customer Service**

Title	Actual	Target	RAG
01) No. of Successful complaints	15.00		
02) No. of unsuccessful complaints	46.00		
03) % of Complaints responded to within timescale	79.00	100.00	Red
04) No of compliments	2820.00		
05) No of Concerns	92.00		
06) No of customer focus groups held	TBD		
07) No. of Ombudsman referrals	2.00	2.00	Green
08) Customer satisfaction rating	Not enough data to calculate - from April 2014		
09) Rate of reduction in telephone calls received (channel switching)	Not enough data to calculate - from April 2014		
10) Rate of reduction in letters received (further channel switching)	Not enough data to calculate - from April 2014		
11) Average time taken to answer telephone (sec)	9.00	9.00	Green
12) % of telephone calls abandoned Copy	14.40	14.65	Green
13) Customer response times (up to 3 for each service)	TBD		
14) Efficiency gains by channel switching	TBD		
15) No of incidents of a physical or verbal nature towards employees (H&S)	180.00		

**Notes**

**Performance Management**

Please note that the RAG score doesn't show benchmarking against other local authorities only the score in comparison with the local target. Please also note that figures provided are provisional and could change before final submission

**People Management**

Sickness Absence related figures are for April to February only

Ref 1. Sickness Absence over target - Adult & Provider Service (21.38), Childrens Services (13.55), Environment & Technical (12.49)

Ref 5. - % RTW interviews - Education (43%), Childrens Services (59%), Adult Services (65%). (Please note calculation is marginally incorrect due to issues with long term sickness)

Ref 19-22. Grant Funded Posts and Collaborative Posts - excludes data from Schools

**Financial Management**

No data was available for Quarter 4

**Financial Management**

Title	Spend (£000)	Variance (£000)	RAG
01) Projected end of year position (over spend)			
02) Spend v Profile (Over spend) Childrens Services			
03) Spend v Profile (Over spend) Housing			
04) Spend v Profile (Over spend) Provider Unit			
05) Achievement against efficiencies (over/under) Service 1			
06) Achievement against efficiencies (over/under) Service 2			
07) Achievement against efficiencies (over/under) Service 3			
08) Income v Targets – Under / Overachieving			
09) Spend on externally commissioned services (£)			
10) Spend on externally commissioned services (% of budget)			
11) Spend v Salary (£)			
12) Spend v Salary (% of budget)			
13) Cost of agency staff (£)			
14) Cost of sickness absence (Notional cost)			
15) Grants Income – Welsh Government			
16) Grants Income - European			
17) Grants Income – Other			

No financial information was available for Quarter 4 due to the end of the financial year

**Performance Management**

Title	Actual	Target	RAG
01) SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31st March	53.61	55.00	Green
02) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March	18.16	20.00	Green
03) SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year	63.20	85.00	Red
04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service	73.90	75.00	Amber
05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed	89.04	95.00	Amber
06) SCC/006: the % of referrals during the year on which a decision was made within 1 working day	98.77	100.00	Amber
07) SCC/011a: The % of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker	92.22	90.00	Green
08) SCC/042a: The % of initial assessments completed within 7 working days	90.86	85.00	Green
09) SCC/014: The % of initial child protection conferences due in the year which were held within 15 working days of the strategy	92.66	100.00	Amber
10) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations	90.54	95.00	Amber
11) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days	71.68	75.00	Amber
12) HHA/002 The average number of days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless	646.00	750.00	Green
13) HHA/016 The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast.	0.00	50.00	Green
14) HHA/017b the average number of days that all homeless households spent in other forms of temporary accommodation	621.60	750.00	Green
15) Council Tax collection rate	96.90	97.00	Amber
16) Closure of accounts according to Schedule	Yes	Yes	Green
17) Budget information to Services monthly	Partly	Yes	Amber
18) No of corrections made to Payroll during period	43.00	50.00	Green
19) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year, per 1,000 per population	281910.00	287000.00	Amber
20) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year per 1,000 population	310321.00	290000.00	Green
21) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes	129721.00	97450.00	Green
22) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity, per 1,000 population	614140.00	508740.00	Green
23) £X private investment secured	636603.00	300000.00	Green
24) £X public investment secured	8180000.00	500000.00	Green
25) 3% increase in tourism visits (%)	-1.50	3.00	Red
26) Attendance - Primary (%)	94.40	95.10	Amber
27) Attendance - Secondary (%)	93.20	92.50	Green
28) No. of Permanent Exclusions	0.00	5.00	Green
29) No. of days lost to temp exclusion - Primary	104.00		
30) No. of days lost to temp exclusion - Secondary	223.50		
31) KS3 - % pupils achieving CSI	81.50	75.80	Green
32) KS4 - % 15 year olds achieving L2+	54.20	59.80	Amber
33) KS4 - % 15 year olds achieving L2	83.20	76.10	Green
34) KS4 - % 15 year olds achieving L1	97.40	98.40	Amber
35) KS4 - % 15 year olds achieving CSI	50.60	58.60	Amber
36) THS/012: The % of principal roads (A), non-principal (B) roads and non-principal (C) roads that are in an overall poor condition	11.20	11.50	Green
37) CMT/001: The % of total length of Rights of Way which are easy to use by members of the public	59.00	55.00	Green

MONTHLY

QUARTERLY

ANNUAL

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>ADRODDIAD AT:</b>	<b>PWYLLGOR SGRIWTINI</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12 MAI, 2014</b>
<b>PWNC:</b>	<b>ADRODDIAD AR DDIOGELU</b>
<b>AELODAU PORTFOLLIO(AU):</b>	<b>Cyng. IEUAN WILLIAMS</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD</b>	<b>Gwynne Jones</b>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<b>01248 752921</b>
<b>E-bost:</b>	<a href="mailto:GwynneJones@anglesey.gov.uk">GwynneJones@anglesey.gov.uk</a>

## **1.0 ARGYMHELLION**

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor graffu ar gynnwys yr adroddiad ac i ddod i benderfyniad os yw materion yn ymwneud a diogelu yn cael sylw priodol gan ysgolion.

## **2.0 RHESWM**

Cwblhawyd yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu (*Safeguarding*) i Lywodraethwyr am yr ail flwyddyn. Gwnaed mân newidiadau i'r ffurflen fel bod y wybodaeth a gesglir yn fanylach.

Roedd y broses hunan arfarnu hefyd yn cynnwys golwg fanylach ar bolisiau, hyfforddiant, recriwtio diogelach a hunan werthusiad Estyn ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. O ganlyniad i'r broses hon dygwyd sylw gan Estyn at fater diogelwch mewn un ysgol yn unig. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n agos â'r ysgol honno ac mae'r materion perthnasol wedi derbyn sylw.

Mae pob ysgol uwchradd ac arbennig wedi llenwi a dychwelyd yr adroddiad. Fe'i dychwelwyd gan 45 allan o'r 48 ysgol gynradd. Ac felly, dychwelodd 51 (94%) o ysgolion yr adroddiad wedi ei gwblhau.

### **Cydlynwyr Dynodedig Amddiffyn Plant**

Roedd pob ysgol yn medru enwi Athro/Athrawes Ddynodedig Amddiffyn Plant a Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant. Yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd y person hwn yw'r Pennaeth. Mewn ysgolion uwchradd dirprwywyd y cyfrifoldeb i aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, fel arfer un gyda chyfrifoldebau bugeiliol. Mae'r cydlynwyr hyn oll wedi mynychu hyfforddiant a dargedwyd ac a ddarparwyd gan yr awdurdod. Mae angen edrych ar raglen anwytho ar gyfer penaethiaid newydd mewn blynyddoedd i ddod gan y bydd nifer o'r penaethiaid presennol yn cyrraedd oedran ymddeol. Mae'n hanfodol fod rhaglen anwytho yn cynnwys materion diogelu - recriwtio diogelach ac amddiffyn plant. Rhaid hefyd sicrhau fod ysgolion yn mynychu hyfforddiant pwrpasol.

## **Y sefyllfa bresennol**

Cynhelir yr hyfforddiant nesaf ym mis Gorffennaf i ystyried gwahanol senarios a chydweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu i edrych ar ansawdd y cyfeirio. Cynhelir hyfforddiant i staff dynodedig (a'u dirprwyon) sy'n newydd i'w swyddi (na chafodd hyfforddiant blaenorol) ar 22 Mai 2014. Hefyd, am yr ail dro, cynigir yr hyfforddiant hwn i Lywodraethwyr Amddiffyn Plant a Chadeiryddion Llywodraethwyr. Bu'n rhaid cynnig sesiwn ychwanegol gan na allai rhai Llywodraethwyr fynychu'r un a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2014.

## **Hyfforddiant generig i'r holl staff**

Mae'r awdurdod yn cynnig hyfforddiant ar-lein drwy Educare. Lluniwyd y rhaglen gan yr NSPCC i ddangos sut i adnabod gwahanol fathau o gamdriniaeth ac adrodd amdanynt. Cynigir yr hyfforddiant i bob aelod o staff (athrawon, cymorthyddion dysgu a staff cefnogi). Gofynnodd rhai ysgolion am i'r hyfforddiant yma gael ei roi i'w llywodraethwyr. Ers 2010 cwblhaodd mwy na 1,000 o staff yr hyfforddiant. Mae ysgolion ar hyn o bryd yn cofrestru staff ar gyfer sesiynau diweddar, sydd eto'n cael eu trefnu drwy Educare.

## **Y sefyllfa bresennol**

Mae'r adran wedi dechrau ystyried gofynion staff a ddaw i gysylltiad â phlant ond nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Adran Dysgu Gydol Oes. Rhoddwyd ystyriaeth i staff croesi'r ffordd, gyrwyr tacsî, gyrwyr bws, hebryngwyr, etc. Er bod y staff hyn wedi derbyn gwiriad DBS ond ni ellir dweud a ydynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Yn eu hateb, dywed yr Adran Prifffyrdd nad ydynt yn darparu hyfforddiant o'r fath i staff croesi'r ffordd. Nid yw'r contractau trafndiaeth presennol yn dweud fod rhaid i'r cwmnïau ddarparu hyfforddiant amddiffyn plant bob tair blynedd. Dygwyd hyn i sylw'r Grŵp Diogelu Corfforaethol a fydd yn mynd i'r afael â'r mater. Dywedodd Adnoddau Dynol y gallai staff croesi'r ffordd gael mynediad at hyfforddiant drwy'r system fewnol. Rhaid i unrhyw waith a gomisiynir sicrhau fod diogelwch yn cael ei wneud yn faen prawf "giât galed" - h.y. rhywbeth i'w basio neu ei fethu.

## **Gwiriadau DBS i Staff a Llywodraethwyr**

Mae pob aelod o staff ysgolion wedi derbyn gwiriad CRB/DBS. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n diweddarau gwiriadau DBS fel eu bod yn cael eu hadnewyddu bob 3 blynedd. Nid yw hyn yn ofyniad gan Estyn, ond nodir fel arfer da. Mae'r drefn newydd DBS yn galluogi gwiriadau ar lein pan ddaw'n amser i adnewyddu. Er mwyn i hynny ddigwydd, fodd bynnag, rhaid i staff gytuno i'r broses ac mae ffi o £13 i bob unigolyn. Mae adran bersonél y Gwasanaeth Addysg ar hyn o bryd yn gweithio gydag Adnoddau Dynol i edrych sut orau i weithredu'r trefniadau.

Penderfynwyd y dylai pob Llywodraethwr gael gwiriad manylach (*enhanced*) y DBS. Nid yw'n ofyniad gan Estyn, ond credir na all ysgolion gwblhau asesiad risg cywir o'u Llywodraethwyr heb gynnal gwiriadau llawn.

## **Polisiâu Diogelu**

Datblygodd yr awdurdod wefan o'r enw Addysg Môn lle gall ysgolion edrych ar dempledi ac enghreifftiau o bolisiâu. Arweiniodd hyn at gynyddu nifer y polisiâu mewn ysgolion. Mae'r wefan hefyd yn dangos pa mor aml y dylai ysgolion newid eu polisi.

## Y sefyllfa bresennol

Rydym fel sir yn adolygu ein polisi defnydd grym rhesymol gan fod staff enwebedig wedi derbyn hyfforddiant Respect a achredwyd gan Bild. Rydym yn gweithio ar draws Gogledd Cymru i edrych ar yr hyfforddiant a roddir i staff ar agweddau cyfreithiol ataliad (*restraint*). Teimlwn fod bwch yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

## Achosion o Fwlio

Fel awdurdod, cesglir gwybodaeth am nifer yr achosion bwlio mewn ysgolion yn ystod tymor yr haf. Cofnodir digwyddiadau yn ystod tymor haf y flwyddyn academaidd flaenorol a thymhorau hydref a gwanwyn y flwyddyn academaidd bresennol (i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol).

Dyma'r ffigyrau am y cyfnod Ebrill 2012 i Fawrth 2013:

Math o Fwlio	Nifer y digwyddiadau (ffigyrau y llynedd mewn cromfachau)	
	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd ac Arbennig
Seiberfwlio	1(3)	14(35)
Hil, crefydd a diwylliant	3(0)	3(15)
Homoffobig	0(1)	3(3)
Rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig	4(1)	2(2)
Yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau	0(0)	1(2)
Erail	67(23)	29(23)
Cyfanswm	75(28)	52(80)

Mae'r cynnydd yn y ffigyrau cynradd i'w briodoli'n bennaf i un ysgol ac mae angen cadarnhau os yw hyn i'w briodoli i gynnydd yn nifer y digwyddiadau ynteu fod y dull cofnodi'n anghywir. Mae ffigyrau pob ysgol arall yn debyg i ganlyniadau'r llynedd. Mae'n dal angen addasu'r cynllun peilot ysgolion uwchradd gan nad oedd eu hadroddiadau hwy yn dosbarthu'r wybodaeth mewn modd i'w ddadansoddi'n fanwl gywir. Byddwn yn parhau i berffeithio'r defnydd o reolydd ymddygiad SIMS gyda golwg ar ei ledaenu i ysgolion cynradd. Bellach, mae system SIMS ar gael ym mhob dosbarth ym mhob ysgol.

Awdur: Gwynne Jones

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: 6 Mai, 2014

ATODIAD 1-



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
DYDDIAD:	12 MAI 2014
PWNC:	CAU'R B4419 PENTRE BERW I LANGAFFO
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	RICHARD DEW
AWDUR YR ADRODDIAD: Ffôn: E-bost:	DEWI R WILLIAMS 752303 drwht@ynysmon.gov.uk

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn o ganlyniad i gais gan y Cynghorydd Peter Rogers yn dilyn cau'r B4419 ym Mhentre Berw ym mis Tachwedd 2013 ac yn Llangaffo ym mis Rhagfyr 2006/Ionawr 2007.

## 2.0 Cefndir

### 2.1 Cau'r ffordd ym Mhentre Berw - Tachwedd 2013

#### 2.1.1 Dymchweliad Ceuffos

Yn dilyn glaw trwm, cafodd Swyddogion Priffyrdd eu galw allan i ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â llifogydd ym Mhentre Berw ar ddydd Sadwrn 3 Tachwedd 2013 am 3.30pm. Achoswyd y llifogydd gan ddymchweliad ceuffos carreg 0.9m o led dan y B4419 ger ei chyffordd gyda'r A5 ym Mhentre Berw. Arweiniodd dymchweliad y geuffos at lifogydd ar yr A5 a garej y tŷ yn Penbont - wrth lwc, nid aeth y llif i mewn i'r tŷ. Gosodwyd goleuadau tair ffordd ar gyffordd yr A5/B4419 er mwyn diogelu defnyddwyr y briffordd rhag y dŵr llifogydd.

2.1.2 Cau'r Ffordd - gan fod dyfnder y geuffos yn amrywio o 4.5m i 5.5m, bu'n rhaid cau'r B4419 yn llwyr er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch defnyddwyr y briffordd a gweithwyr y contractwyr fel ei gilydd yn ystod y gwaith. O ganlyniad, cafodd traffig ei wyro ar hyd yr A4080 drwy Frynsiencyn a'r B4422 drwy Bethel. Roedd gwyriadau eraill ar gael i draffig lleol drwy Gaerwen, Llanddaniel Fab ac ati ond, yn gyffredinol, mae'r ffyrdd hyn yn gul ac yn droellog ac o'r herwydd, nid oedd yn beth doeth i annog traffig i ddefnyddio'r ffyrdd hyn.

Rhodddwyd gwybod drwy e-bost i'r pedwar Cynghorydd Lleol am y bwriad i gau'r ffordd a rhoes Gethin Jones, Swyddog y Wasg yn y Cyngor, wybod i'r cyhoedd ar Facebook a Trydar. Roedd yr ymarfer ar y cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus iawn a chafwyd rhagor na 10,000 o ymweliadau neu 'hits' ar y pwnc.

- 2.1.3 Adnewyddu'r Geuffos - er mwyn osgoi proses gaffael faith, dyfarnwyd y contract i Amey, y Contractwr Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyfnod Penodol. Penododd Amey isgontractwyr arbenigol, sef M.W. Thomas o Fae Colwyn i wneud y gwaith a chychwynwyd arno ar ddydd lau 8 Tachwedd, 5 niwrnod wedi i'r geuffos ddymchwel. Er mwyn cyflymu'r gwaith, gofynnwyd i'r contractwr weithio shifftiau dwbl, fel arfer o 6am i 9pm. Gwnaed hynny'n llwyddiannus er cawsant eu cyfyngu i un shifft ar rai diwrnodau, e.e. pan yr oedd angen gwneud gwaith cryfhau a selio concriid. Nid ystyriwyd bod gweithio yn ystod y nos yn ymarferol oherwydd bod tai'n agos iawn i'r safle ac oherwydd y gost ychwanegol.

Yn lle'r geuffos garreg, gosodwyd 14m o beipiau concriid 0.9m ar eu traws a oedd yr un fath â'r peipiau concriid a oedd eisoes wedi eu gosod yn y pen hwnnw o'r geuffos a oedd yn is i lawr yr afon (y pen gorllewinol). Bu'n rhaid gwneud y gwaith hwn fesul rhan gan gryfhau'r ffos er mwyn gwneud y gwaith tyllu gan fod y geuffos hyd at 5.5m o ddyfner. Yn ychwanegol at hyn, bu'n rhaid gweithio o gwmpas yr holl gyfleustodau a oedd yn croesi'r geuffos sef dŵr, carthffosiaeth a thelegyfathrebu ynghyd â'r ceblau trydan a oedd uwchben a thynnu colofn golau stryd.

Gwnaed ymdrechion i draffig lleol ddefnyddio ffordd fynediad gyfagos rhwng yr Holland Arms Hotel a Chapel Berea i un cyfeiriad yn unig ond, yn anffodus, mynnodd rai gyrwyr yrru i lawr y ffordd hon i'r cyfeiriad arall gan greu anhrefn llwyr oherwydd nid oedd modd i ddau gerbyd basio'r naill ar llall ar y ffordd hon gan olygu fod cerbydau'n bagio i mewn i waliau ac i gerbydau eraill.

Yn ystod rhai gyda'r nosau, cafodd y rhwystr ar y ffordd ei symud ac o'r herwydd bu'n rhaid gosod rhwystrau cadarnach yn ei le. Cafodd lleoliad y rhwystr hwn ei newid wedyn er mwyn caniatáu mynediad i ambiwlans argyfwng i eiddo lle yr oedd y perchennog yn ddifrifol wael.

Cwblhawyd y gwaith ar ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr, 4 wythnos a dau ddiwrnod wedi iddo gychwyn ar 8 Tachwedd. Cyfanswm cost y gwaith oedd £117.5k .

## 2.2 Cau Pont Reilffordd Llangaffo – Ionawr 2007

- 2.2.1 Cau'r Ffordd – Mae'r B4419 yn croesi Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru ar dro ongl sgwâr 1km i'r gogledd o Langaffo. Yn dilyn damwain ddifrifol a gafodd gyrrwr Cerbyd Nwyddau Trwm ar 7 Tachwedd 2006, cafodd rhan helaeth o'r parapet ei chnocio drosodd i'r rheilffordd. Gwnaed gwaith clirio brys gan Amey ac yn ogystal,

gosodwyd goleuadau traffig er mwyn cyfeirio traffig i ffwrdd o'r parapet a oedd wedi'i ddifrodi – costiodd hynny £800.

Cychwynnodd Network Rail waith trwsio ar y bont ar 7 Tachwedd 2006 a bu'n rhaid cau'r ffordd yn llawn oherwydd bod y bont mor gul ac oherwydd bod gan Network Rail amheuan ynghylch cadernid strwythurol y bont.

Oherwydd y Nadolig, rhoddodd contractwyr Network Rail y gorau i'r gwaith rhwng 22 Rhagfyr a 3 Ionawr.

- 2.2.2 Adnewyddu'r Parapet - oherwydd mai pont reilffordd yw hon, mae'n eiddo i Network Rail ac o'r herwydd, dim ond y nhw neu eu contractwyr sy'n cael gweithio arni. Penododd Network Rail contractwr o Salford i wneud y gwaith trwsio ac, yn anffodus, fe gymerodd hynny gryn dipyn o amser oherwydd eu bod yn gorfod teithio i ac o Salford bob diwrnod.

Cafodd y Cynghorydd Peter Rogers, Mr. Alan Jones a minnau gyfarfod gyda'r contractwr a 15 aelod o'r cyhoedd ar y safle ar 4 Ionawr ac er y llwyddwyd i gyflymu rhywfaint ar y gwaith, cymerodd gwaith gweddol syml oddeutu 6 wythnos i'w gwblhau. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd caniatâd i agor y bont i draffig, dan reolaeth goleuadau traffig, rhwng 3pm a 9am, h.y. y tu allan i oriau gwaith y contractwyr.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'r digwyddiad hwn oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio, y ffaith mai Network Rail wnaeth y gwaith a bod y Peiriannydd Strwythurol a fu'n ymwneud â'r gwaith bellach wedi gadael y Cyngor.

Nid oes gan yr awdurdod unrhyw fanylion am gost y gwaith a wnaed gan Network Rail, cost a fyddai wedyn yn cael ei hadennill gan gwmni yswiriant perchenogion y cerbyd a gafodd y ddamwain wreiddiol.

### **3.0 Argymhellion**

- 3.1 Mewn perthynas ag adnewyddu'r geuffos ym Mhentre Berw a phetai'r un sefyllfa'n codi eto, mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn dweud y byddai'n delio gyda honno mewn modd tebyg, sef:-
- a) Gweithio dwy shifft fel y gellid cwblhau'r gwaith yn gyflymach er y byddai hynny'n costio mwy.
  - b) Rhoi gwybod i'r cyhoedd a chynghorwyr lleol am y gwaith a'r bwriad i gau ffyrdd drwy ddefnyddio rhybuddion, negeseuon e-bost ynghyd â rhybuddion gan Swyddfa'r Wasg ar Facebook a Trydar.
  - c) Drwy ddefnyddio Amey, ein contractwr cyfnod penodol, byddai modd cychwyn y gwaith adeiladu ymhen 5 niwrnod.

3.2 Mewn perthynas â phontydd rheilffordd yn gyffredinol, byddai'n well petai Network Rail yn defnyddio contractwyr lleol, ond nid mater i'r Cyngor benderfynu arno yw hwn.

Awdur: Mr. Dewi Williams

Teitl Swydd: Pennaeth Gwasanaeth (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)

Dyddiad: 1 Mai 2014

**Atodiadau:**

**Background Papers:**





CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



## **RHAGLEN WAITH PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

Cadeirydd: Cynghorydd R Meirion Jones  
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwilym Jones

Mae'r tabl isod yn dangos Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Adroddir ar y Rhaglen Waith ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini er diben adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu dynnu / atal eitemau.

Cyswllt: Bev Symonds (Rheolwr Sgriwtini)  
Ffôn: 01248 752078  
E-bost: [bsxce@anglesey.gov.uk](mailto:bsxce@anglesey.gov.uk)

*Noder: Mae 4 prif Rôl i Sgriwtini: (1) I yrru gwelliant (2) Monitro Cyllideb y Cyngor a Fframwaith Polisi (3) Rhoi cymorth gyda Datblygu Polisi, a (4) Sicrhau bod y rhai sy'n gwneud Penderfyniadau yn atebol. Yn gyffredinol mae cynnwys yr agenda Sgriwtini wedi ei lenwi mewn modd sydd yn adlewyrchu cydbwysedd y ffordd yr ydym yn cyflawni'r rolau hyn. – Mae gennym Ddangosyddion Perfformiad i fonitro'r eitemau sydd gennym ar ein hagenda fel a ganlyn: Ymgynghorol ©, Monitro (m), Archwiliol (i), Cyn-sgriwtini (p).*

**BLAENRAGLEN WAITH SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2014-15.**

<b>Dyddiad Cyfarfod</b>	<b>EITEM</b>	<b>DIBEN</b>	<b>Lleoliad / Amser Cychwyn</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• DATGAN O DIDDORDEB</li> <li>• DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD</li> <li>• COFNODION</li> <li>• BLAENRAGLEN WAITH I BWYLLGOR</li> </ul>	) )- EITEMAU SAFONOL AR BOB AGENDA ) )	SWYDDFEYDD Y CYNGOR YNYS MÔN LLANGFNI
<b>17 Ebrill</b>	1. Blaenoriaethau Gwelliannau Blynyddol ©	Cais gan y Pwyllgor Gwaith	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Cytundeb canlyniadau©	Cais gan yr Uned Bolisi	
	3. Tai fforddiadwy (p)	Cais gan y Prif Weithredwr	
	4. Adroddiad Addysg Blynyddol	Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes	
	5. Data Craidd yr Awdurdod	Adroddiad i'w chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes	
6 Mai - Cyfarfod Briffio anffurfiol y Pwyllgor – I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion			
<b>12 Mai (Ch)</b>	1. Cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer chwarter 4 (m)	Penderfyniad busnes ar gyfer Sgriwtini i alw i mewn yn dilyn briffio anffurfiol, y swyddog cyfrifol i egluro unrhyw ddata yn ôl yr angen.	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Monitro cyllideb Refeniw a Chyfalaf C4 (m)	Cyfrifoldeb cyfansoddiadol i fonitro Cyllideb Gorfforaethol y Cyngor	
	3. Bwrdd rhaglen trawsnewid busnes(m)	Monitro Cynnydd	
	4. Bwrdd rhaglen rhagoriaeth gwasanaeth (m)	Monitro Cynnydd	
	5. Lein Amlwch (i)	Ystyriaeth bellach yn dilyn adolygiad gan bwyllgor y llynedd o'r Strategaeth Feicio Gorfforaethol	

	6. Pentre Berw –Cau'r B4419 (l)	Cais gan Aelodau'r Pwyllgor – Gwersi i'w dysgu a'u rhoi ar waith os yw hynny'n briodol	
25 Mehefin – Cyfarfod Briffio'r Pwyllgor – I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion			
<b>1 Gorff</b>	1. Trafodaeth gychwynnol parthed Cyllideb 2015-16 y Pwyllgor Gwaith (i)	Gwersi a ddysgwyd o'r flwyddyn ddiwethaf: i adolygu a gwirio dewisiadau corfforaethol ynglŷn â bidiau Gwasanaeth a heriau Cynnydd Trawsnewid h.y. yn erbyn bidiau Achos Busnes Prosiect ac i gychwyn yn gynt ar ymgynghori cyhoeddus a strategaeth gyfathrebu	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymuned) ©& (p)	Gofyniad cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru, edrych yn ôl a darparu data ar gyfer y ffordd ymlaen.	
	3. Cofrestr Risg Gorfforaethol ©	Adolygu yn ei chyfanrwydd ac unrhyw newidiadau ers y fersiwn ddiwethaf	
	4. Achos Busnes ar gyfer Prosiect Gweithio'n Ddoethach (i & p)	Cyn-sgriwtini i herio tybiaethau ac archwilio costau	
	5. <b>Eitem Thematig</b> – Rheoli Asedau	Yn cynnwys: Ysgolion, Llyfrgelloedd, Mân-ddaliad ac eiddo gwasanaeth Cymdeithasol.	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth
28 Awst – Cyfarfod Briffio'r Pwyllgor - I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion			
<b>1 Medi (Ch)</b>	1. Cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer chwarter 1 (m)	Penderfyniad busnes ar gyfer Sgriwtini i alw i mewn yn dilyn briffio anffurfiol, y swyddog cyfrifol i egluro unrhyw ddata yn ôl yr angen.	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Monitro cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch4 (m)	Cyfrifoldeb cyfansoddiadol i fonitro Cyllideb Gorfforaethol y Cyngor	
	3. Bwrdd rhaglen trawsnewid busnes (m)	Monitro Cynnydd	
	4. Bwrdd rhaglen rhagoriaeth gwasanaeth (m)	Monitro Cynnydd	
9 Hydref - Cyfarfod Briffio'r Pwyllgor - I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion			

<b>14 Hyd</b>	1. Adroddiad Perfformiad Blynyddol (m)		
<b>17 Tachwedd - Cyfarfod Briffio'r Pwyllgor - I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion</b>			
<b>24 Tach (Ch)</b>	1. Cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer chwarter 1 (m)	Penderfyniad busnes ar gyfer Sgriwtini i alw i mewn yn dilyn briffio anffurfiol, y swyddog cyfrifol i egluro unrhyw ddata yn ôl yr angen.	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Monitro cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch4 (m)	Cyfrifoldeb cyfansoddiadol i fonitro Cyllideb Gorfforaethol y Cyngor	
	3. Bwrdd rhaglen trawsnewid busnes (m)	Monitro Cynnydd	
	4. Bwrdd rhaglen rhagoriaeth gwasanaeth (m)	Monitro Cynnydd	
<b>7 Ionawr 2015 - Cyfarfod Briffio'r Pwyllgor - I baratoi ar gyfer y math o gwestiynau ar gyfer y cyfarfod ffurfiol a chymorth paratoadol i swyddogion</b>			
<b>2015 13 Ion (C)</b>	1. Sgriwtineiddio Cyllideb Gorfforaethol Ddrafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2015-16.  <i>Gall hyn gymryd diwrnod cyfan – gan roi amseroedd penodedig ar gyfer y meysydd Gwasanaeth perthnasol / PH i fod yn bresennol: I'w gadarnhau</i>	Dyletswydd gyfansoddiadol flynyddol i gwblhau gwaith Sgriwtini ar y Gyllideb. Gwahodd Penaethiaid Gwasanaeth i mewn i glywed cynigion a heriau eu meysydd Gwasanaeth, a chyngor yr UDA i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r Strategaeth Gorfforaethol a dewisiadau gwleidyddol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Polisi – Drafftio Adroddiad Sgriwtini'r Gyllideb yn unol â hyn ar gyfer y Pwyllgor Gwaith.	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
<b>2 Chwefror 2015 – (C) Drafftio'r adroddiad mewn ymateb i'r gyllideb, sesiwn i'r Pwyllgor.</b>			
<b>2015 10 Chwef (Ch)</b>	1. Cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer chwarter 12(m)	Penderfyniad busnes ar gyfer Sgriwtini i alw i mewn yn dilyn briffio anffurfiol, y swyddog cyfrifol i egluro unrhyw ddata yn ôl yr angen.	2:00pm Ystafell Bwyllgor 1
	2. Monitro cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch4 (m)	Cyfrifoldeb cyfansoddiadol i fonitro Cyllideb Gorfforaethol y Cyngor	
	3. Bwrdd rhaglen trawsnewid busnes (m)	Monitro Cynnydd	

	4. Bwrdd rhaglen rhagoriaeth gwasanaeth (m)	Monitro Cynnydd	
Blwyddyn ariannol newydd 2015-16. Cyfarfod cyntaf = 16 Ebrill			

**Allwedd:** (Ch) = Cyfarfodydd Monitro adroddiad Perfformiad a Chyllid Corfforaethol Chwarterol ar gyfer Sgrwtini.

(C)= Cyfarfodydd Sgrwtini Cyllideb Flynyddol a drafftio adroddiad Pwyllgor ar gyfer Sgrwtini.

